Digartrefedd ymhlith pobl ifanc: gweld tu hwnt i'r rhethreg

Ei dweud hi fel y mae

'baw isa'r domen, sgym – mi ges i 'ngalw'n gymaint o enwau am fyw dan bont ... ro'n i'n ei gasáu o. Ro'n i jysd yn casáu bywyd ... ro'n i eisiau cefnu ar gymdeithas. Ro'n i wedi cyrraedd y gwaelod beth bynnag'

(person ifanc a gyfwelwyd)

Astudiaeth ymchwil ansoddol graddfa fach yn gwrando ar bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sydd â phrofiad o ddigartrefedd ac angen dyrys

u
Julian Buchanan
Caroline Hughes
Menna Thomas
Caz Armstrong
Amanda Oakley
Shani Platt
Sian Davies
David Shinn
Greg Nicholas

Believe in children
Barnardo's Cymru

glyndŵr
PRIFYSGOL GLYNDŴR WRECSAM
GLYNDŴR UNIVERSITY WREXHAM

Ariannwyd gan Swyddfa Cymru ar gyfer Ymchwil a Datblygu

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cydnabyddiaethau

Carem ddiolch, a datgan ein gwerthfawrogiad, i bobl ifanc y Grŵp Ymgynghorol (Amanda Oakley, Sian Davies, Shani Platt, Greg Nicholas a David Shinn) a roddodd yn rheolaidd o'u hamser i gynnig cyngor, gwybodaeth a syniadau a luniodd, ac a ddylanwadodd ar, ymdrechion yr ymchwil. I'r asiantaethau (Compass Barnardo's, Hafan, Cawl y Ddraig, Tŷ Nos, y Foyer a Hostel Sant Ioan) a gynigiodd letygarwch a mynediad at bobl ifanc i ni. I Barnardo's, a dynnodd sylw at yr angen yn y lle cyntaf, ac a weithiodd law yn llaw â ni a gwneud popeth o fewn eu gallu i roi cyngor i ni, a hwyluso cysylltiad â phobl ifanc mewn angen. Ond yn anad dim, mae ein dyled yn fawr i'r ugain o bobl ifanc a siaradodd yn ffri â ni am sut a phryd y daethant yn ddigartref a sut beth yw bod yn ddigartref. Yn amlwg, nid yw'r siwrneiau anodd, ac yn aml, peryglus hyn, ar oedran mor ifanc, wedi bod yn hawdd eu derbyn ac nid ydynt bob amser yn hawdd siarad amdanynt. Eu lleisiau hwy sy'n cyfleu'r neges fwyaf grymus yn yr astudiaeth ymchwil ansoddol hon. Er mwyn gwarchod anhysbysrwydd yr ugain o bobl ifanc hyn, defnyddiasom system godio (PI1 i PI 20) yn fersiynau drafft yr adroddiad hwn, ond, yn wyneb natur ansoddol fanwl yr adroddiad a defnydd helaeth o naratif, penderfynasom ei bod hi'n bwysig hepgor y codio o'r adroddiad terfynol i amddiffyn anhysbysrwydd y bobl ifanc a gyfwelwyd yn llwyr.

Yn olaf, carem ddiolch i Swyddfa Cymru ar gyfer Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol am ariannu a chefnogi'r ymchwil hon. Nid yw'r safbwyntiau a'r barnau a fynegir yn yr ymchwil hon, o reidrwydd, yn adlewyrchu Swyddfa Cymru ar gyfer Ymchwil a Datblygu, Barnardo's Cymru na Phrifysgol Glyndŵr, ond maent yn cynrychioli safbwyntiau'r awduron.

Ein gobaith yw y bydd ymdrechion pawb a fu ynghlwm wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn yn cyfrannu at wella gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â natur ddyrys, cyd-destun a phrofiad bywyd pobl ifanc ddigartref.

JBuchanan.

Yr Athro Julian Buchanan
Tachwedd 2010

‘Yn y diwedd, mi ges i’n arestio ... sef be sy’n digwydd fel arfer, a dyna pam dw i mewn ac allan o’r jêl...

...doedd dim ots gen i gael fy arestio ... achos o leia yn y jêl, mae gynnoch chi rwtîn, mae gynnoch chi wely bob nos, mae gynnoch chi fwyd bob amser...

... mae hi mor hawdd dod i arfer efo fo ... mae’n well na bod allan ar y stryd ... y tro dwytha i mi ddod allan o’r jêl oedd ryw dair wythnos yn ôl, a do’n i ddim eisiau gadael...

.. ro’n i jysd wrth ’y modd efo’r rwtîn a chael pobl yna oedd yn gofalu amdana i ac yn trïo y’n helpu i.’

(Person ifanc a gyfwelwyd)

Cynnwys

Cydnabyddiaethau 2
Cynnwys 4
Data Demograffig 6
Cyd-destun a Phrofiad 6
Anghenion Pobl Ifanc Ddigartref, yn eu tyb hwy eu hunain 7
Rhwystrau rhag cael Mynediad at Wasanaethau 7
Hwyluso derbyn cymorth 8
Bylchau yn y gwasanaeth a ddarperir 8
Awgrymiadau pobl ifanc ar gyfer gwella 8
1. Cyflwyniad 10
Digartrefedd a Phobl Ifanc 10
Yr angen am ymchwil 14
Nod yr ymchwil 16
Amcanion yr ymchwil 16
Amserlen waith 17
2. Dulliau Ymchwilio 18
Cyflwyniad 18
Ystyriaethau moesegol 20
Sampl a dulliau 21
3. Canlyniadau: Data Demograffig 23
Sylw 26
4. Canlyniadau: Cyd-destun a Phrofiad 27
Cefndir teuluol a phrofiad dechrau oes 27
Profiadau bywyd 28
Ysgol 29
Sylw 30
5. Canlyniadau: Anghenion y Bobl Ifanc Ddigartref, yn eu tyb hwy eu hunain 31
Ymarferol: Sgiliau byw'n annibynnol 31
Ymarferol: Cefnogaeth i rieni ifanc 32
Ymarferol: Gwella cyflogadwyedd 33
Ymarferol: Sicrhau ffordd fwy sefydlog o fyw 34
Iechyd a lles: Bwyta'n iach 34
Iechyd a lles: Cyffuriau ac alcohol 35
Iechyd a lles: Iechyd meddwl ac emosiynol 36
Sylw 37
6. Canlyniadau: Rhwystrau rhag cael Mynediad at Wasanaethau 39
Rhwystrau systematig: Gwybodaeth am wasanaethau 39
Rhwystrau systematig: Ymdopi â'r Swyddfa Dai 40
Rhwystrau systematig: Help ar ôl 18 oed 41
Profiad personol o stigma a chamwahaniaethu 43
Canfyddiadau'r cyhoedd o ddigartrefedd 43

Sylw 46
7. Canlyniadau: Hwyluso derbyn cymorth 46
Cefnogaeth mewn hosteli 47
Cefnogaeth y sector gwirfoddol 48
Rhwydweithiau Cymdeithasol 49
Sylw 51
8. Canlyniadau: Bylchau yn y gwasanaeth a ddarperir 52
Llety anaddas 52
Cysgu allan 53
Llety brys 54
Llety parhaol 55
Sylw 57
9. Canlyniadau: Awgrymiadau pobl ifanc ar gyfer gwella 58
Sylw 60
10. Trafodaeth 62
Goblygiadau i Bolisi ac Ymarfer 64
11. Casgliadau ac Argymhellion 68
Argymhellion allweddol: 68
Cyfeiriadaeth 71

Crynodeb Gweithredol

Data Demograffig

O'r data demograffig, mae'n amlwg bod gan y bobl ifanc a gyfwelwyd anghenion dyrys a oedd yn cynnwys problemau iechyd emosiynol a meddyliol, anableddau, derbyn gofal a chael eu gwahardd o addysg brif ffrwd. O'r hanesion a glywyd, roedd cael mynediad at wasanaethau i gwrdd â'u hanghenion dynodedig yn dod yn fwy anodd unwaith iddynt ddod yn ddigartref; er enghraifft, mae'n anos cael cyflogaeth/addysg heb gyfeiriad parhaol. Dynodir hyn yn adroddiad Tasglu'r Uned Allgau Cymdeithasol 'Gwireddu Potensial Pobl Ifanc a Chefnogi'r Rheiny sy'n Gadael Gofal i Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant (2009)**1**. Canfu'r adroddiad, mewn ymgynghoriad â phobl ifanc, bod 75% o bobl ifanc Nad oedd mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) mewn un ardal (Norfolk) yn byw mewn tai anaddas, megis hosteli. Mae ardal Wrecsam, lle cynhaliwyd yr ymchwil, yn cynnwys ardaloedd o amddifadedd uchel gydag ardal Queensway wedi'i dynodi'n un o'r ardaloedd mwyaf amddifad yng Nghymru. Ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (a ddiwygiwyd yn 2010), a oedd yn cynnwys data o 190 o ardaloedd yng Nghymru, yn cymharu incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, sgiliau a hyfforddiant, tai, amgylchedd ffisegol, mynediad daearyddol at wasanaethau a diogelwch cymunedol, rhestrwyd Queensway y 3^{edd} mwyaf amddifad o'r cyfan. Fodd bynnag, mae yna nifer o ardaloedd yn Wrecsam sy'n cyrraedd sgoriau llawer uwch, felly nid yw'r amddifadedd yn helaeth nac, o reidrwydd, yn nodweddiadol o'r fwrdeistref.

Cyd-destun a Phrofiad

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc yn yr astudiaeth hon wedi tyfu i fyny mewn teuluoedd lle'r oedd gan eu rhieni/gofalwyr eu hanawsterau eu hunain i ymdopi â hwy. O'r herwydd, ni chafodd llawer o'r bobl ifanc y fantais o gael eu magu mewn amgylchedd diogel a fyddai'n sylfaen iddynt aeddfedu a datblygu. Yr hyn sydd hefyd yn ddiddorol yw'r ffaith bod rhai o'r bobl ifanc yn eu beio eu hunain pan oedd eu rhieni neu ofalwyr yn *'methu ymdopi'*, gan ddiffinio eu hunain yn '*blentyn problemus'*. Roedd bron i hanner y bobl ifanc wedi derbyn gofal gan yr awdurdod lleol (rh=9) ar sail tymor hir a thymor byr, fel ei gilydd. Mae adroddiad Tasglu'r Uned Allgau Cymdeithasol 'Gwireddu Potensial Pobl Ifanc a Chefnogi'r Rheiny sy'n Gadael Gofal i Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant (2009)**2** yn dynodi bod pobl ifanc sy'n gadael gofal, sydd ag anghenion cefnogaeth arwyddocaol, fwy o angen ymyriad cydlynol effeithiol. Heb ymyriad o'r fath, maent mewn perygl o fod dan anfantais bellach. Mae'r adroddiad yn dynodi'r grwpiau risg uchel, megis pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl, anawsterau dysgu, anawsterau emosiynol ac anawsterau ymlyniad, camddefnyddio sylweddau, troseddwyr ifanc a rhieni ifanc – gwelwyd anghenion o'r fath ymhlith y grŵp ymatebwyr.

---

1 Swyddfa'r Cabinet. (2009). Gwireddu potensial pobl ifanc: cefnogi'r rheiny sy'n gadael gofal i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant

2 Swyddfa'r Cabinet. (2009) Gwireddu potensial pobl ifanc: cefnogi'r rheiny sy'n gadael gofal i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant

Anghenion Pobl Ifanc Ddigartref, yn eu tyb hwy eu hunain

Dywedodd pob un o'r bobl ifanc a gyfwelwyd eu bod eisiau ffordd o fyw mwy sefydlog. Roedd sicrhau llety parhaol, a oedd yn bodloni eu hanghenion, yn flaenoriaeth ganddynt. Fodd bynnag, disgrifiodd rhai pobl ifanc sut y cawsant eu gosod mewn llety anaddas, a oedd yn broblem arbennig o anodd i rieni ifanc. Nid oedd llawer o'r bobl ifanc wedi cael cyfle i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i fyw'n annibynnol, megis cynllunio prydau, hylendid a chyllidebu. Roedd y bobl ifanc yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a roddwyd gan yr hosteli i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol. Roedd pob un o'r bobl ifanc yn anelu at fynd ar drywydd cyflogaeth neu addysg a hyfforddiant, er bod y ffaith nad oedd ganddynt lety parhaol yn creu sialensiau sylweddol o ran cyflawni'r nod hwn. Mae Adroddiad yr Uned Allgau: 'Pontio: Pobl Ifanc ag Anghenion Dyrys'**3** yn dynodi nad oes gan bobl ifanc agored i niwed, gan gynnwys y rheiny sy'n gadael gofal, y rhwydweithiau cymdeithasol a'r cyfalaf cymdeithasol angenrheidiol i alluogi iddynt wneud penderfyniadau gwybodus am eu dyfodol. Unwaith eto, dywedodd y bobl ifanc fod y gefnogaeth a roddwyd gan yr hosteli, gan gynnwys darparu swyddog hyfforddi, wedi bod yn fuddiol.

Rhwystrau rhag cael Mynediad at Wasanaethau

Ymddengys bod yna ddiffyg gwybodaeth hwylus ynglŷn â'r gwasanaethau sydd ar gael, gyda phobl ifanc yn disgrifio eu hunain yn ceisio dod o hyd i wasanaethau pan fyddant mewn sefyllfa argyfyngus. Cefnogir hyn gan ddeiseb ddiweddar Shelter Cymru 4 i Lywodraeth Cynulliad Cymru, a oedd yn galw am gynnwys addysg ynglŷn â gadael cartref ar y cwricwlwm cenedlaethol. Mae'n amlwg bod y bobl ifanc yn wynebu rhwystrau rhag cael mynediad at wasanaethau llinell flaen, yn enwedig felly yn y sector statudol. Diwygiwyd Deddf Plant 1989 gan Ddeddf Plant (Gadael Gofal) 2000 ac roedd y ddeddf newydd yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddarparu gwell gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc a oedd yn gadael gofal, fel rhan o'u cyfrifoldebau rhianta corfforaethol. Rhywbeth sy'n ymddangos yn groes i'r cysyniad o rianta corfforaethol yw'r ffordd y mae'r bobl ifanc yn disgrifio'r teimlad eu bod yn cael eu beirniadu gan y staff yn adran Ddigartrefedd yr adran dai. Mae hyn yn arbennig o anodd iddynt ymdopi ag ef, gan fod gofyn iddynt ddatgelu gwybodaeth bersonol am sut iddynt ddod yn gartref er mwyn sicrhau llety brys.

Yn amlwg, mae'n bwysig bod staff yn ymddwyn yn sensitif a chyda pharch pan fyddant yn cyfweld pobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae'r diffiniad o 'angen blaenoriaethol' yn creu anawsterau. Mae dynion ifanc dros 18 oed yn dueddol o beidio â chael eu gosod yn y grŵp 'angen blaenoriaethol', sy'n golygu eu bod yn annhebygol o gael blaenoriaeth yng nghyswllt awdurdod tai neu gymdeithas dai. Gall bobl ifanc ddigartref wynebu stigmateiddio a chamwahaniaethu gan y cyhoedd, sy'n effeithio ar eu hunan-barch, sydd eisoes yn isel. Gall hyn beri i bobl ifanc geisio celu eu sefyllfa, a theimlo eu bod yn cael eu halltudio o gymdeithas.

---

3 Adroddiad yr Uned Allgau (2005): 'Pontio: "Pobl Ifanc ag Anghenion Dyrys. Llundain, Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog.

4 Norman, K. (2009) Teens backing call to put leaving home on the curriculum, Western Mail, 3 Rhagfyr 2009. I'w weld ar-leinhttp://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/2009/12/03/teens-backing-call-to-put-leaving-home-on-the-curriculum-91466-25309111/ 29ain Mawrth 2010

Hwyluso derbyn cymorth

Mae yna ystod o gefnogaeth werthfawr ar gyfer pobl ifanc ddigartref yn Wrecsam a ddarperir gan y sector gwirfoddol, a cheir yno staff y mae'r bobl ifanc yn eu hystyried yn bobl ymroddedig, cefnogol a hawdd siarad â nhw. Fodd bynnag, dylid cydnabod bod darpariaeth rhai gwasanaethau gwirfoddol, er enghraifft, y gwasanaethau ôl-ofal yn Barnardo's, yn cael eu hariannu'n rhannol gan yr awdurdod lleol, felly nid yw'r gwahaniaeth rhwng y ddarpariaeth statudol a gwirfoddol yn un clir. Mae pobl ifanc yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer, gan gynnwys cefnogaeth ymarferol i ddiwallu'r anghenion sylfaenol o fwyd, cynhesrwydd a lloches, a chefnogaeth emosiynol. Mae pobl ifanc hefyd yn gwerthfawrogi cyfeillgarwch â phobl eraill mewn sefyllfaoedd cyffelyb, ac maent yn cael cefnogaeth o'r cydberthnasau y maent yn eu datblygu. Mae'r cydberthnasau yn arbennig o bwysig gan nad oes gan y bobl ifanc, yn aml, gefnogaeth teulu. Roedd y ffactor hon yn elfen amlwg o'r ymchwil, ac mae datblygu mecanweithiau i wella'r systemau cefnogi cymdeithasol pwysig hyn yn cael ei glustnodi fel argymhelliad ar gyfer gwella polisi ac ymarfer.

Bylchau yn y gwasanaeth a ddarperir

Mae'n anodd dynodi nifer y bobl ifanc ddigartref yn Wrecsam**5** gan fod yna 'bobl ddigartref gudd'. Er enghraifft, nid yw pobl ifanc nad oes ganddynt lety parhaol, ond sy'n 'syrffwyr sofa', yn ymddangos mewn ystadegau swyddogol. Mae'r bobl ifanc sydd wedi aros yn y lloches nos a ddarparwyd yn ddiweddar yn Wrecsam, Tŷ Nos, yn ei werthfawrogi, er bod rhai pobl ifanc yn betrus rhag mynd i'r lloches nos am eu bod ofn y bobl ddigartref hŷn, tymor hir, sy'n defnyddio'r cyfleuster. I bobl ifanc ddigartref, agored i niwed, mae llety ar ffurf *dormitory*, er ei fod yn well na chysgu ar y stryd, yn gallu bod yn brofiad eithaf bygythiol.

Ar adegau, ymddengys nad oes digon o le i ddiwallu'r galw, yn wyneb nifer y bobl ddigartref yn Wrecsam, sy'n cynnwys pobl ifanc. Mae yna bobl ifanc yn Wrecsam sy'n cysgu allan, mewn parciau, y tu allan i adeiladau cyhoeddus ac mewn llochesi dros dro. Mae pobl ifanc wedi dioddef troseddau yn eu herbyn, a chamdriniaeth eiriol pan oeddent yn ddigartref ar y stryd, gyda dros hanner yr ymatebwyr (rh=12) wedi bod yn ddioddefwr trosedd. Er i'r bobl ifanc siarad yn gadarnhaol am y gefnogaeth a roddwyd gan y sector gwirfoddol ac yn yr hosteli, profodd yn anodd iawn iddynt ddod o hyd i lety parhaol; mae rhestri aros am eiddo awdurdodau lleol a chymdeithasu tai yn hir, gyda phobl ifanc yn gorfod troi at ddefnyddio'r sector preifat, sydd heb yr un warchodaeth â darpariaeth tai cymdeithasol. Ymhellach, mae yna angen mwy o gefnogaeth hygyrch ac ymarferol pan fydd pobl ifanc yn cael eu tenantiaeth eu hunain.

Awgrymiadau pobl ifanc ar gyfer gwella

Awgrymodd y bobl ifanc ystod o welliannau, ac roeddent yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfleu eu syniadau. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys cynyddu'r ddarpariaeth llochesi nos, a mwy o agweddau strwythurol fel newid y diffiniad o 'angen blaenoriaethol' er

5 Hart, E., (2006) Papur Cwmpasu Pobl Ifanc Ddigartref, Llywodraeth Cynulliad Cymru, http://www.cynulliadcymru.org/c47f2ac6b4726e395a40b310f172f081.pdf defnyddiwyd 25ain Mawrth 2010

mwyn ei wneud yn llai cyfyng, yn enwedig yng nghyswllt dynion ifanc dros ddeunaw oed.

Dywedodd llawer o'r bobl ifanc fod cael rhywle i dreulio amser yn ystod y dydd yn bwysig; roedd yr anghenion a ddynodwyd yn cynnwys cael lle a gynigiai wres a lloches a llwybr at gyngor, ond yn bennaf, er mwyn cael cefnogaeth gan bobl ifanc eraill a oedd mewn sefyllfa gyffelyb. Mae'n berthnasol nodi, erbyn 31ain Mawrth 2010, y bydd y gwasanaeth Cynghorwyr Personol yn cael ei ddarparu'n fewnol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn hytrach na gan Barnardo's. Er y deellir bod darparu cyfleusterau pellach yn cael ei archwilio, bydd natur anffurfiol a hygyrch y gwasanaeth galw-heibio dyddiol cyfredol, sydd wedi ennill ei blwy, yn dod i ben.

Roedd y bobl ifanc yn gwerthfawrogi treulio amser gydag eraill a oedd wedi bod yn ddigartref, gan gredu eu bod yn deall eu sefyllfa yn well. Awgrymodd rhai pobl ifanc y dylai staff a gyflogir i weithio gyda phobl ifanc ddigartref fod wedi profi digartrefedd eu hunain. Gallai hyn fod oherwydd iddynt deimlo nad oedd rhai staff llinell flaen yn eu deall. Mynegodd y bobl ifanc eu hawydd i gynnig cefnogaeth a chyngor i bobl ifanc eraill, ac roeddent yn awyddus i weld mecanweithiau'n cael eu sefydlu er mwyn caniatáu iddynt wneud hyn.

1. Cyflwyniad

Digartrefedd a Phobl Ifanc

Mae digartrefedd yn broblem ddifrifol yn yr unfed ganrif ar hugain yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n gallu esgor ar ganlyniadau tymor hir dinistriol i'r bobl ifanc y mae'n effeithio arnynt. Mae digartrefedd bron yn treblu siawns person ifanc o ddatblygu anawsterau iechyd meddwl; mae'n ynysu pobl o gymdeithas y brif ffrwd ac yn eu gyrru i'r cyrion; ac mae'n aml yn gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol.6 Mae'r berthynas ryng-gysylltiol rhwng digartrefedd ymhlith pobl ifanc, allgau cymdeithasol difrifol ac amddifadedd lluosog wedi'i hen sefydlu. Mae pobl ifanc ddigartref, sy'n aml â hanes o gael eu gwthio i'r cyrion, yn wynebu rhwystrau sylweddol rhag cael mynediad at wasanaethau a chael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Mae chwalu'r cylch hwn o ddigartrefedd ac allgau cymdeithasol yn gofyn am ddarparu gwasanaeth integredig. Mae angen i asiantaethau allu gweithio ar y cyd mewn partneriaeth â'i gilydd i ymateb i'r problemau dyrys a wynebir gan bobl ifanc ddigartref a gallu ymgysylltu'n ystyrlon ac effeithiol gyda'r bobl ifanc7.

Nid oes yna unrhyw un diffiniad cyffredinol o ddigartrefedd. Er mai'r darlun nodweddiadol o ddigartrefedd yw cysgu allan, mae hefyd yn cynnwys diffiniad ehangach o bobl sy'n byw mewn amgylchiadau o dlodi eithafol (megis byw mewn tŷ adfeiliedig), neu mewn llety anaddas dros dro (megis cysgu ar soffa teulu neu ffrindiau)[8]. Mae digartrefedd yn amddifadu unigolyn o rywle i fyw sy'n sicr, yn ddiogel, yn iach ac yn breifat, gan eu gadael yn agored i niwed ac wedi'u hynysu oddi wrth rwydweithiau cefnogi o bwys[9]. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r term 'digartrefedd statudol', sy'n cyfeirio at unigolyn sy'n gallu dangos y canlynol:

a. Nid oes yna unrhyw lety y mae ganddynt hawl i'w feddiannu (nid ydynt wedi gwneud eu hunain yn fwriadol ddigartref) neu os oes yna lety, rhaid iddynt ddangos nad yw hi'n rhesymol iddynt barhau i fyw yno.
b. Rhaid iddynt gael eu pennu'n 'angen blaenoriaethol'.
c. Rhaid iddynt fod â hawl (oherwydd cysylltiadau lleol) i gael mynediad at y llety dros dro a'r llety parhaol sydd ar gael i'r awdurdod lleol hwnnw.

Rhaid i unrhyw un sy'n ceisio cymorth gan yr awdurdod lleol fodloni'r meini prawf uchod, sy'n agored i'w camddehongli10 ac mae hynny'n gallu ei gwneud hi'n anodd i

---

6. Adroddiad yr Uned Allgau (2005): 'Pontio: pobl ifanc ag anghenion dyrys' adroddiad terfynol Uned Allgau Cymdeithasol, Llundain: Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog

7 Gweler 1 uchod

8 Fitzpatrick, S., Kemp, P.A. a Klinker, S. (2000) Single Homelessness: An Overview of Research in Britain. Bryste: The Policy Press

9 Shelter Cymru (2007) Argyfwng Annaturiol: Adroddiad y Comisiwn Ymchwilio i ddigartrefedd ac amodau tai gwael yng Nghymru, Abertawe.

10 LICC(2009) Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd ar gyfer Cymru, 2009-2019, http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/090724homelessnessplanen.pdf

bobl gael eu pennu'n swyddogol ddigartref. Y grwpiau 'anghenion blaenoriaethol' a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw:

'...cynnwys pob person ifanc 16 ac 17 oed, yn ogystal â phobl ifanc sy'n gadael gofal a phobl ifanc eraill rhwng 18 ac 20 oed sydd mewn perygl o gael rhywun yn cam-fanteisio'n rhywiol neu'n ariannol arnynt. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn gofyn bod awdurdodau lleol yn rhoi angen blaenoriaethol i bobl ifanc eraill sy'n agored i niwed oherwydd rhyw reswm arbennig. Mae'r Cod Canllawiau statudol yn gofyn i awdurdodau lleol roi ystyriaeth benodol i bobl ifanc sydd heb unrhyw lwybr at gefnogaeth rhieni. Mae hi hefyd yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i greu strategaethau digartrefedd' [11]

Hyd yn oed os yw rhywun yn cael ei ystyried yn 'statudol ddigartref', os ydynt hwy neu aelod o'u teulu wedi 'ymddwyn yn annerbyniol', a bod hynny wedi achosi iddynt gael eu pennu'n anaddas fel tenant, fe allent fod yn anghymwys i gael tai[12]. Fodd bynnag, er gwaethaf y diffiniad cul hwn yn 2007, pennwyd 6,336 o aelwydydd yng Nghymru yn 'statudol ddigartref'[13].

Er bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gasglu data ynglŷn a nifer y bobl sy'n ddigartref, maent yn dueddol o ganolbwyntio ar y rheiny a bennir yn 'statudol ddigartref' ac felly mae'n anodd rhoi amcangyfrif cywir o nifer y bobl ddigartref sy'n byw yng Nghymru. Mae'n anochel bod yna ganran sylweddol o bobl sy'n ddigartref ond sy'n methu cymhwyso ar gyfer cymorth tai gan awdurdodau lleol. Bydd y bobl hyn yn aml yn troi at y teulu estynedig a ffrindiau, ac fe allant geisio cymorth tai gan y sector preifat neu wirfoddol, ond nid yw'r sectorau hyn, fodd bynnag, yn cynnig llety i bawb, ac mae ganddynt hefyd feini prawf penodol y mae'n rhaid eu bodloni. Nid yw'n synod, yn wyneb yr adnoddau prin sydd ar gael, bod polisi tai sy'n gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddarparu lloches ar gyfer grŵp arwahanol o bobl ddigartref, wedi creu tensiynau rhwng y sector gwirfoddol a'r sector statudol.[14] Fodd bynnag, gwnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ei hadroddiad *'Busnes pawb - Cyfrifoldeb* neb', nifer o argymhellion pwysig i fynd i'r afael â phroblem digartrefedd ymhlith pobl ifanc, gan gynnwys:

- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol weithio mewn partneriaeth i symleiddio'r system ddyrys gyfredol o fynediad at, a gwybodaeth am, y gwasanaethau sydd ar gael i bobl ifanc ddigartref.
- Lle bo angen, darparu cyllid digonol ar gyfer gwasanaethau digartrefedd dynodedig ar gyfer pobl ifanc.

---

11 Hart, E., (2006) Papur Cwmpasu Pobl Ifanc Ddigartref, Llywodraeth Cynulliad Cymru, http://www.cynulliadcymru.org/c47f2ac6b4726e395a40b310f172f081.pdf defnyddiwyd 25ain Mawrth 2010

12 Wincup, E. (2009) Addressing Homelessness through Effective Partnership Working, in R Carnwell & J Buchanan (eds) Effective Practice in Health, Social Care & Criminal Justice: A partnership approach, Gwasg y Brifysgol Agored, Maidenhead.

13 Shelter Cymru (2008) Adeiladu ar y gorffennol: Rhoi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru, Adroddiad Cynhadledd 2008

14 Wyner (2005) Working Together with People who are Homeless R Carnwell & J Buchanan (golygyddion) Effective Practice in Health & Social Care: A partnership approach, Gwasg y Brifysgol Agored, Maidenhead.

- Rhoi arweiniad i awdurdodau lleol ynglŷn â gwaith cydgysylltiedig ar holl agweddau digartrefedd ymhlith pobl ifanc o fewn yr awdurdod lleol a chydag asiantaethau allanol, y naill a'r llall, er mwyn cynyddu gwaith traws-adran ac aml-asiantaeth, a gwella'r gwasanaeth a ddarperir ar gyfer pobl ifanc ddigartref.
- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol gynnwys defnyddwyr gwasanaeth ym mhob agwedd o gynllunio a llunio polisi ar gyfer gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc ddigartref.[15]

Mae argymhellion a chanllawiau polisi yn bwysig ond yn y pen draw, mae angen iddynt gael eu gweithredu, ac mae angen i'w buddiannau gael eu profi ar lawr gwlad. Nid yw'r adroddiad ymchwil hon yn ceisio cynnig gwerthusiad 'proses a chanlyniadau' o wasanaethau digartrefedd ar gyfer pobl ifanc yn Wrecsam; yn hytrach mae'n cyfleu canfyddiadau a phrofiadau pobl ifanc ddigartref yn yr ardal.

Yn gyffredinol, mae digartrefedd ymhlith pobl ifanc yn cyfeirio at bobl rhwng 16 a 24 oed. Mae adroddiad diweddar yn amcangyfrif bod oddeutu 75,000 o bobl ifanc yn y DU yn profi digartrefedd bob blwyddyn16. Canfu'r adroddiad hwn bod digartrefedd ymhlith pobl ifanc yn fwy amlwg ymhlith pobl o gefndiroedd economaidd gymdeithasol difreintiedig a/neu'r rheiny sydd wedi profi tarfu neu drawma yn eu plentyndod. Ceir cysylltiad cryf rhwng pobl ifanc a fethodd gwblhau eu haddysg, cyflogaeth neu hyfforddiant a digartrefedd17. Mae digartrefedd ei hun hefyd yn cael *'effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl a/neu yn cyfrannu at ddechrau problemau camddefnyddio sylweddau (neu waethygu problemau cyfredol)'18.*

Mae camddefnyddio sylweddau a dibyniaeth ar alcohol, y naill a'r llall, yn gweithredu fel catalydd yn ogystal â symptom ar gyfer digartrefedd ymhlith pobl ifanc19, mae'r grŵp hwn hefyd yn bryder penodol yng nghyswllt y perygl o hunanladdiad20. Mae pobl ifanc ddigartref sydd â phroblemau camddefnyddio cyffuriau ac anawsterau iechyd meddwl posib (diagnosis dwbl) yn her sylweddol i wasanaethau, oherwydd cymhlethdod eu hanghenion cyfreithiol, iechyd a chymdeithasol. Mae eu cyfranogiad a'u hymgysylltu mewn cymdeithas yn cael eu llesteirio'n ddifrifol gan ddiffyg cyflogadwyedd ac anhawster i gael mynediad at y systemau cefnogaeth lles21.

Mae'n bosib i sawl cyfle gael ei fethu gyda chefnogi'r bobl ifanc hyn pan oeddent yn blant; fodd bynnag, mae cyfnod blaenlencyndod ac oedolyn ifanc yn gam hollbwysig mewn datblygiad, pan fydd pobl ifanc yn wynebu newid ffisiolegol, seicolegol a

---

15 Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006 tud 29) Busnes Pawb – Cyfrifoldeb Neb: Adroddiad ar Ddigartrefedd ymhlith Pobl Ifanc, Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Caerdydd LICC

16 Quilgars, D., Johnsen, S. & Pleace, N., (2008) Youth homelessness in the UK, Sefydliad Joseph Rowntree, Caerefrog

17 Shelter Cymru (2007) Argyfwng Annaturiol: Adroddiad y Comisiwn Ymchwilio i ddigartrefedd ac amodau tai gwael yng Nghymru, Abertawe.

18 Shelter Cymru (2007) Argyfwng Annaturiol: Adroddiad y Comisiwn Ymchwilio i ddigartrefedd ac amodau tai gwael yng Nghymru, Abertawe (tud 36).

19 Wincup, E., Bayliss, R. & Buckland, G., (2005). Listening to young homeless problem drug users: Considering the implications for drug service provision. Cylchgrawn y Gwasanaeth Prawf, 52(1), 39-55.

20 Bickley, H. et al., 2006. Suicide in the homeless within 12 months of contact with mental health services. Social Psychiatry and Psychiatric Epidemiology, 41(9), 686-691.

21 Shelter Cymru (2007) Argyfwng Annaturiol: Adroddiad y Comisiwn Ymchwilio i ddigartrefedd ac amodau tai gwael yng Nghymru, Abertawe.

chymdeithasol arwyddocaol. Mae'n gyfnod pontio, yn llawn peryglon, ac eto mae ganddo'r posibilrwydd o fod yn un a allai gynnig posibiliadau a dyfodol newydd. Mae datblygu strategaethau atal ac ymyrryd cynnar effeithiol yn bwysig er mwyn i bobl ifanc ddigartref gael cyfle i gael ffordd o fyw mwy sefydlog a chynhyrchiol cyn i batrymau byw a phrofiadau negyddol danseilio ymhellach eu hymddygiad, eu cydberthnasau, eu hymdeimlad o hunaniaeth a'u hunan-barch. Gallai gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n deillio o ymchwil ddylanwadu ar ddatblygu gwasanaeth gofal cymdeithasol a ddisgrifir yn *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol* fel un sy'n ceisio darparu ymyriadau cynharach er mwyn hyrwyddo annibyniaeth a cyflawni potensial llawn unigolyn.

Credir bod ymyrraeth gynnar gyda phobl ifanc agored i niwed sydd wedi'u gwthio i'r cyrion, ac sy'n dioddef problemau lluosog, yn greiddiol er mwyn rhwystro anawsterau a phatrymau ymddygiad dyfnach rhag bwrw gwreiddiau[22]. Mae ymchwil gydag oedolion digartref sydd â hanes o anawsterau iechyd meddwl yn awgrymu bod rhoi mwy o ystyriaeth i'w barn a'u safbwyntiau o ran natur a math y gwasanaethau a ddarperir yn gallu arwain at well ymgysylltu ac ymlyniad i driniaeth[23]. Credir bod pwysigrwydd deialog i geisio taro cydbwysedd rhwng annibyniaeth a dibyniaeth yn allweddol er mwyn gwella gofal proffesiynol gyda phobl ifanc ddigartref[24]. O ran 'beth sy'n gweithio' gyda phobl ifanc agored i niwed, mae ymchwil yn awgrymu bod llwyddiant yn dibynnu'n helaeth ar ansawdd y berthynas rhwng staff prosiect a'r bobl ifanc [25], a bod darpariaeth gwasanaeth effeithiol a phriodol yn gofyn bod asiantaethau yn cynnwys pobl ifanc ddigartref, yn gwrando arnynt ac yn gwerthfawrogi eu canfyddiadau a'u profiadau.

Mae cyfarwyddebau polisi a chyfraith y Deyrnas Unedig, sy'n sbarduno'r ddarpariaeth gwasanaeth ar gyfer pobl sy'n ddigartref, yn cael eu hamlinellu gan Emma Wincup[26]:

> Yn 2003, lansiodd y gyfarwyddiaeth [Digartrefedd] ei chynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â digartrefedd. Mae teitl yr adroddiad *More than a Roof* yn adlewyrchu ei ddealltwriaeth 'nad yw dim ond rhoi to dros ben rhywun bob tro yn datrys ei ddigartrefedd neu digartrefedd' (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog 2003). Roedd yn pwysleisio pwysigrwydd gwaith cydgysylltiedig ar lefel y llywodraeth ac ar lefel awdurdod lleol, a'r angen am bartneriaethau effeithiol. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, cyhoeddwyd strategaeth i fynd i'r afael â digartrefedd yn dwyn y teitl *Sustainable Communities: Settled Homes; Changing Lives'* (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog). Nod hon yw haneru nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn llety awdurdod lleol dros dro erbyn 2010 drwy fynd ar drywydd dau drac: atal digartrefedd a chynyddu mynediad at gartrefi sefydlog. Mae gan y targed hwn y potensial i annog awdurdodau lleol i ganolbwyntio eu hymdrechion ar fynd i'r afael â digartrefedd ymhlith y rheiny y mae angen iddynt ddarparu llety dros dro ar eu cyfer, ar draul pobl ddigartref eraill. Yn wyneb y rhyng-gysylltiadau rhwng digartrefedd ac agweddau eraill o

---

22 Wincup, E., Bayliss, R. & Buckland, G., (2005). Listening to young homeless problem drug users: Considering the implications for drug service provision. Cylchgrawn y Gwasanaeth Prawf, 52(1), 39-55.

23 D. K. Padgett, L. Gulcur, a S. Tsemberis (2006) Housing First Services for People Who Are Homeless With Co-Occurring Serious Mental Illness and Substance Abuse Research on Social Work Practice, Ionawr 1, 2006; 16(1): 74 - 83.

24 de Winter, M. & Noom, M., (2003). Someone who Treats you as an Ordinary Human Being ... Homeless Youth Examine the Quality of Professional Care. Br J Soc Work, 33(3), 325-338

25 Shelter Cymru (2007) Argyfwng Annaturiol: Adroddiad y Comisiwn Ymchwilio i ddigartrefedd ac amodau tai gwael yng Nghymru, Abertawe.

26 Wincup, E. (2009: tud 132) Addressing Homelessness through Effective Partnership Working, in R Carnwell & J Buchanan (eds) Effective Practice in Health, Social Care & Criminal Justice: A partnership approach, Gwasg y Brifysgol Agored, Maidenhead.

allgau cymdeithasol, gallai ystod helaeth o bolisïau'r llywodraeth gael effaith ar fywydau pobl ddigartref... Lansiwyd *Supporting People* yn 2003, ac mae'n rhaglen sengl sy'n dwyn ynghyd wasanaethau cefnogi ym maes tai er mwyn helpu pobl ddigartref, ymhlith eraill, i wella neu gynnal eu gallu i fyw'n annibynnol. Bernir bod partneriaeth yn 'hollbwysig' (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog 2004c: 6) i'r rhaglen.

Yr angen am ymchwil

Er bod gan ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc nodweddion cyffredin ledled y DU, mae yna ffactorau rhanbarthol a lleol nad ydynt wedi'u llwyr ddeall. Mae camddefnyddio sylweddau ac anghenion iechyd meddwl yn creu cymhlethdod pellach a newidynnau rhanbarthol. Mae'r ymchwil hon yn archwilio anghenion grŵp bach o bobl ifanc ddigartref (rh=20) yn Wrecsam – y dref fwyaf yng Ngogledd Cymru. Yn weddol ddiweddar, mae cau pyllau glo a ffatrïoedd wedi taro'r ardal hon yn galed. Yn sgil y dad-ddiwydianeiddio, dynodwyd rhai rhannau o Wrecsam yn ardaloedd *Cymunedau yn Gyntaf* ac maent yn derbyn arian adfywio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn fwy diweddar, bu'n rhaid wrth addasu pellach pan gyrhaeddodd mewnlifiad arwyddocaol o weithwyr mudol o dde a dwyrain Ewrop. Mae adfywio'n parhau wrth i dref Wrecsam gael ei gweddnewid yn ganolfan o bwys yng Ngogledd Cymru ym maes gweinyddiaeth, addysg, masnach, siopa, diwylliant a diwydiant. Bydd yr astudiaeth ymchwil ansoddol graddfa fach hon, sydd wedi'i lleoli yn Wrecsam, yn archwilio ffyrdd i wella darparu gwasanaeth ac ymarfer ar gyfer grŵp agored i niwed o bobl ifanc ag anghenion dyrys, rhwng 16 a 24 oed, sy'n profi digartrefedd ac sydd hefyd, o bosib, ag anawsterau iechyd meddwl, anableddau dysgu a/neu broblemau camddefnyddio sylweddau.

Mae 'Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol' yn clustnodi'r galw cynyddol ar wasanaethau iechyd meddwl oedolion, ac mae'n tynnu sylw at yr angen am ' *ddarparu'r gwasanaeth iawn ar yr adeg iawn*', gan awgrymu bod angen i wasanaethau gael eu '*hail-gydbwyso er mwyn caniatáu i wasanaethau gael eu darparu'n gynharach, eu teilwra ar gyfer anghenion unigol ac atal neu ohirio pobl rhag cael eu symud at lefel uwch o angen'.* Mae'r ymchwil hon yn Wrecsam yn helpu i glustnodi'r ffordd orau o gefnogi a mynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc sydd mewn perygl mawr o barhau i fod yn ddigartref, camddefnyddio sylweddau a breuder emosiynol a chymdeithasol pan fyddant yn oedolion. Ymhellach, drwy fabwysiadu dealltwriaeth integredig o angen unigol, y gobaith yw y bydd canlyniadau'r ymchwil yn sail i ystyried sut y gallai gwahanol wasanaethau weithio orau gyda'i gilydd i fynd i'r afael ag anghenion amlweddog y grŵp hwn. Bydd hyn yn sail i'r sbardun i gynyddu effeithiolrwydd ymyriadau cyfyngedig, gwella ansawdd bywyd a lleihau perygl pellach.

Mae'r ymchwil yn archwilio mynediad at wasanaethau sydd â'r nod o gefnogi pobl ifanc i fod yn annibynnol. Gan fod y grŵp yma o bobl ifanc mewn perygl o ddod yn oedolion a fydd yn dibynnu'n drwm ar gefnogaeth gofal cymdeithasol yn y tymor hir, dylai'r ymchwil hon helpu i ddylanwadu ar yr agenda ar gyfer dyfodol gofal cymdeithasol sy'n ceisio lleihau dibyniaeth ar wasanaethau, a chefnogi agenda o'r fath; *'Bydd gan ddefnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'u teuluoedd, sydd wedi'u haddysgu'n well ac sydd â mwy o wybodaeth a grym, yr hawl i ddisgwyl chwarae rhan lawer mwy gweithredol yn*

y gwaith o reoli eu sefyllfaoedd hwy eu hunain. Bydd hyn yn helpu i yrru newid ac arloesi'27

Defnyddiodd yr ymchwil hon wybodaeth ac arbenigedd staff a defnyddwyr gwasanaeth o brosiect Compass Barnardo's Cymru (yr asiantaeth arweiniol) sy'n darparu cefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal, cyngor am dai, cefnogaeth gyda thenantiaeth, Cynllun Gwarant Bond a gwasanaeth Galw-Heibio. Roedd yr ymchwil a gyflawnwyd gan Brifysgol Glyndŵr yn defnyddio methodoleg a oedd wedi'i seilio ar ddull gweithredu cyfranogol. Er nad y bobl ifanc a bennodd yr agenda ar gyfer yr ymchwil, buont yn chwarae rhan amlwg yn dylunio dulliau gweithredu a thechnegau ar gyfer cael gafael ar y wybodaeth o'r safon uchaf. Mae'r dull gweithredu cyfranogol hwn yn adlewyrchu'r ethos a ddefnyddir gan asiantaeth arweiniol yr ymchwil, Barnardo's Cymru. Wrth ddarparu gwasanaethau drwy wasanaeth Compass Wrecsam, mae Barnardo's Cymru'n cefnogi'r agenda gref dros newid ym maes gofal cymdeithasol sy'n gweld *'Gwasanaethau Cymdeithasol yn fwyfwy ddod yn ysgogwr ac yn hwyluswr dros annibyniaeth pobl'.* Yng nghyswllt plant a theuluoedd, ategir hyn gan ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac mae'r 'Strategaeth Iechyd Meddwl Oedolion' (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2005) yn amlinellu ei hegwyddorion o *'fynediad cyfartal yn ôl angen unigol; grymuso defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr i ymwneud yn glos â phrosesau cynllunio, datblygu a darparu gwasanaethau'.*

Un o sbardunau'r prosiect ymchwil hwn oedd archwilio sut y gallai gwasanaethau weithio'n fwy effeithiol a di-dor yng nghyswllt anghenion dyrys y grŵp difreintiedig hwn sydd wedi'u gwthio i'r cyrion. Yn hynny o beth, aeth yr ymchwil ati i archwilio sut y mae gwasanaethau'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan bobl ifanc ddigartref, yn ogystal â gallu dynodi pa wasanaethau sydd eu hangen a phryd. Mae'r dull gweithredu cyfranogol a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil hon i ganfod anghenion pobl ifanc agored i niwed ac anodd eu cyrraedd, yn ychwanegu at y sylfaen wybodaeth ynglŷn â sut orau i ddiwallu anghenion pobl ifanc ddigartref. Mae ymchwil sy'n mabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, yn cyflwyno data ansoddol gwerthfawr sy'n helpu i gyflawni sbardun canolog yn agenda Cynulliad Cymru ar gyfer cynllunio gwasanaethau mewn ffordd strategol i helpu a chefnogi oedolion a phlant agored i niwed, fel a bennir yn 'Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol':

'Gwella dinasyddiaeth plant drwy eu cydnabod fel unigolion sydd â hawliau yn ogystal â chyfrifoldebau, a rhoi llais iddynt, yw'r ffordd sicraf o'u hamddiffyn rhag niwed a'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau bod y ddarpariaeth les yn bodloni eu hanghenion'*28*.

27 Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol: Strategaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru dros y degawd nesaf (2007) Llywodraeth Cynulliad Cymru.

28 Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol: Strategaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru dros y degawd nesaf (2007) Llywodraeth Cynulliad Cymru (tud 13)

Nod yr ymchwil

Ymgysylltu â phobl ifanc ddigartref (16-24 oed) sy'n byw yn ardal Wrecsam, sydd ag anghenion dyrys, er mwyn canfod eu profiadau a'u canfyddiadau ***hwy*** yng nghyswllt: anghenion pobl ifanc ddigartref; rhwystrau rhag cael mynediad at wasanaethau; hwyluswyr i gael mynediad at wasanaethau; a dynodi angen nad yw'n cael ei fodloni.

Amcanion yr ymchwil

Amcanion yr Ymchwil
1. Cyflawni arolwg llenyddiaeth yng nghyswllt pobl ifanc ddigartref er mwyn bwydo'r amserlen y cyfweliadau a hwyluso samplo damcaniaethol a dadansoddiad ehangach o'r canfyddiadau.
2. Clustnodi'r cymorth a'r gefnogaeth y mae pobl ifanc ddigartref ag anawsterau lluosog yn Wrecsam yn teimlo sydd eu hangen arnynt.
3. Clustnodi rhwystrau sy'n cadw pobl ifanc ddigartref ag anawsterau lluosog yn Wrecsam rhag ceisio'r cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt.
4. Clustnodi'r hwyluswyr sy'n annog pobl ifanc ddigartref ag anawsterau lluosog yn Wrecsam i geisio'r cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt.
5. Clustnodi bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl ifanc ddigartref ag anawsterau lluosog yn Wrecsam.
6. Llunio argymhellion ar gyfer polisi ac ymarfer yng nghyswllt darparu gwasanaethau effeithiol yn Wrecsam ar gyfer pobl ifanc ddigartref.
7. Cynhyrchu crynodeb a fersiwn llawn o'r adroddiad mewn fformat electronig ac ar ffurf copi papur. Bydd yr adroddiadau hyn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
8. Dosbarthu'r canfyddiadau'n helaeth i ychwanegu at wybodaeth a dealltwriaeth yn genedlaethol, ar lefel y DU a thu hwnt.

Amserlen waith

O	I	Amserlen waith
Ebrill 09	Mai 09	Sefydlu Grŵp Defnyddwyr Gwasanaeth Ymgynghorol yr Ymchwil Datblygu amserlen y cyfweliadau Treialu a mireinio'r amserlen y cyfweliadau Sicrhau cymeradwyaeth foesegol Dechrau'r arolwg llenyddiaeth
Meh 09	Gorff 09	Canfod a recriwtio ymatebwyr Dechrau cyfweld Cwblhau'r arolwg llenyddiaeth
Awst 09	Medi 09	Parhau â'r cyfweliadau Dechrau trawsgrifio
Hyd 09	Tach 09	Cwblhau'r Cyfweliadau Parhau a chwblhau'r trawsysgrifio Dechrau dadansoddi data
Rhag 09	Ion 10	Cyfosod canfyddiadau gyda'r arolwg llenyddiaeth Cwblhau dadansoddi data
Chwef 10	Maw 10	Ysgrifennu drafft cyntaf yr adroddiad Rhoi trefn derfynol ar yr adroddiad, ei gyfieithu a'i gyhoeddi
Ebr 10	Parhaus	Dosbarthu

2. Dulliau Ymchwilio

Cyflwyniad

Esgorodd yr ymchwil a ariannwyd gan Swyddfa Cymru ar gyfer Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar greu partneriaeth rhwng Barnardo's Cymru a Phrifysgol Glyndŵr. Cynhwyswyd pobl ifanc ddigartref (rhwng 16 a 24 oed) hefyd mewn prosiect ymchwil ansoddol cyfranogol i archwilio eu canfyddiadau a'u profiadau o fod yn ddigartref yn Wrecsam.

Archwiliodd yr ymchwil anghenion y bobl ifanc ddigartref, yn eu tyb hwy, a beth oedd yn eu galluogi neu eu llesteirio rhag ceisio'r cymorth a'r gefnogaeth yr oedd eu hangen arnynt. Roedd y tîm ymchwil yn ymroddedig i sicrhau bod modd cynnal y gwaith maes yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) er mwyn sicrhau bod yr ymatebwyr yn gallu cyfranogi yn eu dewis iaith.

Mae'r prosiect ymchwil, graddfa fach hwn, yn canolbwyntio ar farn a phrofiad pobl ifanc ddigartref yn Wrecsam. Er mwyn datblygu gwasanaethau priodol, mae'n arbennig o bwysig bod lleisiau'r grŵp hwn o ddefnyddwyr gwasanaeth, sy'n bennaf ynghudd, yn cael eu clywed. I'r perwyl hwn, aeth astudiaeth yr ymchwil ati i archwilio anghenion y grŵp ymatebwyr hwn, yn eu tŷ hwy: eu canfyddiadau hwy eu hunain o'r hyn sy'n eu rhwystro rhag ceisio cymorth; beth sy'n eu hannog i geisio cymorth; eu hymwybyddiaeth a'u profiadau o wasanaethau; ac unrhyw anghenion nad ydynt, yn eu tyb hwy, yn cael eu bodloni. Er cydnabod pwysigrwydd safbwynt darparwyr gwasanaethau, mae hi'r un mor bwysig, os nad pwysicach, ein bod yn gwrando ar ganfyddiadau pobl ifanc ddigartref er mwyn sicrhau bod eu hanghenion a'u profiadau yn cael eu deall. Yn wyneb y cyfyngiadau ariannol ar yr astudiaeth graddfa fach hon, nid oedd modd cynnwys safbwyntiau darparwyr gwasanaeth – er y gallai hyn fod yn rhan ddefnyddiol o astudiaeth ddilynol ehangach.

Cydnabyddir yn helaeth bod ymyriad buan yn hollbwysig gyda phobl ifanc ddigartref cyn i'w problemau fwrw gwreiddiau. Fodd bynnag, mae pobl ifanc ddigartref, sy'n aml yn ymlafnio yn erbyn anawsterau cymdeithasol ac emosiynol arwyddocaol, yn agored i niwed ac yn anodd eu cyrraedd. Bydd yr astudiaeth hon yn cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r ffordd orau i helpu pobl ifanc dan risg sy'n ddigartref; yn cysgu allan, yn cysgu dros dro ar soffa ffrindiau neu deulu neu'n cysgu mewn llochesi nos neu hosteli.

Cafodd yr ymchwil gymorth grŵp bach o bobl ifanc ddigartref fel Grŵp Ymgynghorol a oedd yn goruchwylio proses yr ymchwil ac yn rhoi cyngor yn ei chylch. Mabwysiadodd agwedd ansoddol i archwilio canfyddiadau a phrofiadau'r bobl ifanc eu hunain, gan ddefnyddio cyfweliadau lled-strwythuredig manwl. Cafodd pob cyfweliad ei recordio'n ddigidol, ei drawsgrifio ac yna ei godio gan ddefnyddio amcanion yr ymchwil fel mannau cychwyn i ddynodi, tanlinellu a chategoreiddio themâu wrth iddynt ymddangos – gwnaed hyn yn systematig ac yn electronig drwy ddefnyddio meddalwedd NVivo.

Diolch i'r ymrwymiad i wrando ar leisiau, profiadau a chanfyddiadau'r bobl ifanc ddigartref, llwyddodd yr ymchwil i hwyluso dadansoddiad systematig o'u naratif a alluogodd y bobl ifanc i'w 'Dweud hi fel y mae'.

Ystyriaethau moesegol

Mae Deddf Plant (1989) yn diffinio plentyn fel unrhyw unigolyn dan 18 oed, felly cynlluniwyd yr astudiaeth hon i gynnwys plant fel cyfranogwyr. Er na wyddem am unrhyw faterion moesegol unigryw gydag ymchwil â phlant, mae rhai materion yn dueddol o godi yn fwy grymus neu mewn ffyrdd gwahanol[29]. Ni ddylid achosi i unrhyw gyfranogydd yn yr ymchwil fod yn agored i niwed, ac mae amddiffyn cyfranogwyr rhag niwed o'r fath yn bwysicach nag unrhyw gyfle i ddwyn budd i ymchwil ansoddol; fodd bynnag, yn yr astudiaeth ymchwil hon, aseswyd y risg yn isel gennym.

Roedd yr astudiaeth yn cydymffurfio ag egwyddor 'cydsyniad gwybodus'[30], gyda chydsyniad gwybodus yn golygu bodloni tair ffactor. Yn gyntaf, cyflawnwyd y gwaith maes gan bobl a oedd yn gymwys i wneud hynny. Yn ail, roedd y wybodaeth am yr astudiaeth yn cael ei chyflwyno i bobl ifanc mewn ffordd y gallent ei deall, ac fe aed ati'n benodol i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn hawdd cael gafael arni, ac yn ddiwylliannol briodol. Yn olaf, roedd gan bob unigolyn yr hawl i allu gwrthod cael eu cyfweld ar unrhyw adeg, heb wynebu unrhyw ganlyniadau negyddol. Roedd y cyfweliadau â'r bobl ifanc yn ceisio bod yn sensitif ac yn briodol ar gyfer lefel eu haeddfedrwydd.

I ddechrau, daethpwyd i gysylltiad â'r bobl ifanc drwy Compass Barnardo's ac o'r asiantaeth hon, sefydlwyd Grŵp Ymgynghorol Pobl Ifanc i fod yn ymgynghorwyr i'r ymchwil. Roedd y grŵp hwn o bobl ifanc, a oedd â phrofiad o fod yn ddigartref, yn trosglwyddo gwybodaeth (ar lafar a thrwy ddosbarthu deunydd ysgrifenedig) i bobl ifanc eraill yn yr ardal ac i'r amrywiol asiantaethau yr oeddent mewn cysylltiad â nhw. Yn ddiweddarach, daethpwyd i gysylltiad â phobl ifanc drwy amrywiol asiantaethau yn Wrecsam: Compass Barnardo's Cymru; Cawl y Ddraig; Foyer; Hafan; Sant Ioan; a Lloches Nos Ty Nos. Disgrifiwyd yr ymchwil wrth yr asiantaethau, ac fe gytunasant i gydweithio. Cynhaliwyd pob cyfweliad mewn lleoliad a man a oedd yn gyfarwydd i'r bobl ifanc er mwyn sicrhau eu bod bob amser mewn lle diogel ac yn teimlo'n gyfforddus am fod gweithwyr yr oeddent yn ymddiried ynddynt ar y safle. Os oedd unrhyw berson ifanc a oedd yn cael ei gyfweld eisiau cymorth, roedd y tîm ymchwil yn gallu cyfeirio'r bobl ifanc yn syth at Compass Barnardo's i gael cefnogaeth broffesiynol. Digwyddodd hyn unwaith.

Cyn y cyfweliad, gofynnwyd i gyfranogwyr lofnodi ffurflen yn cydsynio i gael eu cyfweld. Ufuddhaodd yr astudiaeth i ofynion y Ddeddf Diogelu Data (1998), a ddaeth i rym ym mis Mawrth 2000. Cyn parhau, cyflwynwyd y cais llawn, a'r cyfryngau ymchwilio, gerbron Pwyllgor Moeseg Ymchwil Prifysgol Glyndŵr i gael sêl eu bendith. Cyflawnwyd archwiliadau Swyddfa Cofnodion Troseddol uwch ar y tîm ymchwil a oedd yn gwneud y gwaith maes a'r gwerthuso.

Fel arwydd o barch a chydnabyddiaeth i barodrwydd y bobl ifanc a gymerodd ran yn yr ymchwil i aberthu eu hamser yn ddi-dâl, yn ymgynghorwyr ac ymatebwyr fel ei gilydd, rhoddwyd taleb archfarchnad £10 iddynt am bob cyfarfod a fynychwyd a phob cyfweliad a roddwyd. Er mwyn gwarchod anhysbysrwydd yr ymatebwyr a sicrhau nad oes modd

---

29 Fraser, S. et al. (2004) (Golygyddion) Doing Research with Children and Young People. Buckingham: Gwasg y Brifysgol Agored.

30 Sin, C.H., 2005. Seeking Informed Consent: Reflections on Research Practice. Sociology, 39(2), 277-294.

adnabod yr un unigolyn, ni roddwyd enw wrth unrhyw ddata a ddeilliodd o gyfweliadau'r gwaith maes.

Sampl a dulliau

Mae'r hanesion personol anodd, yr anghenion dyrys a'r problemau cymdeithasol rhyng-gysylltiol sy'n berthnasol i bobl ifanc sy'n ddigartref, yn golygu eu bod yn gallu bod yn grŵp 'anodd eu cyrraedd'. Er mwyn cyrraedd y grŵp hwn, dechreuodd y tîm ymchwil drwy ddefnyddio'r cydberthnasau a oedd eisoes wedi'u sefydlu gan Compass Barnardo's; un o'r gwasanaethau a ddarparant yw cyfleuster galw-heibio ar gyfer pobl ifanc ddigartref yn ardal Wrecsam. Yma, cynigir cefnogaeth ymarferol drwy ddarparu, am ddim, cawodydd, popty, peiriant golchi, peiriant sychu dillad, cyfrifiadur gyda mynediad at y we, cyfleusterau argraffu a ffôn, yn ogystal â chwnsela a chefnogaeth.

Nod yr ymchwil ansoddol hon oedd sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed. Cynlluniwyd yr ymchwil i gael ei chyflawni *gyda* phobl ifanc yn hytrach nag *ynglŷn â* phobl ifanc Roedd Barnardo's yn gwybod am bump o bobl ifanc mewn angen a oedd rhwng 16 a 24 oed ac y gwyddid eu bod yn ddigartref neu'n byw mewn llety dros dro, ac fe'u gwahoddwyd i ffurfio Grŵp Ymgynghorol yr Ymchwil. Os oedd y Grŵp Ymgynghorol i fod yn effeithiol, roedd angen amser i sefydlu perthynas, ymddiriedaeth a dealltwriaeth gyda grŵp cychwynnol o bump o bobl ifanc ddigartref, fel y byddent yn teimlo'n fwy cyfforddus ac abl i gynnig cyngor ynglŷn â phob agwedd ar y gwaith maes. Ein nod, trwy ddefnyddio'r dull gweithredu hwn, oedd cael mynediad at ddata cynhwysfawr, o safon uchel, drwy gyfrwng holiadur lled-strwythuredig dan ofal hwylusydd. Byddai modd archwilio canfyddiadau'r rhain drwy waith grŵp ffocws gyda'r Grŵp Ymgynghorol. Cyfarfu'r Grŵp Ymgynghorol oddeutu deuddeg o weithiau er, yn wyneb amlder ac ystod yr anawsterau y mae pobl ifanc ddigartref yn eu hwynebu, roedd hi bob amser yn anodd cael mwy na dau neu dri o bobl ifanc i gwrdd ar unrhyw un adeg. Cafodd y tîm ymchwil gyngor gan y grŵp hwn ar gyfer cynllunio amserlen y cyfweliadau, yr iaith i'w defnyddio, materion yn ymwneud â mynediad, lleoliad y cyfweliadau a chanfod recriwtiaid newydd i'r ymchwil. Cafodd y bobl ifanc hyn daleb archfarchnad £10 am bob cyfarfod a fynychwyd ganddynt.

Er mwyn ehangu, a chael gafael ar grŵp mwy o bobl ifanc, defnyddiwyd techneg samplo pelen eira[31]. Mae rhwydweithiau cymdeithasol ymhlith pobl ddigartref yn Wrecsam i'w gweld yn gweithio'n dda, er eu bod yn dueddol o ganoli ar y ddarpariaeth gwasanaethau sydd ar gael ar amrywiol adegau ac mewn gwahanol lefydd ar hyd a lled y dre. Dylid cydnabod nad yw'r dechneg samplo hon yn un sydd ar hap ac nid oes modd honni ychwaith ei bod, o reidrwydd, yn cynrychioli'r boblogaeth ddigartref 16-24 oed yn Wrecsam. Gyda phoblogaethau sy'n bennaf ynghudd, mae'n her i unrhyw fethodoleg ganfod ac ymgysylltu â grŵp sampl. Profodd y belen eira'n llwyddiant i ddechrau, ond ar ôl cwblhau deg cyfweliad, roedd y tîm ymchwil yn cael trafferth cael gafael ar fwy o bobl ifanc. Y gobaith, o'r dechrau, oedd y byddai'r dechneg samplo hon, a oedd yn cael ei sbarduno gan ymatebwyr, yn arwain at o leiaf 15 o bobl ifanc yn cael eu cyfweld drwy

31 Browne, K., 2005. Snowball sampling: using social networks to research non-heterosexual women. International Journal of Social Research Methodology, 8(1), 47.

ddefnyddio'r un amserlen o gyfweliadau lled-strwythuredig. Trafodwyd y prinder niferoedd hyn gyda Grŵp Ymgynghorol yr Ymchwil ac er mwyn sicrhau bod maint y sampl yn ddigonol, penderfynasom gynyddu ein sampl drwy samplo bwriadus. Penderfynasom dargedu'r gwasanaethau digartrefedd hynny yr oedd pobl ifanc yn eu defnyddio, gan gynnwys Cawl y Ddraig, Hafan, Hostel Sant Ioan a Lloches Nos Tŷ Nos. Roedden ni hefyd eisiau sicrhau cynrychiolaeth dda o ddynion a merched tra'n sicrhau bod pawb a gyfwelwyd rhwng 16 a 24 oed, yn ddigartref a chanddynt angen dyrys. Drwy newid y dechneg samplo fel hyn, golygai bod yr ymchwil wedi llwyddo i gyfleu profiadau a barn ugain o bobl ifanc ddigartref yn Wrecsam o amrywiol gefndiroedd a lleoliadau, gyda phob un ohonynt ar hyn o bryd yn ddigartref neu'n byw mewn llety dros dro neu anaddas a chanddynt anawsterau ychwanegol. Roedd un ar bymtheg o'r ugain o bobl a gyfwelwyd wedi cysgu allan (gwrthododd un ateb), roedd o leiaf ddau o'r bobl a gyfwelwyd yn cysgu ar y stryd ar y pryd, ac roedd gan o leiaf un berson angen dyrys ac heb fynediad at unrhyw wasanaethau.

Cafwyd data naratif a phersonol cyfoethog iawn. Recordiwyd pob cyfweliad yn ddigidol; cawsant eu trawsgrifio, eu codio a'u dadansoddi drwy ddefnyddio meddalwedd NVivo. Bu'r broses hon yn gyfrwng i ddynodi themâu amlwg wrth iddynt ymddangos, ac fe archwiliwyd y rhain ymhellach, a chytuno yn eu cylch, gyda'r tîm ymchwil a'r Grŵp Ymgynghorol. O ddata'r cyfweliadau a recordiwyd yn ddigidol, a'r nodiadau a gofnodwyd â llaw, cafwyd dyfyniadau disgrifiadol a oedd yn rhoi cyd-destun a thystiolaeth i'r honiadau a wnaed yng nghyswllt canfyddiadau allweddol. Defnyddiodd yr astudiaeth hon samplo damcaniaethol[32] hynny yw, bod themâu a chategorïau dethol yn cael eu cymharu o fewn yr astudiaeth hon yn ogystal â chydag astudiaethau ymchwil empirig perthnasol eraill. Roedd hyn yn helpu i 'brofi' y dehongliadau a dynnwyd o'r data; esgorodd ar ddealltwriaeth ddefnyddiol, a rhoddodd gefnogaeth ychwanegol i'r canfyddiadau.

32 Draucker, C.B. et al., 2007. Theoretical Sampling and Category Development in Grounded Theory. Qual Health Res, 17(8), 1137-1148.

3. Canlyniadau: Data Demograffig

Roedd yr astudiaeth yn golygu cyfweld 20 o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed (rh=20) sydd wedi profi digartrefedd a/neu sy'n ddigartref ar hyn o bryd neu'n byw mewn llety dros dro. Yn wyneb yr anawsterau gwirioneddol o gyrraedd a chyfweld pobl ifanc ddigartref, nid oedd modd defnyddio hap sampl. I ddechrau, mabwysiadwyd dull gweithredu ar sail pelen eira, ond gan i hyn arwain at lai o nifer na'r hyn a ddisgwyliwyd, mabwysiadwyd proses samplo bwriadus drwy gysylltu â phobl ifanc ddigartref y gwyddid amdanynt yn yr amrywiol lefydd yn Wrecsam y maent yn eu mynychu. Arweiniodd hyn at sampl terfynol o ugain o bobl ifanc:

Cyd-destun Cefndirol	
Cyfartaledd oed gadael ysgol	15.6 oed
Cyfartaledd oed bod yn ddigartref am y tro cyntaf	16.5 oed
Cyfartaledd Oed adeg y cyfweliad	19.3 oed
Cenedl:	Cymry (11)
	Prydeinwyr (7)
	Saeson (1)
	Heb ei Roi (1)

Anableddau/Anawsterau a ddynodwyd:

Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) (3)
Dyslecsia (2)
Salwch meddwl (2)
Arthritis
Syndrom Asberger
Iselder
Anabledd dysgu
Syndrom Irlen
Anhwylder gorfodaeth obsesiynol

() Mae cromfachau'n dynodi nifer y bobl

Oed	Nifer y bobl ifanc a gyfwelwyd yn y rhicyn oed hwnnw
16	2
17	3
18	2
19	4
20	3
21	2
22	1
23	0
24	2
CYFANSWM = 19 Gwrthododd un unigolyn roi'r wybodaeth hon, ond gwyddid ei fod o fewn y paramedrau oed	

Mae'r graff isod yn dangos rhywfaint o brofiadau cefndirol y bobl ifanc. Roedd gan bobl ifanc y sampl, yn gyson â thystiolaeth astudiaethau sefydledig o ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc, hanes o anawsterau cyn eu profiad o fod yn ddigartref. Roedd gan 50% (rh=10) anabledd, roedd 70% (rh=14) wedi cael anhawster yn yr ysgol ac wedi'u gwahardd ar ryw bwynt, roedd 65% (rh=13) wedi cael eu bwlio ar ryw adeg yn eu bywyd, roedd bron i hanner (rh=9) wedi derbyn gofal gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod lleol.

Profiadau pobl ifanc a gyfwelwyd (rh=20)



Mewn gofal (9)
Wedi cael eu bwlio (13)
Wedi'u gwahardd o'r ysgol (14)
Ag anabledd (10)
Â chymwysterau (16)

Â phlant (7)
Yn siarad Cymraeg (7)
Yn ddynion ifanc (10)

Mae'r graff nesaf yn dangos graddfa'r profiadau negyddol a ddatgelwyd gan y sampl. Nid yn annisgwyl ymhlith sampl o bobl ifanc ddigartref, canfuwyd bod 90% (rh=18) ar ryw adeg, wedi byw mewn hostel ac 80% (rh=16) wedi cysgu allan. Ond mater o bryder yw'r ffaith bod 70% (rh=14) o'r bobl ifanc yn disgrifio eu hunain yn rhywun â phroblemau iechyd meddwl. Roedd dros eu hanner wedi dioddef trosedd yn eu herbyn, ac roedd gan yr un nifer (rh=12) gofnod troseddol yn eu herbyn. Roedd canran arwyddocaol yn cyfaddef bod ganddynt broblemau ag alcohol a chyffuriau, 50% (rh=10) a 35% (rh=7) yn eu tro.

Anawsterau a wynebir gan y bobl ifanc a gyfwelwyd (rh=20)



Carchar (4)
Cofnod Troseddol (12)
Dioddefwr/wraig Trosedd (12)
Problem Iechyd Meddwl (14)
Problem Cyffuriau (7)
Problem Alcohol (10)
Wedi'u Gwahardd (9)
Wedi Cysgu Allan (16)
Wedi Byw mewn Hostel (18)

Sylw

O'r data demograffig, mae'n amlwg bod gan y bobl ifanc a gyfwelwyd anghenion dyrys a oedd yn cynnwys problemau iechyd emosiynol a meddyliol, anableddau, derbyn gofal a chael eu gwahardd o addysg brif ffrwd. O'r hanesion a glywyd, roedd cael mynediad at wasanaethau i gwrdd â'u hanghenion dynodedig yn dod yn fwy anodd unwaith iddynt ddod yn ddigartref; er enghraifft, mae'n anos cael cyflogaeth/addysg heb gyfeiriad parhaol. Dynodir hyn yn adroddiad Tasglu'r Uned Allgau Cymdeithasol 'Gwireddu Potensial Pobl Ifanc a Chefnogi'r Rheiny sy'n Gadael Gofal i Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant (2009)[33]. Canfu'r adroddiad, mewn ymgynghoriad â phobl ifanc bod 75% o bobl ifanc Nad oedd mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) mewn un ardal (Norfolk) yn byw mewn tai anaddas, megis hosteli.

33 Swyddfa'r Cabinet. (2009). Gwireddu potensial pobl ifanc: cefnogi'r rheiny sy'n gadael gofal i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant

4. Canlyniadau: Cyd-destun a Phrofiad

Yn aml, mae gan bobl ifanc sy'n ddigartref angen dyrys, sy'n gallu cynnwys: problemau iechyd meddwl; hunan-niweidio; chwalfa a gwrthdaro teuluol; trais rhywiol a chorfforol yn y cartref; y profiad o dderbyn gofal gan yr awdurdod lleol; profedigaeth a cholled yn y teulu agos; problemau alcohol a chyffuriau; anawsterau dysgu a bod yn ynysig. Roedd angen dyrys y bobl ifanc a gyfwelwyd yn amlwg o'r cyfweliadau, ac fe eir ati i archwilio materion yn ymwneud â'u hanghenion penodol. Roedd bron pob un o'r bobl ifanc a gyfwelwyd yn dod o Wrecsam a'r cyffiniau. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn ddi-waith, (ar wahân i un sy'n cael ei gyflogi'n achlysurol) ac roedd lleiafrif yn dilyn rhaglenni addysgol neu'n gwneud gwaith gwirfoddol a hynny, yn aml, wedi'i drefnu a'i gefnogi gan yr hosteli lle cawsant eu gosod. Roedd llawer o'r bobl ifanc wedi bod yn ddigartref ers yn ifanc iawn: *'Dw i wedi bod yn ddigartref ers o'n i'n un deg chwech oed, bob amser mewn hosteli neu ar y strydoedd, y naill neu'r llall.'* Yr oedran cyfartalog ar gyfer dod yn ddigartref am y tro cyntaf oedd un ar bymtheg a hanner.

Ar y dechrau, bwriad yr ymchwilwyr oedd sicrhau bod merched (a fyddai, yn ein tyb ni, yn grŵp lleiafrifol) yn cael eu cynrychioli'n deg. Fodd bynnag, cyflwynodd y goruchwylwyr priodol fwy o ferched na'r disgwyl, ac fe brofodd canfod digon o ddynion ifanc yn fwy o her. Yn y diwedd, roedd cydbwysedd rhwng y ddau ryw yn y grŵp ymatebwyr yn gyfartal. Mae'n dueddiad cyffredinol bod digartrefedd ymhlith merched ifanc yn dod yn fwy amlwg, gan fod nifer ohonynt, yn draddodiadol, wedi bod ynghudd am eu bod yn 'syrffio soffas' ac yn byw mewn llety dros dro.

Ymhlith y bobl ifanc a gyfwelwyd gennym, roedd hi'n ymddangos bod gwahaniaeth yn cael ei wneud rhwng a) pobl ddigartref hŷn, tymor hir, pobl ddigartref di-drefn a oedd yn gaeth i sylweddau, ac c) pobl ddigartref dros dro ifanc 'newydd' – sydd, yn amlach na pheidio, ddim yn hoffi cael eu galw'n ddigartref. Mae'n well ganddynt gael eu galw'n bobl ifanc heb lety addas. Archwilir canfyddiadau'r cyhoedd o ddigartrefedd, a stigma a chamwahaniaethu, yn nes ymlaen, er ei bod hi'n briodol tynnu sylw at ddiffiniad y bobl ifanc o'u statws a'u sefyllfa eu hunain ar yr adeg hon.

Cefndir teuluol a phrofiad dechrau oes

Pan ddisgrifiodd ymatebwyr yr hyn a berodd iddynt ddod yn ddigartref, chwalfa deuluol, yn aml yn dilyn anawsterau tymor hir gyda chydberthnasau teuluol, oedd yr esboniad yn y mwyafrif llethol o achosion, er enghraifft:

> '... doedd o'n ddim byd mond dadlau drwy'r amser rhwng 'y mrawd a fi, ac wedyn byddai y'n rhieni yn ochri efo 'mrawd ac wedyn fi fyddai'r plentyn annifyr, ac wedyn nes i jysd troi rownd un dwrnod a deud, dach chi ddim isio fi, neith na neb arall neud, felly dw i'n mynd. A dyna, yn y bôn, be nes i.'

Roedd gan lawer o'r bobl ifanc gefndiroedd teuluol anodd: *'Do'n i jysd ddim yn ffitio mewn, deud y gwir ... dyna pam ges i 'nhaflu allan... roedd o jysd fel rhyw berson dach*

chi'n gallu pigo arno fo, y'ch bwlio chi gymaint nes dach chi'n methu cymryd dim mwy, ac wedyn dach chi'n taro allan ac yn gadael. Dyna'r cyfan allwch chi neud.' Awgrymodd rhai ymatebwyr mai tensiynau gyda llys-riant ar ôl i deulu gael ei ailffurfio oedd dechrau eu hanawsterau *'dyna pryd y dechreuodd hi, fi a 'nhad ddim yn gyrru 'mlaen.'* Roedd rhai pobl ifanc (=3) yn sôn am symud i fyw at eu nain a'u taid, gan nad oedd eu rhieni wedi gallu gofalu amdanynt: '*Mi nath mam farw pan o'n i'n un deg un, ac mae dad yn gaeth i heroin'*. Fodd bynnag, ymddengys bod rhai neiniau a theidiau wedi cael trafferth rheoli ymddygiad anodd y glasoed, fel y disgrifiwyd gan un person ifanc a esboniodd: *'Ro'n i'n arfer yfed lot, a doedd nain a taid ddim yn gallu ymdopi, felly mi nathon nhw 'y nhaflu i allan'*

Yn aml, llwyddodd pobl ifanc i aros gydag amrywiol aelodau o'r teulu neu ffrindiau cyn dod yn ddigartef: *' mi nath mam y'n rhoi i mewn hostel pan o'n i'n 16, ond cyn hynny, o'n i wedi dechrau symud drwy'r teulu... ro'n i'n 13 y tro cynta y symudes i allan.'* Disgrifiodd pobl ifanc anawsterau yn eu cartrefi a gyfrannodd at wneud iddynt ymddwyn mewn ffordd heriol:

> Achos bod 'y mrawd i'n anabl, roedd o'n mynd â lot o amser mam a dad. Ro'n i'n arfer cael fy mwlio am hynny yn yr ysgol hefyd, felly rhan ohono oedd trio bod y dyn caled, os dach chi'n gwbod be dw i'n feddwl, er mwyn i bobl gamu'n ôl a gadael llonydd i fi, ac mi wnaeth o 'nghael i i lwyth o helynt, deud y gwir.

Bu'n rhaid i ddau ymatebydd adael eu cartref am bod un rhiant, neu'r ddau, yn methu derbyn eu rhywioldeb: '*Ro'n i'n byw efo'n rhieni, ac mi ddywedes i wrthyn nhw mod i'n hoyw. Nath 'y nhad i ddim derbyn y peth, felly mi nes i redeg i ffwrdd at [ENW].'*

Roedd bron i hanner y bobl ifanc wedi derbyn gofal gan yr awdurdod lleol (rh=9), roedd rhai wedi bod mewn gofal maeth tymor hir neu gartrefi preswyl, roedd eraill wedi cael cyfnodau byr o fyw gyda rhieni maeth neu ofal maeth seibiant: *'Ges i'n rhoi mewn gofal maeth pan o'n i'n 14 achos bod mam yn deud mod i'n blentyn trwblus, drwg ac yn y blaen.'* Disgrifiodd y bobl ifanc wahaniaethau yn y gwasanaethau ôl-ofal yr oeddent wedi'u derbyn gan yr awdurdod lleol; esboniodd un person ifanc arall pam i wasanaethau ôl-ofal gael eu gwrthod iddi *'Ac mi ddywedon nhw na, achos bod chi ddim mewn [llety] parhaol, dim ond mewn [llety] dros dro.. Achos mod i wedi mynd yn ôl at dad, a mod i ddim mewn gofal maeth llawn, nathon nhw ddim, doedden nhw ddim yn gallu y'n helpu i, felly ers pan dw i wedi bod yn 16 dw i wedi bod mewn hosteli a ballu, ac achos yr holl straen a ballu, nes i ddechrau yfed, felly o'n i'n cal 'y nhaflu allan o bob man.'*

Profiadau bywyd

Roedd hi'n amlwg, o hanesion y bobl ifanc, eu bod wedi profi trawma yn eu bywydau, a oedd yn cynnwys profedigaeth, trais domestig, camdriniaeth gorfforol a rhywiol, esgeulustod a gwrthodiad. Disgrifiodd rhai ymatebwyr achosion o gam-drin corfforol yn y cartref: '*O'dd gen i ddiawl o lysdad oedd yn arfer 'y nghuro i'n ddu-las nes i mi golli bob hyder, wedyn mi nes i fagu hyder a dyna pryd ddechreuodd y cwffio'.* Disgrifiodd ymatebwr arall drais domestig yn ei gartref: *'Roedd mam yn cal cweir gan dad bob dydd, felly ro'n i bob amser yn tynnu'n groes ac ro'n i'n cal cweir yn lle.'*

Yn y cyfweliadau gyda'r bobl ifanc, dywedodd ymatebwyr gwrywaidd a benywaidd eu bod wedi dioddef camdriniaeth rywiol (rh=4) pan oeddent yn blentyn yn ogystal â cham-fanteisio rhywiol tra roeddent yn ddigartref. I rai pobl ifanc, roedd camdriniaeth rywiol wedi arwain at iddynt ddod yn ddigartref: *'roedd taid yn arfer 'y ngham-drin i'n rhywiol ... doedd Nain ddim yn credu be oedd wedi digwydd, felly dw i ddim yn siarad efo hi. Dyna pam dw i ddim yn siarad efo neb yn 'y nheulu.'* Roedd hi'n amlwg, o hanesion yr ymatebwyr, bod rhai pobl ifanc yn cael rhyw er mwyn cael gwely am y nos, er enghraifft, fel yr esboniodd un person ifanc *'Mi nes i hynny lawer gwaith – jysd mynd lawr i'r dafarn a ffeindio ryw ddyn jysd er mwyn cael rwle i gysgu.'* Heb gefnogaeth neu gyfalaf cymdeithasol, disgrifiodd pobl ifanc sut y bu'n rhaid iddynt werthu eu cyrff i ymdopi â chanfod eu hunain yn ddigartref. Soniodd un person ifanc y gwnaethon ni ei g/chyfweld am brofiad o gam-fanteisio rhywiol ar blentyn pan oedd yn 13 ac yn ddigartref mewn dinas ddieithr. Er mwyn cael digon o arian ar gyfer bwyd a lloches, yn wyneb y dewisiadau prin, teimlodd y person ifanc hwn nad oedd ganddo/i fawr ddim dewis heblaw gwerthu ei g/chorff i oedolyn. Aeth yr oedolyn hwnnw yn ei flaen wedyn i recriwtio oedolion eraill a barhaodd y gamdriniaeth a'r cam-fanteisio rhywiol yn erbyn y person ifanc yma.

Awgrymodd un ymatebydd y gallai pobl ifanc fod yn agored i gam-fanteisio rhywiol mewn hosteli cymysg, ac roedd yn anghytuno â darpariaeth gymysg: *'Dwi'm yn meddwl ei fod o'n iawn, a deud y gwir, achos mae 'na dipyn o bobl dach chi'n nabod yn cysgu o gwmpas unwaith maen nhw mewn yna ... mae lot o'r genod fel pe taen nhw'n cael eu gwthio i neud hynny, ac yn cael eu hunain yn feichiog, dach chi'n gwbod, neu'n dal rhywbeth.'*

Roedd chwarter y bobl ifanc wedi colli un rhiant, neu'r ddau (rh=5) ac roedd hyn wedi cyfrannu at wneud iddynt dderbyn gofal gan yr awdurdod lleol: *'Mi ges i'n hun mewn gofal maeth achos bod dad wedi marw. .... Roedd mam wedi marw pan o'n i'n fach, felly allwn i ddim mynd nôl ati hi, ac mi es i i ofal maeth, a do'n i ddim wir yn licio fo, felly mi nes i jysd redeg i ffwrdd.'* Roedd pobl ifanc eraill wedi dioddef profedigaeth yn eu teulu agos; gwnaeth un person ifanc gysylltiad rhwng ei sefyllfa a'i gallu i ymdopi â cholled benodol: *'mi nes i ffeindio 'y nghefnder yn crogi pan o'n i'n naw, felly dyna be, dw i'n meddwl mai dyna sydd wedi arwain at ymddygiad gwael.'*

Ysgol

Cyfeiriodd y mwyafrif o bobl ifanc at brofiadau anodd yn yr ysgol, ac roedd bron i dri chwarter yr ymatebwyr wedi cael gael eu gwahardd o'r ysgol ar ryw adeg (rh=14). Bu rhai ymatebwyr yn pwyso a mesur y rhesymau dros hynny: *'Mae o achos bod gen i broblem dicter yn arfer bod... roedd bobl yn arfer trïo 'y ngwylltio i'* a dywedodd un arall: *'Ro'n i'n wirioneddol ifanc, ro'n i'n cwffio'r holl ffordd drwy'r ysgol uwchradd, ac mi es i o un ysgol i un arall.'* I ymatebwyr eraill, nid oedd ffocws academaidd addysg y brif ffrwd yn addas ar gyfer eu harddull ddysgu hwy: *'Roedd ysgol yn anodd – yn y bôn, do'n i byth yn dysgu dim byd, do'n i jysd ddim yn gallu eistedd yna drwy'r amser, ro'n i'n berson mwy ymarferol yn yr ysgol, do'n i ddim yn licio eistedd lawr a neud y sgwennu.'* Dywedodd yr un faint o bobl ifanc (rh=13) iddynt gael eu bwlio yn yr ysgol: *'Ro'n i'n cal 'y mwlio yn yr ysgol achos y'n seis i, achos ro'n i'n arfer bod reit fach yn yr ysgol'* meddai un arall: *'Ro'n i bob amser yn cal 'y mwlio...achos mod i mewn cadair olwyn...ro'n i'n arafach na phawb arall...ro'n i'n wahanol.'*

Sylw

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc yn yr astudiaeth hon wedi tyfu i fyny mewn teuluoedd lle'r oedd gan eu rhieni/gofalwyr eu hanawsterau eu hunain i ymdopi â hwy. O'r herwydd, ni chafodd llawer o'r bobl ifanc fantais amgylchedd plentyndod diogel fel sylfaen iddynt aeddfedu a datblygu. Yr hyn sydd hefyd yn ddiddorol yw'r ffaith bod rhai o'r bobl ifanc yn eu beio eu hunain pan oedd eu rhieni neu ofalwyr yn *'methu ymdopi'*, gan ddiffinio eu hunain yn '*blentyn problemus'*. Roedd bron i hanner y bobl ifanc wedi derbyn gofal gan yr awdurdod lleol (rh=9) ar sail tymor hir a thymor byr, fel ei gilydd. Mae adroddiad Tasglu'r Uned Allgau Cymdeithasol 'Gwireddu Potensial Pobl Ifanc a Chefnogi'r Rheiny sy'n Gadael Gofal i Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant (2009)[34] yn dynodi bod pobl ifanc sy'n gadael gofal, sydd ag anghenion cefnogaeth arwyddocaol, fwy o angen ymyriad cydlynol effeithiol. Heb ymyriad o'r fath, maent mewn perygl o fod dan anfantais bellach. Mae'r adroddiad yn dynodi'r grwpiau risg uchel, megis pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl, anawsterau dysgu, anawsterau emosiynol ac anawsterau ymlyniad, camddefnyddio sylweddau, troseddwyr ifanc a rhieni ifanc – gwelwyd anghenion o'r fath ymhlith y grŵp ymatebwyr.

34 *Swyddfa'r Cabinet. (2009)* Gwireddu potensial pobl ifanc: cefnogi'r rheiny sy'n gadael gofal i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant

5. Canlyniadau: Anghenion y Bobl Ifanc Ddigartref, yn eu tyb hwy eu hunain

O hanesion yr ymatebwyr, daw'n amlwg bod llawer o amser y bobl ifanc yn cael ei dreulio'n ceisio sicrhau bod anghenion dynol sylfaenol yn cael eu bodloni: cael bwyd, lloches, cynhesrwydd, hylendid, cefnogaeth a chyfeillgarwch. Yn ddiddorol ddigon, gan nad oes gan y bobl ifanc unrhyw leoliad daearyddol sefydlog, mae ffonau symudol yn chwarae rhan hollbwysig o ran cynnal llinell gyfathrebu rhyngddynt hwy a'r asiantaethau ac unigolion hynny sy'n gallu cynnig cefnogaeth sylfaenol.

Ymarferol: Sgiliau byw'n annibynnol

Yn ôl bron i hanner (rh=9) y bobl ifanc a gyfwelwyd, cawsant anhawster gyda sgiliau byw'n annibynnol. Ymhellach, nid oes ganddynt y gefnogaeth deuluol y mae llawer o bobl ifanc eraill yn dibynnu arni yn ystod y cyfnod pontio rhwng byw gartref a byw'n annibynnol. Ymhelaethodd un ymatebydd wrth sôn am sialensiau yng nghyswllt dysgu byw'n annibynnol.

> Mae lot ohonyn nhw wedi dod o gartref neu maen nhw wedi bod mewn gofal ers blynyddoedd, felly dydyn nhw erioed wedi gorfod neud dim byd drostyn nhw eu hunain, dydy rhai ohonyn nhw ddim yn gwbod sut i ddefnyddio peiriant golchi neu sut i goginio pryd bwyd neu sut i smwddio… mae rhai pobl ddim hyd yn oed yn gwbod sut i molchi'n iawn, dach chi'n gwbod, jysd mater o sgiliau bywyd ydy o; pethau y mae pobl yn eu cymryd yn ganiataol bob dydd, 'sgan rhai pobl ddim cliw am hynny, hyd yn oed.

Gan hynny, soniodd rhai pobl ifanc am anawsterau penodol a wynebwyd ganddynt, fel yr un ymatebydd a ddisgrifiodd sut y bu iddi geisio deall y system o dalu am gyfleustodau ar ôl iddi symud i fyw mewn fflat: *'roedd rhaid i'n ffrind i ddod draw neithiwr i eistedd yn y twllwch am nad o'n i'n gallu cal 'y mhen i rownd sut mae'r busnes chwarterol yma'n gweithio a faint ydw i'n mynd i ddefnyddio a sut i'w reoli a phethau felly.'* Adleisiwyd hyn gan berson ifanc arall: *'dach chi wir angen help efo ... rhoi trefn ar y'ch trwydded deledu, y'ch dŵr, y'ch trydan, y'ch nwy, achos pan dach chi'n symud i mewn i le, dach chi'm yn dallt pethau felly.. a hyd yn oed gwbod pa ddwrnod mae y'ch bin chi'n mynd allan, achos dach chi'n symud i mewn i le a dach chi'n rhy swil i ofyn i'ch cymdogion.'* Er bod cefnogaeth gyda thenantiaeth yn gallu cael ei chynnig dan rai amgylchiadau gan y Swyddfa Dai a Compass Barnardo's Cymru, roedd nifer o bobl ifanc yn dal i deimlo nad oeddent yn cael y gefnogaeth yr oedd ei hangen arnynt. Esboniodd un person ifanc: *'Swn i'n licio tae rhywun wedi dysgu fi i dalu biliau a ballu, dach chi'n gwbod, rwbeth fel cyngor dyled, ac ella paratoi ar gyfer biliau a ballu, cal trefn ar bres a chyngor am ddyledion.'* O hanesion yr ymatebwyr, roedd hi'n amlwg bod yr hosteli'n cefnogi'r trigolion i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol, ac mae hynny'n cael ei werthfawrogi gan y bobl ifanc. Dywedodd nifer o ymatebwyr pa mor fuddiol yr oedd y gefnogaeth ymarferol hon iddynt: *'maen nhw'n y'ch helpu chi i olchi a choginio y'ch bwyd, felly dach chi'n gwbod sut i goginio...maen nhw'n rhoi gweithiwr cefnogi i chi yma, ac yn y bôn, maen nhw'n trefnu diwrnod i chi goginio, ac ar y diwrnod hwnnw, mi fyddwch chi'n coginio, a mi ddywedan nhw wrthoch chi pa mor dda maen nhw'n meddwl dach chi wedi neud.'*

Disgrifiodd un ymatebydd sut yr oedd hi wedi ceisio byw'n annibynnol, ond ei bod hi wedi dychwelyd i'r hostel er mwyn cael cefnogaeth gyda sgiliau byw'n annibynnol: *'Mi es i at Digartrefedd a deud wrthyn nhw mod i ddim isio byw lle ro'n i'n byw* [llety Gwely a Brecwast anaddas]*, felly mi nes i ofyn iddyn nhw a gawn i symud i mewn i hostel er mwyn iddyn nhw allu rhoi rywfaint o help i fi, dach chi'n gwbod, sgiliau magu plant ac edrych ar ôl pres, felly mi nes i symud i mewn i Hafan'.* Dangosodd person ifanc arall eu bod yn deall sut y gallai'r sgiliau a ddarparwyd yn yr hostel helpu pobl ifanc i symud ymlaen yn eu bywydau, gan gynnwys dod o hyd i le i fyw ac, o bosib, sicrhau gwaith cyflogedig: *'Dw i'n meddwl bod y ffordd y mae Hafan a Foyer wedi cael y rhaglen yma i weithio, dw i'n meddwl ei fod o'n profi i'r cyngor eu bod nhw'n trïo eu gorau glas i geisio adeiladu eu hunain, yn y bôn, i gal job a, gobeithio, symud ymlaen i'w lle eu hunain...'*

Ymarferol: Cefnogaeth i rieni ifanc

Mae rhai o'r bobl ifanc a gyfwelwyd yn rhieni (rh=7). Soniodd dau o'r bobl ifanc am gael cynnig llety nad oedd, yn eu tyb hwy, yn addas ar gyfer babi. Mae'r profiad manwl a ddisgrifiwyd gan un person ifanc (isod) yn ddarlun clir o frwydr a rhwystredigaeth rhiant ifanc yn ceisio sicrhau llety boddhaol iddi hi ei hun a'i babi, yn wyneb amgylchiadau anodd:

Mi es i nôl [i'r Swyddfa Dai] ryw ddau ddwrnod yn ddiweddarach ac ro'n i yn 'y nagrau ac mi ddudes i drychwch mae'n rhaid i fi weld rhywun, dydy o ddim yn deg ar fy mab i, dach chi'n gwbod, mae o'n cysgu ar soffa a dw i'n cysgu ar soffa. Dwi'n teimlo mod i'n cymryd tŷ y'n ffrind i drosodd ac os na cha' i rwle heno, yna dw i ddim yn gwbod be dw i'n mynd i neud .. mi ddywedon nhw ty'd yn ôl am 4pm ac mi fydd ganddon ni oriadau i lety gwely a brecwast i ti, ac mi fyddi di yno am ryw bythefnos hyd nes i ni allu ffeindio rhywle i aros yn barhaol. Felly mi es i nôl. Do'n i ddim yn gwbod be i'w ddisgwyl, do'n i ddim yn gwbod, dach chi'n gwbod, dim byd, ond ro'n i'n meddwl o leiaf mae gen i ystafell i fi a [ENW] aros ynddi heno, a phan es i nôl, mi roeson nhw'n goriadau i fi ac esbonio lle'r oedd o. Doedden nhw ddim yn lot o help yn esbonio lle'r oedd o, neuthon nhw jysd ddeud ei fod o ar [ENW] ac mi nei di ei weld o, doedd yna ddim arwyddion na dim byd i ddeud be oedd o, neuthon nhw jysd deud mod i fod i fynd i [ENW'R LLETY GWELY A BRECWAST] a deud y'ch bod chi yma o'r cyngor ac i ddangos y'ch stafell i chi. Felly mi es i fyny yno, ac ro'n i'n nerfus a braidd yn ypset ac mi nes i feddwl wel o leiaf mae gen i stafell ac mi wnathon nhw ei dangos i mi, a deud dyma fo. Roedd o'n edrych fel jysd tŷ heb unrhyw ardd.. a phan es i i mewn i'r stafell, mi wnathon nhw 'nangos i i mewn, ac yn syth bin, roedd hi'n ofnadwy o fudr ac yn afiach, doedd hi ddim yn neis o gwbl a do'n i ddim yn gwbod tan y munud ola mod i'n rhannu efo dau ddyn hŷn yn y tŷ yma, a finnau ddim yn eu nabod nhw... roedd y grisiau'n ofnadwy o serth, i ddechrau, felly byddai'n rhaid i ni aros yn y stafell yna lle'r oedden ni... Doedd y stafell ei hun ddim yn neis o gwbl. Roedd y cynfasau ar y gwely'n fochaidd, lwcus bod y'n ffrind i wedi rhoi rhai glân i fi, doedd y lle jysd ddim yn oglau'n neis. Doedd yna ddim oglau neis yna. Roedd y carped yn afiach a'r cyfan oedd gen i efo fi oedd cot teithio ar gyfer [ENW], ac yn amlwg ei *steriliser* i baratoi ei boteli a phan es i i mewn i'r stafell, nes i jysd byrstio allan i grïo pan wnathon nhw 'ngadael i ac ro'n i'n meddwl mam mor wael o'n i hefyd, achos bod rhaid i fi a [ENW] aros yma achos mod i ddim yn gallu cael lle achos mod i ddim yn trïo'n ddigon caled i gael lle, er mod i'n trïo'n ddigon caled, ro'n i'n gneud popeth allwn i, felly ro'n i yno am un noson, mi gysges i yno... roedd o fel un tŷ mawr yn cael ei rannu, a'ch stafell chi ydy'ch stafell chi ac mae'r gweddill yn cael ei rannu - y gegin a'r stafell molchi – felly doedd y stafell molchi ddim yn neis, roedd hi'n reit beryg, dach chi'n gwbod lle dach chi'n arfer cael panel bath, doedd na ddim byd yno felly oeddech chi'n gallu mynd reit o dan y bath, ac roedd yr holl bibelli a ballu yno ac mi nes i ffeindio allan mod i, yn y bôn, yn rhannu'r llety efo cyn-garcharor oedd wedi'i garcharu am gynnau tân yn fwriadol a rhywun arall oedd wedi bod mewn carchar, a wnathon ni ddim ffeindio allan am be' a do'n i ddim wir isio aros yno i ffeindio allan am be'. Ro'n i jysd yn rhannu tŷ efo dau ddyn... cyn gynted ag y gwnes i ffeindio allan mod i'n rhannu tŷ efo dau ddyn, dach chi'n gwbod, do'n i ddim yn eu barnu nhw cyn i fi eu cwarfod nhw, ond o be' o'n i wedi'i glywed amdanyn nhw, do'n i ddim eisiau fy mab yn agos, dach chi'n gwbod, tawn i ar ben y'n hun, mi allwn i fod wedi ymdopi, ond ddim efo babi 6 mis oed, achos ro'n i'n *sterilisio* ei botel yn y gegin, a dach chi fod i'w gadael nhw yn y ffrij ac ro'n i'n meddwl sut ydw i'n gwbod mod i'n gallu trystio'r dynion yma i beidio â rhoi rhywbeth ynddyn nhw, pan mae ganddoch chi blentyn, dach chi'n meddwl am yr

holl bethau yma a dach chi'n poeni... tair wythnos mi ddudodd y cyngor dan ni wedi sylweddoli bod y llety lle dan ni wedi y'ch rhoi chi ddim yn addas ar y'ch cyfer chi a babi 6 mis oed... felly dan ni'n mynd i'ch symud chi, felly ro'n i'n meddwl bod hynny'n dda, diolch i dduw. Mi ddudon nhw ei fod o mond yn mynd i fod yn fflat 28 diwrnod ac yna cyn gynted ag y mae hynny drosodd, mi wnawn ni ffeindio lle i chi, felly dyma nhw'n rhoi goriadau eraill i fi ac esbonio wrtha' i lle i fynd ac mi es i yno, ac roedd o'n uffernol o wael eto doedd o mo'r lle glana', roedd yna lot o bobl gaeth i gyffuriau yn byw ar y stad honno, roedd gen i alcoholic yn byw drws nesa i fi a fyddai jysd yn cerdded i mewn i'r fflat os nad o'n i'n cloi'r drws a dechrau siarad efo fi felly unwaith eto do'n i ddim eisiau [ENW] yno felly dach chi'n gwbod, ro'n i'n aros yno ar ben y'n hun ac oedd mam yn cymryd [ENW] a dach chi'n gwbod, o'n i'n casáu hynny achos roedd o'n fab i fi ac ro'n i eisiau bod efo fo ond do'n i ddim isio fo yno ac un noson, pan o'n i'n cysgu, nath 'na rywun drïo agor y drws rhaid bod hi tua 3 o'r gloch y bore ac roedden nhw'n bangio'r drws i lawr ac ro'n i wedi dychryn yn ofnadwy achos ro'n i'n gwbod bod na lot o bobl ar gyffuriau yna a phethau felly, ac ar ôl dim ond mis yna, a chael gymaint ag y gallwn i ei gymryd, mi es i at y cyngor a deud ylwch, dydy hwn ddim yn addas chwaith dach chi'n y'n rhoi i mewn llefydd lle dw i a fy mab mewn peryg, wir, dw i ddim isio i 'mab i fod o gwmpas pobl fel yna mi ddylech chi y'n rhoi i mewn llefydd mwy diogel byddai hyd yn oed y Foyer wedi bod dach chi'n gwbod ychydyg yn mwy diogel achos ro'n i ar ben y'n hun yn fanno ac o leiaf yn Foyer mae gynnoch chi yr help yna o'ch cwmpas chi... roedd o'n ofnadwy a dydw i byth eisiau i neb fynd drwy be' es i drwyddo fo achos mae o'n ddychrynllyd a dach chi'n gwbod, yn enwedig pa mor ifanc o'n i, dim ond 19 oed, a phopeth yn fy nychryn yn ofnadwy dach chi bob amser yn paranoid pan mae gynnoch chi blentyn beth bynnag ond gan y'ch bod chi mor ifanc, dach chi hyd yn oed yn waeth dwi'n meddwl ac yn fwy agored i gael y'ch niweidio gan bethau felly.

Ymarferol: Gwella cyflogadwyedd

Fel y tanlinellwyd uchod, roedd pob un o'r ymatebwyr, namyn un, yn ddi-waith adeg y cyfweliadau. Roedd hi'n amlwg, o hanesion y bobl ifanc, bod cael gwaith cyflogedig yn bwysig iddyn nhw, ond roedd eu hamgylchiadau yn ei gwneud hi'n anodd iddynt gyflawni hyn. Cyfeiriodd yr ymatebwyr a oedd yn byw mewn hosteli at anawsterau y daethant ar eu traws wrth geisio swyddi cyflogedig. Mater pwysig a godwyd ganddynt oedd y stigma sydd ynghlwm wrth ddefnyddio hostel fel cyfeiriad, fel yr UN PERSON IFANC a ddywedodd *'...cyn gynted ag y mae swyddi'n gweld y'ch bod chi'n byw mewn hostel ar ffurflen gais, dydyn nhw ddim hyd yn oed yn trafferthu.'* Gwnaed yr un pwynt gan berson ifanc arall: *'rhaid i chi fod... mi faswn i'n deud, yn lwcus iawn i gael cyfeiriad arall i'w roi i lawr. .. dydy'r lle ma erioed wedi bod â'r enw gorau. Dydy o ddim yn lle drwg, mae o'n lle gwirioneddol neis, bobl wirioneddol neis, ond achos bod pobl wedi cael problemau efo bobl o fama... mae'n gwneud bywyd yn anodd iawn i bobl gael job rŵan.'* Nododd y person ifanc hwn bod y mudiad gwirfoddol, Shelter, wedi darparu gwasanaeth i geisio goresgyn y broblem hon *'... os ewch chi lawr i Shelter Cymru, a'ch bod chi rhwng 16 a 25 oed, mi gewch chi ddefnyddio eu cyfeiriad nhw wrth wneud cais am swyddi. Ddoe nes i ffeindio hynny allan, felly dydy o ddim yn cael ei hysbysebu'n dda iawn.'*
Os nad yw'r angen sylfaenol am lety'n cael ei fodloni, roedd hi'n amlwg, fel y mae'r hanes canlynol yn ei ddangos, ei bod hi bron yn amhosib i sicrhau addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth: *'Alla i ddim cal job achos sgen i ddim cyfeiriad a dw i ddim yn gwbod lle dw i'n mynd i fod yn cysgu neu unrhyw beth fel'na felly alla i ddim cal job. Dw i'n mynd i Gyrfa Cymru mwy na heb bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener, gweld pa gyrsiau sydd ganddyn nhw ac wedyn maen nhw fel, o, mae angen llety arnat ti, lle wyt ti'n byw a dw i, fel, yn deud lloches nos a dydy hyn'na ddim yn dderbyniol, allwch chi ddim ymuno efo dim byd tan bod chi wedi sortio'ch hun allan felly alla' i ddim neud dim byd yn y bôn tan fydda i wedi sortio'n hun allan.'*

Dywedodd mwyafrif y bobl ifanc a oedd yn byw yn yr hosteli, neu a oedd wedi byw mewn hosteli o'r blaen, gymaint yr oeddent yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a ddarperid

yno yng nghyswllt addysg a hyfforddiant, fel y dangosir yng ngeiriau un ymatebydd a soniodd am weithiwr cefnogi: *'mae hi wedi'n helpu i i gael cymwysterau ... a gwahanol gredydau a phethau ...ac mae hi'n trïo'n helpu i i gael gwaith a phopeth.'* Fodd bynnag, awgrymodd dau ymatebydd bod yna sefyllfa *Catch 22* yng nghyswllt cael gwaith cyflogedig os yw rhywun yn byw yn yr hosteli oherwydd er eu bod eisiau gweithio, roedd hyn yn cael effaith arwyddocaol ar faint yr oeddent yn gorfod ei dalu tuag at eu cadw. Awgrymwyd y gallai cael swydd ei gwneud hi'n fwy anodd i symud ymlaen i lety annibynnol: *'mae'n ddigon anodd trïo cal lle, achos os ydach chi'n gweithio amser llawn, mae'r rhent am y lle ma'n anhygoel. Maen nhw'n cymryd 70c o bob punt oddi arnoch chi achos bod budd-dal tai ddim yn ei dalu... ond mae'n well gen i fod yn gweithio, achos dw i wastad wedi gweithio, achos mae'n gas gen i fod allan o waith, achos dach chi jysd yn mynd yn ddiog, dach chi'n dod i arfer efo fo'.*

Ymarferol: Sicrhau ffordd fwy sefydlog o fyw

Nid oedd yr un o'r bobl ifanc a gyfwelwyd eisiau bod yn ddigartref. Gorfodwyd nifer ohonynt allan o lety sefydlog oherwydd pwysau eithafol neu amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth. Ni ellid disgrifio digartrefedd yn ddewis rhesymol nac yn opsiwn gorau i unrhyw un o'r bobl ifanc a gyfwelwyd: *'Nes i ddim dewis bod yn ddigartref. All neb wir ddewis bod yn ddigartref.'* Thema gyffredin a amlygodd ei hun o'r holl gyfweliadau oedd bod y bobl ifanc yn awyddus i symud ymlaen yn eu bywydau, ymgysylltu ag addysg a/neu gyflogaeth a chael llety sefydlog, parhaol. Gyda'r bobl ifanc hynny a oedd yn byw mewn hosteli ar y pryd, neu a oedd wedi aros ynddynt o'r blaen (rh=18), roedd y gefnogaeth yr oeddent yn ei derbyn yn eu helpu tuag at yr amcanion hyn: *'Mae gynnon nhw swyddog hyfforddi... does na ddim un yn y rhan fwyaf o hosteli... gweld be dach chi isio mewn bywyd, be dach chi'n licio ac mae o yma o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac weithio mae'n mynd off i hosteli gwahanol, i helpu pobl eraill... Felly, dw i ddim yn wastio ei amser o, dw i wir isio hyn.'* Mynegwyd yr un farn gan berson ifanc arall a ddywedodd *'Ers bod yn Sant Ioan, mae wedi agor llawer mwy o ddrysau tuag at gael lle fy hun i fynd i goleg... dw i'n bwriadu mynd ymlaen i goleg'* a dyma esboniad ymatebydd arall: *'Dim ond achos mod i'n byw yn Hafan y digwyddodd hyn... pe bawn i'n dal i fyw yn y llety gwely a brecwast, fyddai yna ddim gobaith... dw i jysd isio cyflawni fy nodau rŵan.'*

Iechyd a lles: Bwyta'n iach

Un mater a godwyd yn hanesion lleiafrif o ymatebwyr oedd y ffaith nad oeddent yn gallu datblygu patrymau bwyta iach am eu bod wedi cael eu gosod mewn llety gwely a brecwast heb unrhyw gyfleusterau coginio. Dyma sut y disgrifiodd un ymatebydd y cyfleusterau coginio prin oedd ar gael: *'Dwi'n cal 'y mhres, £10 y dydd, am fwyd. Mae gen i y'n microdon y'n hun, a brynes i efo fy grant cartref cyntaf, ac mae gen i oergell fach...mi alla' i neud tatws drwy'u crwyn...gormod o takeaways.'* Mynegwyd pryder cyffelyb ynglŷn â bwyta'n iach gan ymatebydd arall a oedd wedi byw mewn llety hostel: *'dydy eu hanner nhw ddim yn bwyta'n iawn. Maen nhw'n byw ar y 'super noodles' 10c yna o Tesco ac Asda. ...byddai'n well gan lawer ohonyn nhw fynd i gymryd y poen i ffwrdd yn hytrach na byw mewn lle fel yna, a jysd mynd i nôl potel o fodca neu rwbeth fel'na...'*

Iechyd a lles: Cyffuriau ac alcohol

Yn ystod y cyfweliadau, dywedodd rhai o'r pobl ifanc bod ganddynt broblem â chyffuriau (rh=7) ac alcohol (rh=10). Dim ond un person ifanc oedd yn credu mai problem alcohol a achosodd iddo/i ddod yn ddigartref: *'tawn i heb fod yn yfed yn drwm, mae'n debyg sŵn i heb ddod yn ddigartref yn y lle cyntaf.'* Yn fwy cyffredin, disgrifiodd ymatebwyr ddefnyddio cyffuriau a/neu alcohol fel ffordd o ymdopi â phroblemau. Roedd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn disgrifio defnyddio cyffuriau a/neu alcohol fel adwaith i, neu symptom o, ddigartrefedd.

Mi nathon nhw y'n rhoi i yno ac wedyn mi ddechreues i efo'r yfed, y cyffuriau, achos doedd gen i neb ar ôl yn 'y nheulu felly oedd o fel, wyt ti isio cyffuriau? Ie, wyt ti isio diod? Popeth oedd yn cael ei gynnig i fi, ro'n i'n ei gymryd, a dyna pryd nes i ddechrau mynd i drwbwl efo'r heddlu a rŵan drycha, dwi'm ond yn 19 a dw i wedi bod yn y carchar bump gwaith... mi ddywedon nhw stopia'r yfed a'r cyffuriau ac yna ella, ond dydy o ddim mor hawdd â hynna pan sgen ti nunlle i fyw, diflastod fwy na dim byd. Dw i wedi cymryd pob cyffur alli di ddychmygu, heroin, crac, *weed*, ecstasi, spîd, y lot, popeth, ac yna dw i'n mynd mor feddw achos mod i'n bôrd neu'n ypset neu beth bynnag, dw i'n yfed gymaint nes dw i'n methu cofio be dw i wedi 'neud. Wel dw i'n yfed bob dydd fel y mae hi o'r funud dw i'n deffro ond dyna be achosodd o pan ddechreues i efo'r yfed a'r cyffuriau. Dwn i'm, mae'n blocio pethau allan, mae'n y'ch helpu chi. Pan dach chi wedi meddwi neu ar gyffuriau, dio'm bwys gennach chi lle dach chi'n cysgu, felly mae'n haws meddwi a deffro yn y bore a meddwl o dduw, ac yna dach chi'n cal diod arall felly dio'm bwys gennach chi ac yna dach chi'n anghofio.

Soniodd rhai ymatebwyr am ddefnyddio cyffuriau a neu alcohol i ymdopi efo cysgu allan: *'be a'th â fi drwy'r nosweithiau oedd cwrw, deud y gwir, dach chi'n gwbod, mae hynna wedi helpu lot arna i'* ac fel yr ymhelaethodd ymatebydd arall: *'Cyffuriau dyna fy nuw ar ddiwedd y dydd...mae'n haws cysgu, mynd off y'ch pen. Gorwedd i lawr, syrthio i gysgu, hyd yn oed mor oer ag oedd hi ganol gaeaf.'* Roedd pobl ifanc eraill yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a ddarparwyd yng nghyswllt ymdopi ag anawsterau cyffuriau ac alcohol yn y gymuned ac yn yr hosteli, y naill a'r llall: *'Weithiau dach chi'n cael asesiad risg, fel, yn ymwneud efo alcohol, cyffuriau ac os dach chi isio help i ddod off cyffuriau, mae yna wastad DIP (Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau) a ballu, mae yna wastad lot o help. Mae gynnoch chi'r holl lefydd yna pan dach chi'n ei ffeindio hi'n anodd, mi allwch chi fynd i'r llefydd yna.*

Fodd bynnag, roedd ymatebwyr a oedd newydd ddod yn ddigartref yn pellhau eu hunain oddi wrth bobl ddigartref hŷn, tymor hir, ac yn pellhau eu hunain yn benodol oddi wrth ddefnyddwyr cyffuriau ac alcohol problemus. Roedd hi'n amlwg na fyddai rhai pobl ifanc yn troi at wasanaethau yr oeddent yn credu bod defnyddwyr cyffuriau ac alcohol problemus yn eu defnyddio. Cododd hyn mewn nifer o hanesion: *'Rŵan, o'dd* [ENW] *yn lle gwych, roedd o'n lle iawn i fyw ond y broblem oedd bod gen i bolisi dim cyffuriau cryf. Alla' i ddim diodde cyffuriau na defnyddwyr cyffuriau o 'nghwmpas i achos mi nath y'n ewythr i farw pan oedd o'n 20 oherwydd cyffuriau felly mae hynna'n 'no-no' mawr i fi. Ac roedd cael pobl yn cnocio 'y nrws i am 5 y bore off eu pennau ar gyffuriau yn y'n ypsetio i achos allwn i mo'i ddioddef fo ac ro'n i'n mynd mor isel nes o'n i'n trïo cymryd 'y mywyd y'n hun.* Ategwyd yr un farn gan berson ifanc arall a dynnodd sylw at y mater hwn yng nghyswllt gwasanaethau sector gwirfoddol penodol: *'mae lot o bobl yn peidio â mynd achos mai pobl sy'n gaeth i heroin, pobl ddigartref y stryd, pobl hŷn sy'n mynd, nid y bobl ifanc 16-25 oed yn benodol, mae unrhyw un yn gallu mynd felly mae lot o bobl yn cael eu rhoi off gan y math o bobl sy'n mynd yno, hyd yn oed er eu bod nhw yn yr un sefyllfa,*

maen nhw'n dal i farnu pobl eraill.' Cynigiodd y person ifanc yma yr esboniad canlynol: *'yn anffodus, mae mwyafrif y bobl dach chi'n eu gweld o gwmpas y dref sy'n ddigartref yn gaeth i ryw beth neu'i gilydd a dwi'n meddwl eu bod nhw ofn, maen nhw eu hofn nhw, maen nhw ofn y gallen nhw fynd i drwbwl efo nhw...dechreuodd llawer o'u problemau nhw pan oedden nhw'n iau, dw i'n meddwl, ac ar y cyfan, mae hynny'n dychryn pobl iau, ie, dw i'n meddwl bod lot o bobl yn meddwl mai dyna sut y gallen nhw fod mewn rhai blynyddoedd.'*

Iechyd a lles: Iechyd meddwl ac emosiynol

Disgrifiodd bron i dri chwarter y bobl ifanc sut y bu iddynt brofi problemau iechyd meddwl (rh=14). Roedd y problemau'n cynnwys Iselder, Seicosis, Anhwylder Gorfodaeth Obsesiynol (OCD) a hunan-niweidio, ac roedd nifer o'r pryderon hyn yn amlwg cyn iddynt ddod yn ddigartref. Soniodd chwarter yr ymatebwyr am ymdrechion i ladd eu hunain (rh=5). Disgrifiodd rhai o'r ymatebwyr sut y bu iddynt gael problemau iechyd meddwl yn ystod eu plentyndod, a chael cymorth gan y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHs) *'Mi nes i drïo lladd y'n hun ac mi nathon nhw y'n rhoi i mewn ysbyty, ac roedd rhaid i fi fynd yno bob wsnos wedi hynny nes o'n i'n 18'* [ers bod yn 11 oed]. Cyfeiriodd person ifanc arall at ddisgrifiad cyffelyb o broblemau iechyd meddwl:

'Mae gen i ADHD, Seicosis, Sgitsoffrenia a Syndrom Irlen...Wel doedd neb yn gwbod be oedd o achos dw i wedi cal problemau iechyd meddwl ers o'n i'n blentyn. Mi fyddwn i'n gwylltio'n gandryll am y peth lleia.. allen nhw ddim neud dim byd efo fi. Ro'n i'n risg uchel achos mod i'n hunan-niweidiwr mawr... yn y bôn, ro'n i eisiau lladd y'n hun, o'n i jysd isio rhoi diwedd ar bopeth mi es i mewn i'r ysbyty... roedd [*rehab*] yn help mawr. Heb y 12 mis yna, dwn i ddim lle faswn i rŵan, mae'n debyg y baswn i dal ar waelod gwter yn rhywle ac wedi marw.'

Roedd rhai pobl yn cysylltu eu problemau iechyd meddwl â bod yn ddigartref, fel yr ymatebydd canlynol, a wnaeth gysylltiad rhwng y ffordd y mae'r cyhoedd yn trin pobl ddigartref ac iselder: *'...yr agwedd tuag at y bobl ddigartref gan amrywiaeth helaeth o bobl, dyna, dw i'n meddwl, sy'n ei gwneud hi'n fwy anodd i bobl, achos mae o fel eu rhoi nhw i lawr mewn ffordd felly wedyn dydyn nhw ddim yn teimlo mor hyderus a dyna pryd mae pobl eraill yn dechrau yfed hefyd, oherwydd hyder, a dyna pryd mae pobl yn dechrau cael iselder.'*

Dywedodd un o'r ymatebwyr bod y meddyg teulu'n rhannu'r farn bod bod yn ddigartref yn uniongyrchol gysylltiedig ag iselder: '*Dw i'n disgwyl gael cwnsela, achos mae fy meddyg wedi fy atgyfeirio... dim ond ers i mi ddod yn ddigartref y mae'r iselder wedi dechrau, ac mae'r meddyg yn dweud ei fod yn ddifrifol. A fo ydy'r un nath ysgrifennu llythyr at y cyngor.'*

Daeth hi'n amlwg o nifer o hanesion bod y straen o fod yn ddigartref yn cyfrannu at broblemau iechyd meddwl, gan gynnwys hunan-niweidio, fel y dywedodd un person ifanc: *'Mi fues i'n byw ar y stryd am flwyddyn a hanner yn gneud cyffuriau a ballu. Ro'n i yn yr ysbyty am wsnos a ballu, achos mod i wedi cymryd gorddos achos mod i ddim yn gallu ymdopi ddim mwy'* ac esboniodd person ifanc arall, a oedd wedi cael ei gwahardd dros dro rhag aros yn y lloches nos am ei bod hi wedi hunan-niweidio tra'r oedd hi yno:

'..mi nes i rwbeth gwirion, mi es i i'r ysbyty a ballu, ond dw i'n cal mynd yn ôl fory, dw i wedi bod yn yr ysbyty... mi nes i niweidio y'n hun i mewn yna.. ac achos bod nhw wedi deud mod i'n risg iddyn nhw ac yn risg i fi'n hun felly... wel oedden nhw eisiau 'nghadw i mewn ond mi redes i ffwrdd achos mod i braidd yn ofnus fel... dw i wedi cymryd gorddosau yn y gorffennol...'

Roedd rhai ymatebwyr yn derbyn gwasanaethau gan weithwyr proffesiynol ym maes iechyd meddwl:

'Dw i'n dal i gal cwnsela rŵan, dw i'n dal i gal 'y ngrŵp CAMHs.. a dw i yn gwella rŵan a dw i ddim yn teimlo cymaint o straen ac eisiau lladd y'n hun ddim mwy yn amlwg achos mae gen i 'y nghartref bach a dw i'n cal lot o gefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a Barnardo's.... ond ro'n i mewn cyflwr emosiynol iawn ar y dechrau er, fel y dudes i, bron i fi ladd y'n hun ac roedd gen i 300 o dabledi yn y'n system, dim ond i un o'r staff yn [ENW] y'n ffeindio fi achos bod rhaid iddyn nhw archwilio ystafelloedd a do'n i ddim yn gwbod bod nhw'n gorfod neud hynny ac mi wnaethon nhw'n ffeindio i ar y llawr.'

Roedd hi'n amlwg, o'r hanesion, bod rhai ymatebwyr yn credu bod yr ymyriadau iechyd meddwl a gawsant yn fuddiol, fel y dangosir gan un person ifanc a siaradodd yn gadarnhaol am y gefnogaeth a dderbyniodd gan Brosiect Llwyfen, er gwaethaf yr anhawster i gael mynediad at y gwasanaeth yn y lle cyntaf: *'Gan mod i wedi bod yn ddigartref...yn y bôn, roedd hi'n reit anodd i mi gael meddyg, wedyn mi nes i glywed am Brosiect Llwyfen hefyd a dw i wedi cal cymorth uniongyrchol gan y nyrs gymunedol oddi yno – mae hynna wedi'n helpu i i gael y'n meddyginiaeth, yn y bôn'.*

Sylw

Dywedodd pob un o'r bobl ifanc a gyfwelwyd eu bod eisiau ffordd o fyw fwy sefydlog. Roedd sicrhau llety parhaol a oedd yn bodloni eu hanghenion yn flaenoriaeth ganddynt. Fodd bynnag, disgrifiodd rhai pobl ifanc sut y cawsant eu gosod mewn llety anaddas, a oedd yn broblem arbennig o anodd i rieni ifanc. Nid oedd llawer o'r bobl ifanc wedi cael cyfle i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i fyw'n annibynnol, megis cynllunio prydau, hylendid a chyllidebu. Roedd y bobl ifanc yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a roddwyd gan yr hosteli i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol. Roedd pob un o'r bobl ifanc yn anelu at fynd ar drywydd cyflogaeth neu addysg a hyfforddiant, er bod bod heb lety parhaol yn golygu sialensiau sylweddol o ran cyflawni'r nod hwn. Mae Adroddiad yr Uned Allgau: 'Pontio: Pobl Ifanc ag Anghenion Dyrys'[35] yn dynodi nad oes gan bobl ifanc agored i niwed, gan gynnwys y rheiny sy'n gadael gofal, y rhwydweithiau cymdeithasol a'r cyfalaf cymdeithasol angenrheidiol i alluogi iddynt wneud penderfyniadau

35 Adroddiad yr Uned Allgau (2005): 'Pontio: "Pobl Ifanc ag Anghenion Dyrys. Llundain, Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog.

gwybodus am eu dyfodol. Unwaith eto, dywedodd y bobl ifanc fod y gefnogaeth a roddwyd gan yr hosteli, gan gynnwys darparu swyddog hyfforddi, wedi bod yn fuddiol.

Roedd iechyd a lles y bobl ifanc yn destun pryder ar sawl lefel. Nid oedd gan rai pobl ifanc na'r cyfleusterau na'r wybodaeth i baratoi bwyd iach, a dywedodd dros draean bod ganddynt broblem camddefnyddio cyffuriau (rh=7) a disgrifiodd hanner ohonynt eu hunain yn ddefnyddwyr alcohol problemus (rh=10). Ar ben hynny, disgrifiodd bron i dri chwarter y bobl ifanc sut y bu iddynt brofi problemau iechyd meddwl (rh=14), gyda'u chwarter yn nodi iddynt geisio lladd eu hunain (rh=5). Mae'r materion hyn yn codi pryderon pwysig am anghenion iechyd corfforol ac emosiynol y bobl ifanc ar hyn o bryd yn ogystal ag i'r dyfodol, a'r lefel o risg i'w hiechyd sy'n cael ei gwaethygu gan eu diffyg llety addas.

6. Canlyniadau: Rhwystrau rhag cael Mynediad at Wasanaethau

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gyfwelwyd eu bod wedi dod ar draws pethau a'u rhwystrodd rhag cael mynediad at wasanaethau. At ddibenion yr adroddiad hwn, rhannwyd y rhwystrau yn rhwystrau systematig a phrofiadau personol o stigma a chamwahaniaethu.

Rhwystrau systematig: Gwybodaeth am wasanaethau

Roedd hi'n amlwg o hanesion mwyafrif yr ymatebwyr nad oedd pobl ifanc yn gwybod pa wasanaethau oedd ar gael a sut i gael mynediad atynt. Mae hynny'n golygu bod yna rwystr sylweddol yn bodoli yn y pwynt cyswllt cyntaf, pan fydd angen mynediad at gefnogaeth ar berson ifanc pan ddaw'n ddigartref am y tro cyntaf. Ymhellach, erbyn iddynt ddod i wybod am wasanaethau, roeddent eisoes wedi cyrraedd pwynt argyfwng: *'Y peth pwysica ydy bod pobl yn gwbod lle mae na gymorth ar gal iddyn nhw, achos dydy o ddim yn amlwg iawn pa wasanaethau sydd ar gal tan y'ch bod chi mewn helynt go iawn, mewn ffordd'.* Mynegwyd yr un farn gan berson ifanc arall a ddywedodd *'Efallai cymdeithas yn dod at y digartref yn hytrach na'r digartref yn mynd atyn nhw... Dydy pob person digartref ddim yn gwbod am bopeth.'*

Roedd rhai ymatebwyr yn sylweddoli bod pobl ifanc yn arbennig o agored i niwed yn hyn o beth: *'Dw i'n meddwl eu bod nhw'n fwy ofnus ac ansicr ynglŷn â be sy'n digwydd ac ella bod nhw ddim yn gwbod pa help sydd ar gael iddyn nhw, dydy o ddim yn amlwg iawn, dydy lot o bobl ddim yn gwbod am Shelter, dydy lot o bobl ddim yn gwbod am Compass, trïo mynd i chwilio am help a ddim yn gwbod lle i fynd a theimlo bod pobl yn mynd i'ch barnu chi. Meddwl, wel, y'ch bai chi y'ch hun ydy o neu be bynnag... dw i'n reit gyfforddus yn mynd yno i drafod 'y mhroblemau i efo nhw a gofyn am help, ond rai blynyddoedd yn ôl do'n i ddim, a dw i'n meddwl bod 'na lot o bobl yn yr un sefyllfa achos dydyn nhw ddim yn gwbod be sy'n mynd i ddigwydd.'* Mynegwyd yr un safbwynt gan ymatebydd arall: *'..dydyn nhw ddim yn gwbod am y llefydd i fynd, dydy'r rhan fwyaf o bobl ifanc, 16 oed dudwch, ddim yn gwbod, dim ond newydd ddod o'r ysgol maen nhw...sut maen nhw'n gwbod eu bod nhw'n byw ar y stryd a ballu, ond does ganddyn nhw neb i droi ato.'*

Roedd hi'n amlwg o hanesion rhai pobl ifanc eu bod wedi dysgu am wasanaethau gan bobl ifanc eraill a oedd mewn sefyllfaoedd cyffelyb. Dyma esboniad un person ifanc:

> Mae na dipyn o'n ffrindiau i efo Barnardo's, felly mi nathon nhw 'y nghyflwyno i iddyn nhw, achos ro'n i'n ei chael hi'n anodd iawn cal lle... dw i ddim yn meddwl bod Barnardo's yn cal cymaint o gyhoeddusrwydd ag y dylai o. Dw i'n meddwl y dylai'r cyngor sôn wrth bobl ifanc amdano, a dylai *Wales and West* ddeud wrth bobl ifanc amdano fo, ond decini bod nhw ddim yn mynd i neud, achos mae Barnardo's yn dipyn o boen iddyn nhw. Mae o fel 'blydy hel, honna o Barnardo's eto, well i ni gael tŷ iddi'.

Ategwyd hyn gan berson ifanc arall a soniodd am y gefnogaeth a dderbyniwyd gan bobl oedd yn ddigartref ar y stryd, gan ddweud *'Mi ddysges i fwy gan bobl ar y stryd. Maen nhw fel, achos bod fi a* [ENW] *yn ifanc, maen nhw'n cymryd ni dan eu hadain, a dach chi'n gwbod, yn helpu ni ac yn deud wrthon ni be mae'n rhaid i chi neud a phethau felly.'*

Rhwystrau systematig: Ymdopi â'r Swyddfa Dai

Fel yr esboniodd y bobl ifanc, er mwyn cael mynediad at wasanaethau gan yr awdurdod lleol ar ôl dod yn ddigartref, roedd angen iddynt droi at wasanaeth Digartrefedd Adran Dai yr Awdurdod Lleol. Mynegodd pob un o'r bobl ifanc brofiadau a/neu deimladau negyddol tuag at yr adran dai. Thema gyffredin a amlygodd ei hun o'r cyfweliadau oedd bod y bobl ifanc yn teimlo bod staff llinell flaen yn yr adran ddigartrefedd yn edrych arnynt drwy lygaid negyddol. Dyma ddisgrifiad un ymatebydd:

> Weithiau, mi fyddwn i'n mynd yno yn 'y nagrau yn deud bod angen lle arna i, alla i siarad efo rywun, a doedden nhw ddim yn neis iawn, deud y gwir, dw i'n meddwl bod nhw jysd yn meddwl o dyma un arall eto. Mae hi jysd isio lle felly mae hi'n mynd i droi'r dagrau 'mlaen, ond o'n i'n despret.

Dywedodd person ifanc arall *'pan dach chi'n siarad efo nhw, maen nhw'n neud i chi deimlo'n anghyfforddus achos maen nhw'n siarad lawr efo chi; dw i'n ei chael hi'n anodd iawn siarad efo'r cyngor am broblemau efo tai a ballu... Pan dw i'n dod allan, dw i'n teimlo'n annifyr ac yn teimlo'n ypset weithiau. Â' i ddim ar ben y'n hun, dw i'n mynd ag un o'n ffrindiau i efo fi.'* O ganlyniad, roedd rhai ymatebwyr yn sôn am deimlo bod neb yn gwrando arnyn nhw: *'Dydy'r cyngor jysd ddim yn gwrando... os na wnawn nhw wrando, yna wnawn nhw ddim deall.'* Roedd hyn yn gwbl groes i brofiadau llawer o'r bobl ifanc gyda'r gwasanaethau yn y sector gwirfoddol – archwilir y rhain yn nes ymlaen. Gan barhau â'r thema hon, soniodd rhai pobl ifanc am deimlo rhwystredigaeth yn y Swyddfeydd Tai a cholli rheolaeth, fel yr esboniodd un ymatebydd a ddywedodd, *'Dw i ddim yn licio fo, dw i wedi cal 'y ngwahardd oddi yno.'*

Roedd hi'n amlwg o hanesion y bobl ifanc bod gofyn iddynt esbonio pam iddynt ddod yn ddigartref, ac mae hynny'n golygu datgelu gwybodaeth bersonol am amgylchiadau sydd, fel arfer, yn boenus. Daeth hi'n amlwg bod yr hyn y mae'r person ifanc yn ei ddweud yn bwysig, oherwydd bod angen i'r Adran Dai benderfynu a yw'r bobl ifanc wedi eu gwneud eu hunain yn 'fwriadol ddigartref'. Pe baen nhw wedi eu gwneud eu hunain yn fwriadol ddigartref, ni fyddent yn gymwys ar gyfer derbyn llety.

Cyfeiriodd rhai pobl ifanc at enghreifftiau o gael anhawster i esbonio eu sefyllfa i'r swyddfa dai, er eu bod yn sylweddoli pa mor bwysig oedd sut y byddent yn esbonio eu sefyllfa, o ran y gwasanaethau y byddent yn eu derbyn: *'Mae'n dibynnu sut maen nhw'n esbonio eu sefyllfa... dydyn nhw ddim jysd yn gallu mynd i mewn yna a deud o ylwch, dw i'n ddigartref. Mi fyddan nhw'n deud be dach chi isio i ni neud am y peth? …. dydyn nhw ddim yn gwbod be i ddeud, neu dydyn nhw ddim isio ei ddeud o.'* Cyfeiriodd rhai o'r bobl ifanc at anhawster rhannu gwybodaeth bersonol, yn arbennig pan fydd y sefyllfa, yn aml, yn deillio o chwalfa deuluol:

> Achos mod i wedi symud allan am bod mam wedi cicio fi allan, roedd gen i broblemau, yn y bôn, achos do'n i ddim yn gwbod be i ddeud wrthyn nhw a doedden nhw ddim yn y'n neall i, felly o'dd rhaid i fi fynd â

gweithiwr Compass [Barnardo's] efo fi er mwyn iddi hi siarad drosta i... roedd o'n anodd i fi, achos mae gen i dyslecsia ac allwn i ddim cal 'y mhwynt drosodd iddi hi ac roedd hi isio i mi siarad drosta i'n hun a mi ddudes i 'mod i'n siarad drosta i'n hun ond dw i'n eistedd yma'n gwrando ac mi ddudes i digon teg ond mi roedd hi'n torri ar 'y nhraws bob munud .. y ddynes tai. Ar ôl hynny, do'n i ddim yn cynhyrfu, ond mae'n anodd achos ma gynnoch chi weithiwr ac mae'r gweithiwr yn gwbod dan faint o straen o'n i, ond o'dd hi dal isio clywed genna' i... Mae'n anodd siarad efo hi achos mae hi'n edrych i lawr arnoch chi'

Felly, roedd rhai ymatebwyr yn credu bod cefnogaeth gweithiwr yn ystod y cyfweliadau hyn yn bwysig:

I bobl ifanc, iau na fi, bydd hi'n fwy anodd achos mae'n rhaid iddyn nhw siarad drostyn nhw eu hunain. Does ganddyn nhw neb... tasen nhw ddim efo fi [gweithwyr Compass] mi faswn i jysd wedi cerdded allan a gneud y'n hun yn fwriadol ddigartref ond achos bod nhw yna i siarad drosta i, ro'n i'n iawn... Dydy'r gefnogaeth ddim gen y rhan fwyaf o bobl ifanc neu bobl hŷn, sgynnyn nhw neb i fynd efo nhw, rhaid iddyn nhw fynd ar eu pen eu hun. Mae'n siŵr bod nhw ofn drwy'u tinau, fel o'n i, ond roedd gen i rywun efo fi, ond o'n i dal yn ofnadwy o ofnus.

Rhwystrau systematig: Help ar ôl 18 oed

Soniodd nifer o ymatebwyr am sut roedden nhw'n gallu gael cymorth hyd nes iddynt fod yn ddeunaw, er ei bod hi'n anos, ar ôl cyrraedd y deunaw, i gael cymorth gan yr Adran Dai. Mae hyn yn deillio o ddiffiniadau o gymhwyster yn y ddeddfwriaeth ddigartrefedd, yng nghyswllt angen blaenoriaethol ac elfennau agored i niwed. Thema a oedd yn ymddangos o'r cyfweliadau oedd y ddarpariaeth lawer llai gan yr awdurdod lleol unwaith iddynt ddod yn ddeunaw. Soniodd ymatebwyr am ddarpariaeth statudol: *'Tawn i'n 16-18 mi faswn i'n deud yndi, mae'n dda, ond pan dw i dros 18, dydy o ddim, mae'n lle uffernol... Wnawn nhw jysd ddim y'ch derbyn chi, maen nhw'n rhoi cyfweliad i chi, gwastraffu y'ch amser chi, dyna'r cyfan maen nhw'n neud. Dydy'r cyngor ddim help rownd fama.'* Adleisiwyd hyn gan ymatebydd arall a ddywedodd:

Dw i'n ddigartref, sgen i nunlle i fyw, y cyngor, achos bod chi dros 18, wnawn nhw mo'ch helpu chi, ac mae hynna'n rong rili, achos ar ddiwedd y dydd dach chi dal yn reit ifanc. Dim ond 19 ydw i ac mi ddylen nhw y'ch helpu chi, mae angen i'r cyngor helpu dipyn bach mwy, wnawn nhw jysd ddim gwrando, dwi naill ai ar y stryd neu yn y lloches nos... rhwng un deg chwech ac un deg wyth oed mae'n rhaid iddyn nhw y'ch cartrefu chi, a dyna'r unig reswm maen nhw'n neud, cyn gynted â dach chi'n un deg wyth, dydyn nhw ddim isio gwbod, mae o fatha dach chi ar y rhestr aros, ewch o'ma... rhaid i chi gal hyn a hyn o bwyntiau, dach chi'n gorfod neud hyn ac mae'n anobeithiol, y cyfan ohono fo.

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr bod hwn yn fater y dylid mynd i'r afael ag ef: *'Dw i'm yn meddwl bod o'n iawn bod disgwyl iddyn nhw, pan maen nhw'n 18, sefyll ar eu traed eu hunain ac ymlafnio eu ffordd drwy fywyd ac mae na blant allan fanna sy'n byw gartref efo'u rhieni tan eu bod nhw tua 27, dach chi'n gwbod, felly mae hwnna'n rhywbeth y byddwn i'n edrych arno fo – ehangu'r gwasanaeth o 18 i 21. Pan dach chi'n 18, dw i'n meddwl mai dim ond jysd dechrau bywyd ydach chi.'* Gan barhau â'r thema hon, soniodd rhai pobl ifanc am y system flaenoriaethu yn yr Adran Dai:

Dan ni wedi bod yn ddigartref ers rhyw 2 fis rŵan, a dan ni wedi bod yno rhyw 20, 30 o weithiau... mae'r help y tu allan i'r cyngor yn dda, ond y cyngor? ddim yn dda o gwbl. Dydyn nhw jysd ddim yn poeni, na, eu ystumiau a'r ffordd maen nhw'n siarad efo chi, fatha deud bod chi ddim yn flaenoriaeth, does dim rhaid i ni neud dim byd i chi.... Reit drahaus.

Disgrifiodd rhai ymatebwyr anhawster a gawsant yn sicrhau cymorth gan y gwasanaethau statudol. Ymhellach, roedd hi'n adleisio sylwadau a wnaed yn gynharach ynglŷn â gorfod datgelu gwybodaeth sensitif y tro cyntaf iddi geisio cael mynediad at wasanaeth:

Mae'n anodd cal help go iawn gan y mudiadau... allwch chi ddim jysd cerdded i mewn i gwasanaethau cymdeithasol a deud reit dw i isio gweithiwr cymdeithasol, mae angen help arna i, dw i isio cal help i gal lle i fi'n hun, allwch chi ddim neud hynna, rhaid i chi fynd yno y'ch hun a siarad efo nhw a deud wrthyn nhw bob peth sydd wedi digwydd i chi yn y gorffennol, a sdwff fel'na, sy'n anodd, siarad am y'ch gorffennol achos does na'm llawer o bobl sy'n gallu siarad am eu gorffennol efo bobl eraill felly mae o'n anodd, mae rhai mudiadau yn anodd cael i mewn iddyn nhw, swn i'n deud Gwasanaethau Cymdeithasol ond mae rhai yn reit hawdd, ma Barnardo's yn hollol wych.

Roedd hi'n amlwg o hanesion llawer o'r ymatebwyr bod rhwystr sylweddol rhag cael mynediad at wasanaethau yn deillio o'r diffiniad o 'fwriadol ddigartref'. Mae'r diffiniad hwn yn agored i'w ddehongli, ac os yw'n cael ei gymhwyso'n gaeth, gallai olygu'r gwahaniaeth rhwng cael cymorth neu beidio â'i gael. Esboniodd un person ifanc:

Maen nhw'n 'y nhynnu i oddi ar y rhestr drwy'r amser achos mod i wedi cal 'y nhaflu allan o un o'r hosteli am beidio â chadw'n stafell i'n daclus am mod i'n dioddef iselder [clinigol] ar y pryd... maen nhw'n deud mod i'n gneud y'n hun yn fwriadol ddigartref. Maen nhw'n trïo 'nghael i allan o'r hostel ac mae Shelter yn y'n helpu i i apelio yn ei erbyn ar y funud felly dydyn nhw ddim yn gallu 'nhaflu i allan tan fyddan nhw wedi dod i gasgliad ydyn nhw'n mynd i ddeud mod i'n fwriadol ddigartref neu beidio... ro'n i'n byw mewn tŷ diogel yn [ENW] ac roedd rhaid i fi symud allan achos mod i'n cal 'y mwlio ac achos mod i wedi symud allan, mi wnathon nhw ddeud mod i'n fwriadol ddigartref achos mae'n debyg mod i wedi neud y'n hun yn ddigartref wrth symud allan.

Cyfeiriwyd at y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc yn gadael gofal gan rai pobl ifanc – nodyn i atgoffa, roedd gan bron i hanner yr ymatebwyr brofiad o dderbyn gofal gan yr awdurdod lleol (rh=9). Mae Deddf Plant (Gadael Gofal) 2000 yn ehangu cyfrifoldeb yr awdurdod lleol i ddarparu llety ar gyfer pobl ifanc 17 ac 18 oed sydd wedi bod mewn gofal am 13 wythnos yn y 2 flynedd cyn eu pen-blwydd yn 16. Cyfeiriodd rhai pobl ifanc at beidio â chwrdd â'r meini prawf ar gyfer cefnogaeth ôl-ofal: *'Mi es i nôl at y gwasanaethau cymdeithasol i ofyn a fydden nhw'n gallu helpu. Ac mi ddudon nhw na achos ... roedden nhw'n deud doeddech chi ddim mewn llety parhaol, doeddech chi 'mond mewn llety dros dro... felly ers pan dw i'n 16 oed dw i wedi bod mewn hosteli a ballu, ac achos yr holl straen a ballu, nes i ddechrau yfed, felly o'n i'n cal 'y nhaflu allan o bob man... es i at y cyngor ddoe a nathon nhw ddeud alla i ddim y'ch helpu chi achos bod chi'n 18, dach chi ddim yn flaenoriaeth.'*

Gan barhau â'r thema hon, roedd rhai hanesion yn sôn am leihau cefnogaeth unwaith y bydd person ifanc yn cyrraedd y 18 oed:

> Ar ôl troi'n 18, dydy gwasanaethau cymdeithasol ddim yn gallu talu y'n rent i ddim mwy, felly dw i'n mynd i orfod talu'r gwahaniaeth. Sydd fel £100 y mis sy'n lot o bres i fi... mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn meddwl bod nhw'n helpu ond dydyn nhw ddim... ar ddiwedd y dydd mae hyd yn oed 'y ngweithiwr cymdeithasol i'n deud bod hi'n brysur... mae ganddi hi lwyth o flaenoriaethau eraill a mae o fel... ro'n i'n sôn am dai fel y flaenoriaeth fwyaf i fi... felly dw i jysd ddim yn meddwl bod gynnyn nhw ddigon o amser i chi, wir.

Profiad personol o stigma a chamwahaniaethu

Cyfeiriodd y bobl ifanc yn y sampl at amrywiol raddfeydd o elyniaeth roedden nhw wedi'i dioddef yn sgil bod yn ddigartref; roedd hyn yn cynnwys ymosodiadau corfforol, gwawd a chamwahaniaethu. Roedd hi'n amlwg o hanesion yr ymatebwyr bod gan nifer o'r bobl ifanc lefel isel o hunan-barch, a hwnnw'n cael ei waethygu gan y stigma a'r driniaeth sy'n dilyn bod yn ddigartref: *'Swn i'n deud mai bod yn ddigartref ydy gwaelod y domen, allwch chi ddim mynd dim pellach i lawr y lein na bod yn ddigartref, a deud y gwir.'* Adleisiwyd hyn gan berson ifanc arall a deimlai iddo gael ei weld fel: *'baw isa'r domen, sgym – mi ges i 'ngalw'n gymaint o enwau am fyw dan bont ... ro'n i'n ei gasáu o.. ro'n i jysd yn casáu bywyd... o'n i jysd isio gadael cymdeithas. Ro'n i wedi cyrraedd y gwaelod beth bynnag. Allwn i ddim mynd dim pellach.'*

Soniodd rhai ymatebwyr am golli hyder oherwydd eu sefyllfa, fel UN PERSON IFANC, a ddywedodd *'dw i'n brwydro yn erbyn fy iselder.. a'r prif beth arall ydy hyder a phethau felly ac mae'r staff lle dw i'n byw yn trïo cal lle i fi ar gwrs magu hyder hefyd ar hyn o bryd.'* Disgrifiodd rhai o'r bobl ifanc eu hunain yn cael anawsterau gyda rheoli dicter. Disgrifiodd ymatebwyr sefyllfaoedd a oedd wedi codi oherwydd y broblem hon: *'Dicter... dw i'n delio efo fo yn y'n ffordd y'n hun, ddim siarad amdano fo, mae'n neud i fi deimlo'n waeth... Pan dach chi'n siarad am bethau, dw i'n cal 'y nghorddi'* esboniodd un arall: *'..jysd pobl, pan maen nhw'n weindio fi fyny, dwnim, dw i ddim yn gallu cadw 'nheimladau i fi'n hun, dw i jysd yn gwylltio yn y diwedd, dw i'n trïo, ac yn trïo ac yn trïo yna yn y diwedd, dwi jysd yn ffrwydro.'*

Canfyddiadau'r cyhoedd o ddigartrefedd

Mae mwyafrif y bobl ifanc wedi dioddef ymosodiadau, galw enwau a chamwahaniaethu am fod yn ddigartref; maent yn teimlo eu bod yn cael eu stigmateiddio a'u gwrthod gan y cyhoedd yn gyffredinol. Roedd hi'n amlwg o hanesion y bobl ifanc bod llawer ohonynt yn gwneud eu gorau i guddio unrhyw arwydd eu bod yn ddigartref. Roedd nifer o'r bobl ifanc yn defnyddio'r ystod dda o wasanaethau cefnogi sydd ar gael yn Wrecsam – megis y cyfle i gael cawod a golchi dillad. Mae cyfleusterau o'r fath yn gallu bod yn anodd cael gafael arnynt mewn trefi a dinasoedd eraill. Roedd hyn yn helpu pobl ifanc ddigartref yn Wrecsam i gadw eu hurddas a'u lles personol, ond roedd hefyd yn helpu i wneud yn siŵr nad oedd pobl eraill yn sylweddoli eu bod yn ddigartref: *'mi allwch chi fod yn ddigartref, ond mi allwch chi dal wisgo'n smart. Os dach chi'n gwisgo fel trempyn, yna y'ch bai chi y'ch hun ydy hynny; mae yna wastad rywle i olchi y'ch dillad a chal cawod. ..Os dach chi'n bihafio fel rhywun sydd ar y stryd, yna dach chi'n mynd i ga'l enw i chi y'ch hun, yn tydach.'* Fel yr awgryma'r data uchod, roedd rhai pobl ifanc yn awyddus i

osgoi'r stigma o fod yn ddigartref ac roedd eraill yn deall bod pobl ddigartref yn cael eu stereoteipio mewn ffordd negyddol: *'dw i'n meddwl mai'r ffaith ydy bod 'na lawer ohonyn nhw'n poeni eu bod nhw'n mynd i gael eu stereoteipio. Pan fydd pobl yn clywed y gair digartref a phobl ifanc, maen nhw'n dueddol o feddwl bod nhw'n gaeth i gyffuriau'.* Adleisiwyd hyn gan ymatebydd arall:

> Wel dw i'n meddwl bod lot ohonyn nhw sydd angen tai, os dach chi'n edrych arnyn nhw, fyddech chi ddim yn gwbod eu bod nhw'n ddigartref, achos maen nhw'n dal i wisgo dillad cymharol ddeche neu beth bynnag, a dydyn nhw ddim heb molchi na dim byd felly. Mi athon ni i gwarfod gweinidog cynlluniad cwpwl o wsnosau yn ôl a dw i'n meddwl bod hi wedi deud y cyfan am y sefyllfa achos cyn gynted ag y gwnaethon ni ddeud y'n bod ni'n gweithio ar brosiect efo pobl ifanc 16 i 25 oed oedd yn ddigartref, mi ddudodd hi. o dw i'n cymryd bod gynnyn nhw i gyd broblemau camddefnyddio sylweddau neu gofnodion troseddol a ballu a dw i'n meddwl mai dyna fyddai'r rhan fwya o bobl yn ei feddwl, ma'n debyg. Hynny ydy, eu bai nhw ydy o bod nhw wedi dechre ymhél efo cyffuriau neu droseddu neu beth bynnag a dyna pam bod nhw'n ddigartref a dyna pam allan nhw ddim cael eu cartrefu. Dan rai amgylchiadau, mae hynny'n wir ond y rhan fwyaf o'r amser dydy o ddim ac mae'n fater o drïo cal pobl i sylweddoli a gweld nad ydy pawb sy'n ddigartref yn ddrygi neu'n droseddwr... ond gall hi fynd y naill ffordd neu'r llall, mae'n gallu bod yn gadarnhaol hefyd, wel, dw i'n deud cadarnhaol, maen nhw'n rhyw fath o'ch pitïo chi, sydd weithiau'n gallu bod yn waeth na bod yn ddi-hid achos dach chi ddim isio pobl yn y'ch pitïo chi bob munud, ond weithiau mae o fel, o mae o jysd yn wast o amser.

Roedd hi'n amlwg o hanesion rhai ymatebwyr bod y ffordd yr oeddent yn cael eu gweld a'u trin gan aelodau'r cyhoedd yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd emosiynol:

> Wel yr agwedd tuag at y bobl ddigartref gan amrywiaeth helaeth o bobl, dyna, dw i'n meddwl, sy'n ei gwneud hi'n fwy anodd i bobl, achos mae o fel eu rhoi nhw i lawr mewn ffordd felly wedyn dydyn nhw ddim yn teimlo mor hyderus a dyna pryd mae pobl eraill yn dechrau yfed hefyd, oherwydd hyder, a dyna pryd mae pobl yn dechrau cael iselder.

Awgrymodd rhai pobl ifanc bod yna bellhau a diffyg dealltwriaeth gan y cyhoedd yn gyffredinol, er enghraifft:

> Maen nhw bendant yn rhoi stamp arnyn nhw a deud o mae o'n ddrygi neu mae o'n alci neu be bynnag, yn bendant.. ond os nad ydyn nhw wedi bod yn yr un sefyllfa eu hunain, allan nhw ddim wir barnu a dw i'n deud hynna wrth bobl ac maen nhw'n deud ti wedi bod yn ddigartref ac mae o fel wel do, ond am reswm. Mi ddywedodd UN PERSON IFANC yr un math o beth 'Mae bobl yn siarad lawr efo nhw, ac yn edrych arnyn nhw, fatha o'dd pobl yn arfer edrych arna i, fel taen nhw'n deud o dwyt ti ddim gwerth dim byd. Mae'n reit anodd achos maen nhw'n y'ch barnu chi a dydyn ddim yn gwbod be yn union dach chi wedi bod drwyddo fo ond maen nhw'n y'ch barnu chi am be maen nhw'n meddwl dach chi wedi bod drwyddo fo.

Pwysleisiodd person ifanc arall y broblem o stigma a chamwahaniaethu:

> Mae o fatha'ch bod chi'n cal pobl yn cerdded heibio'r lloches nos ac yn gweiddi pethau fel '*smackheads*' a ballu, ond dydyn nhw ddim yn bobl ddrwg o gwbl.. dach chi'n gwbod, tan dach chi wedi bod yn y sefyllfa honno y'ch hun, allwch chi ddim deud dim byd wir.. mae gen bobl bethau fel *addictions* a phethau fel'na. Dw i'm yn meddwl bod o'n deg, y'n hun. Dw i'n meddwl bod o'n ofnadwy o gas achos mae pobl yn gweiddi pethau arnoch chi yn y stryd ac mae hynny'n neud iddyn nhw fod isio neud o hyd yn oed yn fwy, pan maen

nhw'n trïo rhoi'r gorau iddi, fel trïo dod off cyffuriau a diod a ballu ac yna mae gennach chi bobl yn gweiddi pethau fel *smackhead* a *pisshead* a phethau felly.

Yn yr un modd, soniodd pobl ifanc a oedd yn byw mewn hosteli am gael triniaeth negyddol gan aelodau'r cyhoedd. Disgrifiodd un person ifanc sut y bu iddo ymateb pan wnaed sylwadau camwahaniaethol amdano:

Wel dw i wedi cal un person yn deud rwbeth felly mi ddywedes i wrtho fo, taet ti'n gwbod mor anodd dan ni gyd yn trïo i mewn yn fanna, ella sa ti'n newid dy feddwl... Yn y bôn, o'n i jysd yn cerdded lawr y dreif ac fel dw i'n dod rownd y gornel, dyma fo'n deud ti'n mynd i fod ar y dôl weddill dy fywyd ac yn y bôn, jysd yn malu cachu... mi nes i jysd ddeud, wel taet ti'n gweld mor galed, mae yna tua ugain ohonan ni i mewn yn fama ac maen nhw i gyd efo'i gilydd yn yr adeilad yma mae 'na tua ugain ohonan ni, a dan ni i gyd yn trïo.

Dywedodd un o'r ymatebwyr ei bod yn ceisio caledu pan wynebai driniaeth o'r fath: *'Dio'm llawer o bwys gen i a deud y gwir, mae pobl yn mynd mlaen ac os dach chi'n ddigartref maen nhw naill ai'n y'ch cyhuddo chi o fod ar heroin neu fod ar crac neu be bynnag, felly dw i jysd ddim yn gwrando arnyn nhw... dio'm bwys genna i be maen nhw'n feddwl ohona i, fi ydy fi... maen nhw jysd yn deud o y tramp, ti'n hyn, ti'n llall a dw i jysd yn deud os dach chi ddim yn licio fi, sod off.'* Fodd bynnag, soniodd rhai ymatebwyr am aelodau'r cyhoedd a oedd yn gefnogol, gan ddisgrifio rhai gweithredoedd caredig, er enghraifft:

Dan ni'n cal lot o roddion hefyd, mi ddoth 'na bobl â bwyd a bocs mawr o lyfrau draw neithiwr, brechdanau a ballu.. y diwrnod o'r blaen, odd na hen ddynes a bob Dolig, mae hi'n dod ag 11 o amlenni achos mae 'na 11 o drigolion yma, £5 mewn amlen i bob trigolyn, mae hi'n neud hyn bob blwyddyn.

Ymhellach, roedd hi'n amlwg o hanesion dau ymatebydd bod yr hosteli a'r trigolion yn ceisio gwella enw da yr hosteli drwy gymryd rhan mewn digwyddiadau fel codi arian i elusennau, er enghraifft: *'Ar hyn o bryd, dan ni'n neud llawer o bethau efo Plant mewn Angen, mynd â'r stori i'r papurau, ceisio codi enw da y lle 'ma er mwyn helpu pobl i gal jobs.'*

Sylw

Ymddengys bod yna brinder gwybodaeth gyfleus ynglŷn â'r gwasanaethau sydd ar gael, gyda phobl ifanc yn disgrifio eu hunain yn ceisio dod o hyd i wasanaethau pan fyddant mewn sefyllfa argyfyngus. Cefnogir hyn gan ddeiseb ddiweddar Shelter Cymru[36] i Lywodraeth Cynulliad Cymru, a oedd yn galw am gynnwys addysg ynglŷn â gadael cartref ar y cwricwlwm cenedlaethol. Mae'n amlwg bod y bobl ifanc yn wynebu rhwystrau rhag cael mynediad at wasanaethau llinell flaen, yn enwedig felly yn y sector statudol. Diwygiwyd Deddf Plant 1989 gan Ddeddf Plant (Gadael Gofal) 2000 ac roedd y ddeddf newydd yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddarparu gwell gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc a oedd yn gadael gofal, fel rhan o'u cyfrifoldebau rhianta corfforaethol. Rhywbeth sy'n ymddangos yn groes i'r cysyniad o rianta corfforaethol yw'r ffordd y mae'r bobl ifanc yn disgrifio'r teimlad iddynt gael eu beirniadu gan y staff yn adran Ddigartrefedd yr adran dai. Mae hyn yn arbennig o anodd iddynt ymdopi ag ef, gan fod gofyn iddynt ddatgelu gwybodaeth bersonol am sut iddynt ddod yn gartref er mwyn sicrhau llety brys.

Yn amlwg, mae'n bwysig bod staff yn ymddwyn yn sensitif a chyda pharch pan fyddant yn cyfweld pobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae'r diffiniad o anghenion blaenoriaethol yn creu anawsterau. Mae dynion ifanc dros 18 oed yn dueddol o beidio â chael eu rhoi yn y grŵp 'angen blaenoriaethol', sy'n golygu eu bod yn annhebygol o gael blaenoriaeth yng nghyswllt awdurdod tai neu gymdeithas dai. Gall pobl ifanc ddigartref wynebu stigmateiddio a chamwahaniaethu gan y cyhoedd, sy'n effeithio ar eu hunan-barch, sydd eisoes yn isel. Gall hyn beri i bobl ifanc geisio celu eu sefyllfa, a theimlo eu bod yn cael eu halltudio o gymdeithas.

7. Canlyniadau: Hwyluso derbyn cymorth

Bydd y bennod hon yn archwilio beth sy'n gweithio a beth sy'n helpu pobl ifanc ddigartref, ac mae'n cynnwys trafodaeth ynglŷn â gwasanaethau sector gwirfoddol, hosteli a'r gefnogaeth a roddir gan bobl eraill mewn sefyllfaoedd cyffelyb. Mae bron pob un o'r bobl ifanc y buom yn siarad â hwy yn gwerthfawrogi'r gofal a'r caredigrwydd a ddarperir gan yr asiantaethau gwirfoddol ac annibynnol sy'n cynnwys Hafan, Foyer,

36 *Norman, K. (2009) Teens backing call to put leaving home on the curriculum, Western Mail, 3 Rhagfyr 2009. I'w weld ar-leinhttp://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/2009/12/03/teens-backing-call-to-put-leaving-home-on-the-curriculum-91466-25309111/ 29ain Mawrth 2010*

Compass Barnardo's, NACRO, Shelter, Sant Ioan, Lloches Nos Tŷ Nos, CAIS, Prosiect Llwyfen a Chawl y Ddraig. Disgrifiodd y bobl ifanc sut yr oeddent yn gwerthfawrogi cefnogaeth ymarferol yn ogystal â chael rhywun a oedd yn fodlon gwrando a deall. Mae hi'n amlwg, o hanesion yr ymatebwyr, bod y gwasanaeth annibynnol gwirfoddol yn Wrecsam yn cynnig ystod helaeth o wasanaethau sy'n addas ar gyfer pobl ddigartref ag anghenion gwahanol, ac yn eu denu. Mae'r gwasanaethau a ddarparant yn yr ardal hon yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn darparu'n dda ar gyfer anghenion sylfaenol pobl ddigartref yn Wrecsam; yn ôl hanesion y bobl ifanc, nid oes gwasanaethau cyffelyb ar gael mewn ardaloedd eraill.

Cefnogaeth mewn hosteli

Roedd y bobl ifanc yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a roddid iddynt yn yr hosteli, o ran bodloni eu hanghenion sylfaenol o fwyd, cynhesrwydd a lloches yn y lle cyntaf, ond hefyd o ran y gefnogaeth yr oedd y staff yn ei darparu: *'Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn Foyer, maen nhw i gyd yno achos bod nhw isio bod yno ac maen nhw isio trïo bod yn ddylanwad da ar fywydau pobl a'u helpu nhw i fynd drwy be bynnag sy'n mynd ymlaen yn eu bywydau nhw...'* Ategwyd hyn hefyd gan nifer o bobl ifanc:

> Y prif beth sydd wedi'n helpu i ydy eu bod nhw bob amser yna i chi. ..maen nhw'n rhoi cyngor i chi am bethau ac maen nhw'n helpu chi i gal lle mewn hosteli. Ar un adeg, oedden nhw'n trïo cal bond i fi i gal fflat preifat ar rent... Mae 'y ngweithiwr cefnogol yn ei gneud hi'n haws i fi achos os oes rhaid i fi fynd at y cyngor, mi ddaw hi efo fi ac mae hi'n siarad drosta i.. fatha ddoe, nes i jysd eistedd yna a jysd sgrechian a gadel popeth allan am ryw awr, a nath hi jysd eistedd yna'n gwrando.... Dydy hi ddim yn 'y marnu i, mae hi'n gwrando ar be sy'n mynd mlaen yn 'y mhen i ac mae hi'n helpu fi.

> Pan maen nhw'n dod mewn i'ch cyfweliad am y tro cynta a bob peth maen nhw'n deud wrthach chi, mi wnawn nhw y'ch helpu chi, cal y'ch holl ffurflenni tai chi, popeth wedi'i sortio, Clwyd Alun, *Wales and West* ac maen nhw mor ffantastig... dylai pob un ohonyn nhw gal medal am be maen nhw'n neud a ballu. .. dwn i ddim lle faswn i heb y lle yma, rŵan hyn... yn y bôn mae'r staff a'r help dach chi'n cal yma yn y'ch helpu i symud ymlaen i fflat... Ac mae'n helpu chi, fatha os oes gennach chi gefndir gwael fatha fi a phobl arall a ballu, maen nhw'n helpu chi efo hynny.

Roedd hi'n amlwg o'r cyfweliadau bod y bobl ifanc yn deall strwythur yr hosteli, hynny yw, bod pobl ifanc yn gallu datblygu a symud ymlaen i'r hostel nesaf a'r cam nesaf; roedd rhai ymatebwyr fel pe baent yn croesawu'r terfynau y mae'r strwythur hwn yn eu darparu: *'mae gynnyn nhw gynllun symud ymlaen, ... ac yn y bôn, os ydyn nhw'n meddwl y'ch bod chi'n neud yn wirioneddol dda neu os ydyn nhw'n gwbod y'ch bod chi'n mynd i gal job neu hyfforddiant, mi wnawn nhw y'ch symud chi i Foyer, ac wedyn yn y bôn mae hi lot haws o fanna'* esboniodd un arall*: 'Bob wsnos dach chi'n cal cwarfod cefnogi efo aelod o'r staff, a dach chi'n mynd drwy'r holl wahanol faterion.'*

Yn ogystal â chefnogaeth a roddir i bobl ifanc sy'n byw yn yr hostel, soniodd dau ymatebydd am y gefnogaeth a oedd yn cael ei chynnig gan hostel benodol (Sant Ioan) i bobl ifanc ddigartref nad oedd yn drigolion:

Mae'r holl staff yn fodlon gadael unrhyw un i mewn, wnawn nhw mo'ch cadw chi wrth y drws, maen nhw'n y'ch gwadd chi'n syth i mewn.. Mae'r drws ar agor, mi allwch chi jysd cerdded i mewn a chal sgwrs unrhyw bryd. Ac os ydyn nhw ar y stryd, maen nhw'n neud yr un fath yma, fatha os oes 'na ddim gwely, mi rown nhw sach gysgu i chi.

Thema a ddeilliodd o'r cyfweliadau oedd bod rhai pobl ifanc yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth yr oeddent yn ei chael drwy fyw cymunedol yn yr hosteli:

Yn y bôn dw i'n meddwl fel y'n ffrind i, mi odd angen lot o help arno fo pan ddoth o yma, achos odd o'n isel iawn... mae o wir yn trïo rŵan, fatha dan ni efo'n gilydd a dan ni jysd yn sortio'n hunen allan... mae gen bob un ohonon ni broblemau gwahanol.' Ac mi ddywedodd un ymatebydd arall: 'Mae o fatha un teulu mawr yn fama, mae'r rhan fwyaf o bobl yn gyrru mlaen efo'i gilydd... dach chi'n dod i nabod bobl dda, sdicio efo nhw, neud ffrind da, helpu'ch gilydd allan.

Fodd bynnag, nid dyna brofiad pob un o'r bobl ifanc a gyfwelwyd; mae rhai mathau o lety'n golygu bod rhaid i bobl ifanc ddigartref rannu cyfleusterau, ac mae hynny'n gallu achosi problemau: *'.. dw i ddim yn licio rhannu'r gegin; mae na 11 ohonan ni'n byw yma ac mae'n anodd fel cwcio yn y gegin... mae na ddau o bobl yn y'n llofft i, felly mae'n llofft i dri, sydd ddim yn berffaith, ond mae o'n wely, yn tydy.'*

Cefnogaeth y sector gwirfoddol

Mae adran hon yr adroddiad yn canolbwyntio ar ddarpariaeth y sector gwirfoddol yn ychwanegol i hosteli sy'n cynnwys prosiect Compass (Barnardo's), ac fe gynhwyswyd NACRO, Shelter, Prosiect Llwyfen a CAIS yn y drafodaeth hon. Fel y noda'r data, roedd yr ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau a ddarperir. Agwedd bwysig yn nhyb pob un o'r bobl ifanc oedd y teimlad bod y gweithwyr, a'r gwasanaeth yn gyffredinol, yn gwrando arnynt ac yn eu derbyn: *'Maen nhw'n gwrando arnoch chi yma drwy'r amser maen nhw'n rhoi help i chi... yn Compass.'* Esboniodd un arall: *'… Barnardo's ydy'r unig le dechau, mae* [ENW] *fel teulu. Dw i'n teimlo'n gyfforddus yn dod yma, tawn i'n mynd i unrhyw le arall mi faswn i'n teimlo embaras a chywilydd, allwn i ddim siarad efo pobl, allwn i ddim edrych arna i'n hun yn iawn, o'n i jysd methu copïo. Dw i'n cal 'y nerbyn yma am be ydw i, a ddim fel esgymun yn y bôn.'*

Yn ogystal â chael pobl i siarad â nhw, roedd cefnogaeth ymarferol fel cyngor a chymorth gyda llenwi ffurflenni a chyngor cyffredinol yn cael eu gwerthfawrogi gan y rhan fwyaf o'r bobl ifanc: *'I fi, roedd Barnardo's yn help mawr... mi allan nhw y'ch helpu chi i gal lle, mi allan nhw y'ch helpu chi efo ffurflenni a phethau achos dw i ddim yn dda iawn... Yn amlwg, mi wna i sôn am Barnardo's eto, achos maen nhw'n hollol wych.'* Dywedodd un person ifanc arall *'.. Compass a Shelter oedd y gorau, ac mae NACRO wedi bod yn dda hefyd. Jysd cal pobl yno a chefnogi pobl a'r holl gyfleoedd, achos mae gynnon nhw lwyth o bethau'n mynd ymlaen'.* Ac mi ddywedodd un ymatebydd arall: *'Wel, mae gynnoch chi Shelter am gyngor does gynnyn nhw ddim llawer o bŵer yn be maen nhw'n gallu neud, ond maen nhw'n dda iawn am y'ch helpu chi efo ochr gyfreithiol pethau a gwbod be ydy'ch hawliau chi, a be mae gynnoch chi hawl i'w gal...'*

Mater pwysig arall y tynnwyd sylw ato gan yr holl bobl ifanc oedd y cymorth o ran bodloni'r anghenion sylfaenol o fwyd a hylendid: *'Mi allwch chi neud y'ch golchi a chal*

prydau yn Compass.. dw i'n meddwl mai CAIS sy'n ei redeg o, mae gynnyn nhw be oedd yn arfer cal ei alw'n Cawl y Ddraig... mae o fel fan brechdanau ddwy neu dair noson yr wsnos...' ychwanegodd un ymatebydd arall: *'Mi oedden ni'n mynd i Brosiect Llwyfen... ac wedyn mi fydden ni'n methu dwrnod, heb fwyd, ac wedyn yn mynd yn ôl, felly doedd hynna ddim rhy ddrwg. Mi ddywedodd y lloches nos wrthan ni, mae gynnyn nhw daflen lle gallwch chi gal bwyd am ddim, os ydych chi'n llwgu a bod Prosiect Llwyfen ddim ymlaen na Chawl y Ddraig, mi allwch chi ddod yma* [Sant Ioan] *i gael rhywfaint o fwyd..'* ac esboniodd un ymatebydd: *'Mae'r eglwys Fethodistaidd yn rhoi brechdan cig moch i chi yn y bore, ac mae byddin yr iachawdwriaeth yn rhoi brecwast poeth llawn i chi.'* Tynnodd lleiafrif yr ymatebwyr sylw at wasanaethau penodol a oedd yn fwy addas ar gyfer anghenion pobl ifanc:

> Mi es i at NACRO, dw i bob amser yn mynd yno, dw i'n gyrru mlaen yn dda iawn efo [ENW], dw i'n meddwl mai fanno di'r lle gorau yn Wrecsam i fynd mae [ENW] yn neud gymaint drostach chi.. mae pobl yn mynd i Compass a Barnardo's a ballu, ac maen nhw'n llefydd OK i fynd, ond fel y dudes i, yn 'y marn bersonol i, dw i ddim yn licio yno, dw i'n meddwl bod o ormod fel sefydliad, dach chi'n mynd i mewn i'r ystafell aros fawr yma.

Fodd bynnag, nid oedd hyn yn ymddangos yn bwysig i'r bobl ifanc yn gyffredinol.

Mae rhai o'r gwasanaethau a ddarperir yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn darparu'n dda ar gyfer anghenion sylfaenol pobl ddigartref yn Wrecsam; yn ôl hanesion rhai o'r ymatebwyr, nid oes gwasanaethau cyffelyb ar gael mewn ardaloedd eraill: *'Ers i fi fod yn Wrecsam, dw i'n meddwl bod y gefnogaeth wedi bod lot yn well na rhywle fel dudwch [ENW], does na nunlle i fi gal unrhyw beth i fyta, dach chi'n gorfod prynu y'ch bwyd y'ch hun... pan o'n i yn [ENW] o'r blaen, ac yn ddigartref, mi nes i drïo cal doctor mewn sawl lle a dydyn nhw jysd ddim yn derbyn pobl ddigartref ar eu llyfrau.'* Mynegwyd safbwynt cyffelyb gan ymatebwyr eraill: *'fatha pan es i i [dinas] ryw ddiwrnod a dw i wedi gweld dipyn o bobl ifanc ar y stryd a meddwl wel be maen nhw'n neud yna? Achos dw i'n gwbod bod [dinas] yn lle mawr a wir, oni ddylen nhw fod efo be sgen Wrecsam, ond mwy ohonyn nhw? .. alla i ddim wir gweld [ENW] yn helpu unrhyw un ar y stryd.'*

Rhwydweithiau Cymdeithasol

Roedd mwyafrif helaeth y bobl ifanc wedi clywed am rai o'r gwasanaethau sydd ar gael gan bobl ifanc eraill mewn sefyllfaoedd cyffelyb. Fel yr amlinellwyd yn gynharach, nid oedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc yn gwybod i ble i droi am gymorth ac nid oeddent yn gyfarwydd â'r gwasanaethau sydd ar gael. Thema gyffredin a ddeilliodd o'r cyfweliadau oedd lefel y gefnogaeth rhwng pobl ifanc mewn sefyllfaoedd cyffelyb, ac roedd mwyafrif helaeth y bobl ifanc yn tanlinellu pa mor bwysig oedd hyn. Cyfeiriwyd at lefel y gefnogaeth oherwydd bod pobl sy'n ddigartref wedi'u hynysu a'u stigmateiddio gymaint. Mae pobl ifanc wedi'u hynysu o gymdeithas y brif ffrwd ac nid oes ganddynt gefnogaeth deuluol – ceir tystiolaeth bod y bobl ifanc yn creu eu rhwydweithiau cymdeithasol eu hunain sy'n hollbwysig iddynt. Nid oes gan bobl ifanc ddigartref sydd ag anghenion dyrys gyfalaf cymdeithasol, a phrin yw'r llwybrau sydd ar gael iddynt feddu arno. Byddant yn dueddol o ddefnyddio pa bynnag gysylltiadau neu rwydweithiau sydd ar gael i gyrraedd cyfleoedd, gwasanaethau, cymorth gan y naill a'r llall neu gan y rheiny y dônt i gysylltiad â hwy.

Roedd hi'n amlwg o'r cyfweliadau yn yr adroddiad hwn bod cefnogaeth cyfoedion yn arbennig o werthfawr i bobl ifanc pan oeddent yn ddigartref ar y stryd. Mae'r sylwadau isod yn ategu hyn:

> Mi brynes i babell ac ro'n i efo ffrind a oedd yn y lloches nos ei hun, ac roedd o'n treulio rhywfaint o amser efo fi jysd i neud yn siŵr mod i'n OK, dod â bwyd a ballu i fi, ac mi ddechreuodd o edrych ar y'n ôl i pan o'n i yn y babell... Roedd rhai trigolion o fama, Sant Ioan, yn gwbod mod i'n byw yn y babell ac mi gawson nhw air efo'r staff achos oedd na stafell yn dod yn wag, ac mi nes i gario mlaen i siarad efo'r staff amdani, ac yn y diwedd, mi ges i le.

Pwysleisiodd person ifanc arall ymhellach y cymorth a dderbyniwyd:

> Mi nath na un person edrych ar y'n ôl i hefyd. Odd hi tua 20 bron... felly mi nath hi fatha cymryd gofal ohona i a dangos i fi lle i fynd a be i neud... ro'n i'n cerdded o gwmpas un noson... mi ddoth hi draw ac ro'n i jysd yn eistedd ar ochr y stryd a mi ddechreuodd hi siarad efo fi, a mi nes i feddwl, ydy hi 'di meddwi ta be, ac mi odd hi'n gofyn pam bod fi ddim adre felly mi ddudes i bopeth odd wedi digwydd ac mi ddudodd hi wel dwinne'n ddigartref hefyd, ac mi ath o mlaen o hynny.

Roedd hi'n amlwg o hanesion yr ymatebwyr bod y rhwydweithiau cefnogi cymdeithasol hyn yr un mor bwysig i ddynion ifanc ag oeddent i ferched ifanc. Disgrifiodd rhai ymatebwyr sut na fyddent yn gadael ei gilydd i gysgu ar y stryd pe bai dim ond un ohonynt yn gallu cael gwely am y nos *'achos yn amlwg [ENW] ydy'n ffrind gorau i felly neith hi mo 'ngadel i achos mod i ar ben y'n hun, felly mae hi'n mynd i aros efo fi er y gallai hi fynd i'r lloches. Heb [ENW] dw i ddim yn meddwl y baswn i yma rŵan, ac mae'r un peth yn wir iddi hi, achos mae hi a fi wedi bod drwy lot efo'n gilydd ond dan ni bob amser wedi sdicio efo'n gilydd sy'n beth da. Ma gynnon ni y'n gilydd, dan ni jysd yn gwylio allan am y'n gilydd'.* Adleisiwyd hyn gan berson ifanc arall: *'Dw i efo'n ffrind, mae hi'n ddigartref hefyd, mae wedi bod yn reit wael ond o leia' rŵan dw i wedi neud lot o ffrindiau da, achos ma lot o'n ffrindiau i'n ddigartref beth bynnag felly maen nhw'n gwbod be dw i wedi bod drwyddo fo a dw i'n gwbod be maen nhw wedi bod drwyddo fo... wna i mo'i gadel hi ar ei phen ei hun, mae hi'n gwbod na wna i... dan ni efo'n gilydd 24/7.. ro'n i'n ddigartref ac odd hi'n ddigartref yr un pryd, ers hynny dach chi ddim yn gweld un heb y llall, dan ni bob amser wedi bod efo'n gilydd.'*

Er y cyfeiriwyd at fod ofn pobl ddigartref hŷn, tymor hir, yn gynharach, roedd hi'n amlwg o hanesion rhai ymatebwyr bod y grŵp hŷn hwn wedi helpu'r bobl ifanc ddigartref fwy newydd, fel un person ifanc a soniodd am bobl eraill a oedd yn cysgu yn y lloches nos *'Roedd y trigolion yn glên. Mi fydden nhw'n trïo cal sgwrs efo fi, gofyn sut o'n i a ballu. Checio mod i'n OK.'* Mynegwyd yr un safbwynt gan ymatebydd arall: *'achos bod fi a [ENW] yn ifanc, maen nhw'n y'n cymryd ni dan eu hadain nhw a dach chi'n gwbod y'n helpu ni a deud wrthon ni be mae'n rhaid i chi neud a ballu... pan dw i wedi cal trwbwl, dw i jysd yn troi at un o'r rhai hŷn a maen nhw'n gwarchod fi, mi wnawn nhw aros efo ni a ballu felly dan ni jysd yn aros efo nhw rŵan. Dan ni jysd fel un teulu mawr, ni... dan ni'n gwylio allan am y'n gilydd o hyd... Maen nhw'n edrych ar y'n ôl i a [ENW] lot, yndyn maen nhw, achos bod ni'n iau ac yn haws y'n brifo achos bod ni'n ferched hefyd.'*

Sylw

Mae yna ystod o gefnogaeth werthfawr ar gyfer pobl ifanc ddigartref yn Wrecsam a ddarperir gan y sector gwirfoddol, gyda staff y mae'r bobl ifanc yn eu hystyried yn bobl ymroddedig, cefnogol a hawdd siarad â nhw. Fodd bynnag, dylid cydnabod bod darpariaeth rhai gwasanaethau gwirfoddol, er enghraifft, y gwasanaethau ôl-ofal yn Barnardo's, yn cael eu hariannu'n rhannol gan yr awdurdod lleol, felly nid yw'r gwahaniaeth rhwng y ddarpariaeth statudol a gwirfoddol yn un clir. Mae pobl ifanc yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer, gan gynnwys cefnogaeth ymarferol i ddiwallu'r anghenion sylfaenol o fwyd, cynhesrwydd a lloches, a chefnogaeth emosiynol. Mae pobl ifanc hefyd yn gwerthfawrogi cyfeillgarwch â phobl eraill mewn sefyllfaoedd cyffelyb, ac maent yn cael cefnogaeth o'r cydberthnasau y maent yn eu datblygu. Mae'r cydberthnasau yn arbennig o bwysig gan nad oes gan y bobl ifanc, yn aml, gefnogaeth teulu. Roedd y ffactor hon yn elfen amlwg o'r ymchwil, ac mae datblygu mecanweithiau i wella'r systemau cefnogi cymdeithasol pwysig hyn yn cael ei glustnodi fel argymhelliad ar gyfer gwella polisi ac ymarfer.

8. Canlyniadau: Bylchau yn y gwasanaeth a ddarperir

Yn wyneb yr anhawster i sicrhau llety personol sefydlog ar gyfer pobl ifanc ddigartref, mae hanesion y bobl ifanc yn dangos bod rhai pobl ifanc yn dueddol o fyw bywydau crwydrol, gan gysgu ar soffa ffrind, Tŷ Nos (lloches nos), hosteli ac weithiau allan ar y stryd. Yn ôl yr hanesion, mae yna bobl ifanc 'ddigartref gudd' nad ydynt, o bosib, yn cael eu pennu'n ddigartref ond eu bod, er enghraifft, yn cysgu ar soffa ffrind: *'Ro'n i ar soffa mêt i fi am ryw 6 mis. Dydy hi ddim yn hawdd bod yn ddigartref ac mae'n fwy anodd byth dibynnu ar ffrindiau achos bod gen i ddim teulu rownd ffor'ma, mi drodd [ENW] rownd a deud mod i ddim yn flaenoriaeth... mae gen ti do uwch dy ben. Ac mi ddudes i ond mi allai hynny newid unrhyw bryd.* Gwnaed yr un pwynt gan berson ifanc arall:

> Gan amlaf, os dach chi'n 16, mi fyddech chi'n cysgu ar soffa ffrind ma'n debyg, rhywle lle dach chi'n teimlo'n saff. Yn mis Mawrth 2008 mi nath Llywodraeth Cynulliad Cymru fynd allan i gyfri'r holl bobl ddigartref yng Nghymru a maen nhw'n dod nôl a deud bod na rhwng 128 a 165 o bobl ddigartref yng Nghymru; ydyn nhw'n mynd i fynd i unrhyw le heblaw'r llefydd arferol, llefydd lle dyn nhw ddim yn teimlo'n saff, i chwilio am bobl? Dw i ddim yn meddwl, pan dach chi'n ystyried bod na 128 o bobl ddigartref yn Wrecsam ei hun, synnwn i ddim... os nad ydach chi wedi cal y'ch cofrestru fel rhywun digartref, does na ben yn gwbod y'ch bod chi'n ddigartref, hyd yn oed os dach chi'n byw mewn hostel, er y'ch bod chi'n dechnegol ddigartref, dydyn nhw ddim yn y'ch pennu chi'n ddigartref. Felly ma gynnyn nhw ffyrdd o guddio pethau oddi wrth bobl.

Llety anaddas

I ailadrodd pwynt a wnaed yn gynharach, mae rhai mathau o lety dros dro yn golygu bod rhaid i bobl ifanc ddigartref rannu ystafelloedd. Gall hyn wneud i bobl ifanc deimlo'n anniogel, a gallai eu rhoi mewn sefyllfa lle gallent gael eu niweidio. Mae rhai mathau o lety'n golygu bod rhaid i bobl ifanc ddigartref rannu cyfleusterau (cegin, ystafell ymolchi ayb) gyda thrigolion anaddas:

> Mi wnathon nhw y'n rhoi i yn [ENW] ... ro'n i tu allan yn siarad efo ffrind ac mae un o'r trigolion i mewn yna newydd ddod allan o'r carchar ac mi gododd o gyllell ata' i felly yn amlwg mi nath o 'y nychryn i. Mi es i tu mewn ac estyn cyllell ac ro'n i'n sefyll wrth y sinc, os daw o'n agos ata i mi wna i ei stabio fo neu dw i'n mynd i ffonio'r heddlu. Ac mi gododd o'r gyllell yn y'n erbyn i eto ac mi ddoth yr heddlu a mynd â ni'n dau i ffwrdd tan nathon nhw sylweddoli mai ei fai o oedd o, am ei fod o wedi mygwth i efo cyllell a'i fod o tua 24 ac ro'n i ond tua 16 ar y pryd.

Mynegwyd safbwynt cyffelyb gan bobl ifanc eraill:

> Mae o fel llety Gwely a Brecwast lle dach chi'n gallu dal pob math o afiechyd a ballu. Maen nhw'n y'ch rhoi chi yno pan does na ddim lle yn Hafan ond mae o fel seibiant achos mae gynnoch chi rywle i fynd. Mae'r stafelloedd fatha hanner maint hon, yn y'ch llofft, mae 'na wely sengl ac un cwpwrdd, dach chi'n gorfod rhannu stafell molchi a ballu hefyd. Dim ond am ddwy awr y dydd dach chi'n cal iwsio'r gegin. Na, mae yna

feicrodon ar ben y grisiau a thecell, ond dyna'r cwbwl mwy na heb. Oes, mae yna *smackheads* a ballu yno. Ac maen nhw'n rhoi pobl sydd newydd ddod allan o'r carchar a ballu yno hefyd. Na, oedd na lofrudd, pan o'dd y'n ffrind i'n byw yno, roedd na lofrudd yn byw dros y coridor iddi.

Daeth hi'n amlwg o'r cyfweliadau y byddai pobl ifanc ag anghenion dyrys yn elwa o gymorth i fyw'n annibynnol pan fyddant yn sicrhau llety personol sefydlog, neu fel arall, nid yw ymdrechion i fyw'n annibynnol yn llwyddo. Er gwaethaf y gwasanaethau ôl-ofal a'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer tenantiaethau, roedd rhai pobl ifanc yn teimlo nad oedd yna gefnogaeth iddynt pan oeddent yn gadael yr hostel, a'u bod yn ofni cael eu hunain i drafferthion:

Pan dach chi'n gadael yr [ENW] .. dach chi i fod i gal, be maen nhw'n alw cefnogaeth hyblyg lle dach chi'n cal cefnogaeth gan yr [ENW] am 6 mis wedyn fel cyfnod pontio i drïo y'ch helpu chi i fod yn annibynnol, dysgu cal trefn ar y'ch pres a sut i ymdopi efo byw ar y'ch pen y'ch hun. Ges i ddim, ond OK, mi es i at NACRO ac ro'n i'n cal dwy sesiwn cefnogi bob wsnos, ond dw i'n gwbod am bobl eraill gafodd ddim cefnogaeth o gwbl, er bod nhw'n deud y gwnawn nhw gadw mewn cysylltiad ac mi wnawn ni fynd i'w gweld nhw ac hefyd efo pobl sy'n mynd i'r cyngor maen nhw i fod i gal gweithwyr cefnogi gan y cyngor a dydy mwyafrif y bobl dw i'n nabod sydd wedi cal gweithwyr rioed wedi'u cwarfod nhw go iawn, mae na fylchau mawr iawn yn y maes yna.

Cysgu allan

Fel sy'n amlwg o hanesion yr ymatebwyr, mae yna bobl ifanc sy'n cysgu allan ar y strydoedd, yn aml mewn pebyll dros dro mewn parciau neu goetiroedd neu weithiau mewn ardaloedd cysgodol wrth ymyl rheilffyrdd, siopau ac adeiladau cyhoeddus:

Unrhyw le, unrhyw le sy'n gynnes, y tu allan i'r pwll nofio, lle mae'r ffan mawr yna.. yn nhoiled yr anabl yn yr orsaf achos mae na wresogydd a ballu yno, dw i wedi cysgu mewn llwyth o lefydd... dw i wedi bod yn cysgu... mewn pabell fel, ond mi es i i Sant Ioan i gal sach gysgu, felly dydy hynna ddim di bod mor ddrwg â hynny... mi wnathon ni neud y babell y'n hunen o sdwff nathon ni gal allan o sgips a ballu... mae'n cadw'r glaw a ballu allan, mae'n neis a chynnes... mi fydda i ofn braidd, ond dach chi'n gwbod o'dd o'n OK... wel, mae o'n oer, ond dw i'n gwisgo llwyth o siacedi a ballu. Mi arhoses i yno neithiwr, mi nath na dipyn bach o law ddod i mewn, ond doedd o ddim mor ddrwg â hynny.

O blith yr ugain person ifanc a gyfwelwyd, roedd dros dri chwarter ohonynt wedi cael profiad o gysgu allan (rh=16). Soniodd rhai ymatebwyr am ofni mynd i gysgu: *'Nes i ddim mynd i gysgu wir, dach chi'n gwbod, wel dach chi jysd yn gorwedd lawr... odd hynna achos mod i wedi rhedeg i ffwrdd o adre achos bod mam yn 'y nghuro i a do'n i ddim yn gallu ymdopi efo hynna'* mi ddywedodd un arall *'Y rhan fwyaf o nosweithiau, ro'n i'n arfer mynd i barc Bellevue a rhai nosweithiau ro'n i'n arfer ffeindio rhyw fainc neu'i gilydd ac un neu ddwy noswaith, nes i jysd ddim cysgu. Ro'n i'n arfer jysd cerdded rownd Wrecsam drwy'r nos achos mod i ormod o ofn mynd i gysgu weithie.'* Soniodd ymatebwyr eraill am orfod symud i lefydd gwahanol: *'Odd rhaid i fi symud bob yn hyn a hyn er mwyn iddi beidio bod rhy amlwg lle o'n i drwy'r amser. O'dd o'n teimlo'n crap deud y gwir.'*

Roedd hi'n amlwg o rai o'r hanesion y byddai pobl ifanc a oedd yn cysgu allan neu'n cysgodi yn Wrecsam yn cael eu symud ymlaen: *'Roedden ni'n arfer cysgodi dan adeilad y fyddin, ond mi nath na bobl sy'n gweithio yno y'n symud ni mlaen felly doedden ni ddim yn cal bod yno... allwn ni ddim wir mynd i unrhyw le, felly dan ni jysd yn trïo cadw allan o'r glaw... dan di wedi cal y'n symud ymlaen gan yr heddlu pan dan ni jysd wedi bod yn cysgodi ac hefyd pan dan ni wedi bod yn cysgu allan hefyd.'*

Roedd hi'n amlwg o hanesion rhai ymatebwyr bod treulio'r noson yng nghelloedd yr heddlu neu yn y ddalfa yn well na noson ar y strydoedd: *'Yn y diwedd, ges i'n arestio...sydd fel arfer yn digwydd a dyna pam mod i mewn ac allan o'r jêl... do'n i ddim yn meindio os o'n i'n cal y'n arestio.. Achos o leiaf yn y jêl ma gynnoch chi rwtîn, ma gynnoch chi bob amser wely, ma gynnoch chi bob amser fwyd... mae jysd yn hawdd dod i arfer efo fo... ma'n well na bod allan ar y stryd... y tro dwytha ddois i allan o'r jêl oedd fel tair wsnos yn ôl, do'n i ddim isio gadel...o'n i wrth 'y modd efo'r rwtîn a chael pobl yno oedd yn poeni amdana i ac oedd yn trïo'n helpu i.'*

Esboniodd un ymatebydd nad oedd yna unrhyw le i gadw eiddo personol, fel dillad, pan oeddech chi'n ddigartref:

> Jysd be dw i'n wisgo yn y bôn ac mae gen i rai dillad eraill wedi'u cuddio dan y llwyn wrth ymyl y llyfrgell ond yn y lloches roedden ni'n cadw y'n dillad ni yno ac mi roedden nhw'n deud wrthoch chi, chewch chi ddim cadw'ch dillad yna ac os ydyn nhw'n ffeindio nhw maen nhw'n rhoi 3 diwrnod i chi fynd â nhw o'no neu maen nhw'n taflu nhw... dw i'n gwbod mai eu job nhw ydy o ond mi nathon nhw ddeud wrtha i, y'n rhybuddio i mod i ddim yn cal eu cadw nhw yno ond mi nathon nhw eu rhoi nhw yn y bin, felly mae gen i lai nag oedd gen i rŵan.

Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r ymatebwyr yn disgrifio sut y bu iddynt deimlo'n ofnus pan oeddent yn ddigartref ar y stryd. Disgrifiodd rhai ymatebwyr eu hunain yn dioddef troseddau tra'r oeddent yn ddigartref yn Wrecsam: *' mi nath na rhyw lanciau... gymryd pres oddi arna i, a deud y gwir, odd gen i rywfaint o alcohol ar y pryd hefyd, mi nathon nhw gymryd hwnnw oddi arna i a dechre 'nghicio i a 'mhwnio i pan o'n i ar y llawr felly mi nes i drïo eu gwthio nhw i ffwrdd drwy sefyll i fyny ond achos mai llanciau oedden nhw, allwn i ddim taro unrhyw un ohonyn nhw am eu bod nhw dan oed, ac mi fasai hynny wedi 'nghael i i mewn i drwbwl.'* Soniodd ymatebwyr eraill hefyd am beryglon dwyn a thrais wrth gysgu allan:

> Ro'n i wedi clywed pob math o stori am bobl yn cael rhywun yn piso ar eu pennau nhw neu'n eu curo nhw a ballu pan oedden nhw'n cysgu allan, mae o wedi digwydd i rai o'n ffrindiau i cyn heddiw. Dw i wedi cal y rhan fwyaf o 'mhethau i wedi'u dwyn, ma na rywun wedi dwyn oddi arna i pan dw i'n cysgu a ballu, ma na bobl ffiaidd wedi 'nilyn i... achos dach chi'n gwbod, dan ni'n ferched ifanc.

Llety brys

Roedd hi'n amlwg o rai cyfweliadau bod galw am welyau yn y lloches nos yn fater perthnasol: *'... roedd o'n arfer agor am 8, felly oedden ni'n arfer bod yno tua hanner awr wedi 5 ac mi fydden ni jysd yn sefyll rownd... Allwch chi ddim gadael i'r staff y'ch gweld chi'n disgwyl neu wnawn nhw ddim rhoi gwely i chi... Dyna un o'r rheolau... Oedden ni*

jysd yn cuddio yn y llwyni... mi fydden nhw'n gadael ni mewn i rhyw fath o gaets am 8 o'r gloch, ac wedyn mi fydden nhw'n dechrau y'n gadel ni i mewn un wrth un a phrosesu'r holl ffurflenni.' Gwnaed yr un pwynt gan ymatebydd arall:

> Does na'm llawer o ferched yn mynd yno, bechgyn sy 'na fwyaf ond os oes 'na fwy o fechgyn nag o ferched yno, maen nhw'n mynd â gwelyau allan o ystafell y merched a'u rhoi yn stafell y bechgyn, felly os dach chi ddim yno ar amser, dach chi'n gwbod bod chi'n gorfod bod yno am 7 o'r gloch ac os dach chi ddim yno, yna chewch chi ddim stafell. Mae'n grêt, dw i'n meddwl bod o'n dda. Dw i'n meddwl bod o'n beth rili da i bobl.

Roedd hi'n amlwg o hanesion y bobl ifanc bod sicrhau cynhesrwydd a lloches a llenwi eu diwrnod yn anodd, yn enwedig pan oeddent yn aros yn y lloches nos: *'Dach chi allan am 8 yn y bore ac os ydy hi'n aeaf... mae'r rhan fwyaf o bobl dw i wedi siarad efo nhw sydd wedi bod yn y lloches nos yn cael y dwrnod yn fwy anodd na dim, am ei fod yn amser mor hir. Mae'n llusgo, dyna pam bod y rhan fwyaf o bobl yn dechrau yfed, i'w cal nhw drwy y diwrnod. Ac mae 'na bobl oedd ddim yn arfer yfed o gwbl sydd wedi mynd i'r lloches nos ac wedi dechrau yfed.'* Tynnwyd sylw at y mater hwn gan ymatebydd arall:

> Felly dyna pam bod pobl yn dwyn o siopau a phethau felly i ffeindio pres i lenwi eu hamser a ballu achos pan dan ni'n gadel y lloches nos am 8 o'r gloch y bore dan ni i gyd yn mynd i'r stesion bysys, grŵp mawr ohonan ni'n eistedd yno, a dan ni'n cal y'n cicio allan wedyn achos bod nhw'n deud bod ni'n cadw reiat ond dan ni jysd yn eistedd yno achos bod gennan ni nunlle arall i fynd yn y bôn.

Llety parhaol

Nod pob un o'r bobl ifanc a gyfwelwyd oedd cael fflat hunangynhaliol iddyn nhw eu hunain. Er bod mwyafrif y bobl ifanc yn siarad yn gadarnhaol am y llety dros dro sydd ar gael yn Wrecsam, tynnodd yr ymatebwyr sylw at anawsterau o ran cael llety addas i symud ymlaen iddo. Yn ôl pob sôn, mae'n amlwg bod llety parhaol sefydlog yn anodd ei sicrhau, ac weithiau, hyd yn oed pan fydd ar gael, gall fod yn anaddas. Ac ar ôl cael llety, ymddengys nad yw pobl ifanc yn sylweddoli pa gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Heb gefnogaeth briodol, ddigonol a hawdd cael gafael arni, gallai pobl ifanc ganfod eu hunain yn gorfod dychwelyd at ddarpariaeth ar ffurf hostel. Codwyd y mater hwn gan bobl ifanc:

> Dw i'n meddwl bod na eitha dipyn o help i gal, ond yr unig help sydd ar gal ydy help i ffeindio llety tymor byr fatha dach chi'n mynd at Barnardo's neu'r cyngor i gal, a maen nhw mond yn mynd i'ch rhoi chi yn rwle fel Hafan neu Foyer a... dw i ddim yn meddwl bod 'na lot o help yn Wrecsam ar gael ar gyfer chwilio am lefydd tymor hir.

Mynegwyd safbwynt cyffelyb gan bobl ifanc eraill: *'heblaw hosteli ac hyd yn oed wedyn mae o jysd fel rwbeth dros dro lle dach chi'n disgwyl i gael y'ch cartrefu. Felly mae 'na lot o bobl ddim yn cael eu cartrefu o'r Foyer, mae lot o bobl, yn y diwedd, yn cal eu troi allan neu mae eu hamser yn rhedeg allan... er bod dal gynnyn nhw nunlle i fyw.'*

Mae'r holl bobl ifanc hyn ar y rhestr aros am lety gan y cyngor a/neu'r gymdeithas dai. Fodd bynnag, o'r hanesion a glywyd, ymddengys bod y system bwyntiau mor llym nes ei

bod hi'n bosib na fydd rhai pobl ifanc byth yn cymhwyso ar gyfer eiddo cyngor neu gymdeithas dai. Cyfeiriodd mwyafrif yr ymatebwyr at hyn fel mater o bwys:

> Mae na un hogyn i mewn 'ma ers tair blynedd rŵan a dydy'r cyngor dal heb gynnig tŷ iddo fo ac mae gynno fo job, mae o yn y coleg ac mae o wir yn trïo'n galed ond wnawn nhw ddim rhoi dim byd iddo fo ac mae o'n ddau ddeg pump rŵan neu dau ddeg tri neu rwbeth fel'na, ac mae o wir wedi trïo.

Roedd yr ymatebwyr yn gallu dynodi bod yna brinder eiddo gan y cyngor yn Wrecsam, fel y dywedodd UN PERSON IFANC, *'...ro'n i ar y rhestr am flwyddyn a hanner a doedd na ddim fflatiau ar gael... roedd yr unig rai oedd ar gael yn cael eu rhoi i bobl oedd â theuluoedd a phobl sydd â phlant a ballu felly doedd na ddim ffordd yn y byd y baswn i'n cal fflat*'. Adleisiwyd hyn gan un ymatebydd a ddywedodd: *'Dw i'n meddwl mai lot o'r broblem ydy'r diffyg llety yn ardal Wrecsam. Neu'r diffyg llety addas achos mae'r cyngor yn dal i neud gwaith trwsio mewn lot o lefydd, dydy pobl ddim isio byw mewn rhai ardaloedd hefyd, achos mae na lefydd reit ryff yn Wrecsam.'*

Roedd pob un o'r ymatebwyr wedi'u cofrestru gyda darparwr tai cymdeithasol heblaw'r awdurdod lleol, megis Cymdeithasau Tai *Wales and West* a Chlwyd Alun, er bod ymatebwyr yn disgrifio rhestri aros cyffelyb am eiddo'r Cymdeithasau Tai: *'Mater o gal y fflat ydy o, achos mae na dagfa hir ar bob rhestr aros ar hyn o bryd.'* Roedd un person ifanc wedi cael eiddo gan gymdeithas dai *Wales and West*, ac roedd hi'n siarad yn gadarnhaol am ei phrofiad:

> Maen nhw'n gymwynasgar iawn ac i fod yn onest, ma gynnyn nhw lot mwy o dai... maen nhw'n dda ac yn edrych ar y'n ôl i a phopeth felly maen nhw wedi dechre prynu lot o dai gen y Cyngor rŵan felly dyna lle ydw i rŵan mewn hen dŷ cyngor sy'n eiddo i *Wales and West*.

Oherwydd ei bod hi'n anodd sicrhau tenantiaeth gan y cyngor neu gymdeithas dai, rhaid i bobl ifanc rentu eiddo gan landlordiaid preifat, ond nid yw'r rheiny'n cynnig yr un warchodaeth â darparwyr tai cymdeithasol. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at y mater hwn: *'Y brif broblem yma ydy bod na ddim llety addas... mae'r holl dai newydd sy'n cal eu hadeiladu yn breifat, ac mae'r rhenti'n afrealistig a does na neb yn gallu fforddio nhw... felly dach chi'n gwbod sut mae landlordiaid a gwerthwyr tai barus. Maen nhw allan yna'n trïo neud pres a ni sy'n dioddef yn y diwedd, achos dan ni ddim yn gallu cal unrhyw le i fyw.'* Soniodd dau ymatebydd am broblemau a gawsant gyda landlord preifat:

> Dw i ddim isio llety preifat achos dw i wedi cal lle preifat o'r blaen. Mae o'n lot o hasl. Pan nathon ni ffraeo, mi nath 'y mhartner i fynd â'r goriade'n ôl ond mi nathon nhw ddeud na alle fo roi'r goriade'n ôl heblaw bod o'n rhoi rhybudd mewn llythyr a bod y rhent wedi'i dalu tan [dyddiad] ac mi nathon ni drïo symud nôl mewn achos bod o heb roi dim byd ar bapur. Ac mi nathon nhw ffeindio allan, mi newidion nhw'r cloeon a dan ni ddim wedi mynd nôl ers hynny. Dan ni wedi bod at dwrne, ond dio'm yn gallu neud dim byd. Mi ddudon nhw wrthon ni fynd i'r llys hawliadau bach, ond mi fydde hynny'n costio pres i ni.

Soniodd un person arall am anawsterau o ran sicrhau llety preifat hefyd:

> Dydy'r rhan fwyaf o asiantaethau gosod ddim yn fodlon neud dim byd heblaw bod chi dros 21 rŵan ... felly sgen rhai pobl ddim gobaith mul i gael llety preifat a wnaiff y cyngor, os dach chi wedi bod mewn hosteli o'r blaen neu wedi bod mewn llefydd fel [ENW], sy'n lle Gwely a Brecwast... wnawn nhw mo'ch cyffwrdd chi, os dach chi wedi bod fanno.

Sylw

Mae'n anodd dynodi nifer y bobl ifanc ddigartref yn Wrecsam[37] gan fod yna 'bobl ddigartref gudd'. Er enghraifft, nid yw pobl ifanc, nad oes ganddynt lety parhaol, ond sy'n 'syrffwyr sofa', yn ymddangos mewn ystadegau swyddogol. Mae'r bobl ifanc sydd wedi aros yn y lloches nos a ddarparwyd yn ddiweddar yn Wrecsam, Tŷ Nos, yn ei werthfawrogi, er bod rhai pobl ifanc yn betrus rhag mynd i'r lloches nos am eu bod ofn y bobl ddigartref hŷn, tymor hir sy'n defnyddio'r cyfleuster. I bobl ifanc ddigartref, agored i niwed, mae llety ar ffurf *dormitory*, er ei fod yn well na chysgu ar y stryd, yn gallu bod yn brofiad eithaf bygythiol.

Ar brydau, ymddengys nad oes digon o le i ddiwallu'r galw, yn wyneb nifer y bobl ddigartref yn Wrecsam, sy'n cynnwys pobl ifanc. Mae yna bobl ifanc yn Wrecsam sy'n cysgu ar y stryd, mewn parciau, y tu allan i adeiladau cyhoeddus ac mewn llochesi dros dro. Mae pobl ifanc wedi dioddef troseddau yn eu herbyn, a chamdriniaeth eiriol pan oeddent yn ddigartref ar y stryd, gyda dros hanner yr ymatebwyr (rh=12) wedi bod yn ddioddefwr trosedd. Er i'r bobl ifanc siarad yn gadarnhaol am y gefnogaeth a roddwyd gan y sector gwirfoddol ac yn yr hosteli, profodd yn anodd iawn iddynt ddod o hyd i lety parhaol; mae rhestri aros am eiddo awdurdodau lleol a chymdeithasu tai yn hir, gyda phobl ifanc yn gorfod troi at ddefnyddio'r sector preifat, sydd heb yr un warchodaeth â darpariaeth tai cymdeithasol. Ymhellach, mae yna angen mwy o gefnogaeth hygyrch ac ymarferol pan fydd pobl ifanc yn cael eu tenantiaeth eu hunain.

37 Hart, E., (2006) Papur Cwmpasu Pobl Ifanc Ddigartref, Llywodraeth Cynulliad Cymru, http://www.cynulliadcymru.org/c47f2ac6b4726e395a40b310f172f081.pdf defnyddiwyd 25ain Mawrth 2010

9. Canlyniadau: Awgrymiadau pobl ifanc ar gyfer gwella

Awgrymodd yr ymatebwyr amrywiaeth o welliannau posib. Tynnodd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc sylw at y ffaith yr hoffent gael rhywle i fynd yn ystod y dydd i lenwi eu hamser, cael cefnogaeth gan ei gilydd a chan staff, ac i gael bwyd, diod a lloches:

> 'Dw i'n meddwl y dyle fod na ganolfan ddydd neu rwbeth i gal pobl oddi ar y strydoedd, stopio yfed a jysd neud rwbeth am y diwrnod...Rhywle lle allwn ni gal bwyd neu lle allith rhywun jysd ymlacio a siarad efo pobl a chymdeithasu, rili'. Dywedodd person ifanc arall ..'Dw i'n meddwl jysd rhywle i bobl fynd dio'm bwys os ydyn nhw'n byw rywle neu'n ddigartref ar y stryd, rhywle iddyn nhw fynd, ddim 24 awr ond rhywle sydd ar agor bob dydd... rhywle sydd fel... Dach chi'n cal cyngor, ddim fel cyngor ffurfiol, ond rhywle i fynd am sgwrs a chwarfod pobl.

Awgrymodd rhai pobl ifanc newidiadau mwy stwythurol:

> Dw i'n meddwl bod angen newid y rhestr blaenoriaethau, achos ddim jysd merched sy'n flaenoriaeth angen, dw i'n meddwl bod pobl iau yn fwy agored i niwed... jysd achos bod nhw'n hogia, dydyn nhw ddim yn agored i niwed, yn ôl pob sôn, yn eu llygaid nhw, ac alla i ddim gweld sut mae hynna'n wir... A dach chi ddim i fod yn secsist ond yn amlwg maen nhw. Tawn i'n ddynes, mi faswn i'n cal lle.

Awgrymodd dau berson ifanc y dylid ehangu'r ddarpariaeth lloches nos, *'...Dw i'n meddwl y dylai'r cyngor fod yn llawer mwy o help, mi ddylai fod yna fwy o lochesi nos na jysd un, achos os dach chi'n cyrraedd y lloches nos yna ac mae o'n llawn, sgynnoch chi nunlle i fynd wedyn, mae hi fel ras cyrraedd yno'* esboniodd un arall: *'Dw i'n meddwl y dylai fod yna fwy o bethau fel y lloches nos allan yna i bobl... achos mae o'n beth rili da. Dach chi'n gwbod bod pobl yn edrych mlaen at fynd yno, maen nhw'n deud o dw i'n mynd i'r lloches nos, dw i'n mynd i gal cawod a phethau felly.'*

Awgrymodd un person ifanc y dylai mwy o wybodaeth am ddigartrefedd a gwasanaethau fod ar gael yn fwy rhwydd i bobl ifanc:

> Dw i'n meddwl y dylai gwybodaeth fel'na gael ei rhoi yn y papurau... i bobl ifanc.. A jysd deud bod na fwy o opsiynau allan yna iddyn nhw. .. Ella ar rwydweithiau cymdeithasol fel, mi allen nhw roi mwy o wybodaeth arnyn nhw achos dw i'n gwbod bod lot o bobl ifanc yn mynd ar bethau fel *Facebook* neu *Bebo*... Y dudalen dach chi'n mynd iddi'n syth neu rwbeth.

Awgrymodd person ifanc arall y gellid newid sut roedd gwasanaethau'n cael eu darparu:

Mi faswn i bendant yno, ddim i ddeud wrthyn nhw be i neud, ond i ddeud mi allwch chi naill ai neud hyn neu mi allwch chi fynd i fanna a neud hynny.. dach chi'n rhoi opsiynau iddyn nhw a gadel iddyn nhw ddewis, yn lle deud wrthyn nhw be i neud. Achos lot o'r problemau, dach chi'n gwbod, ydy cael eu hannibyniaeth yn ôl, magu'r hyder yn ôl ar ôl bod ar y stryd... wedyn ma'n neud iddyn nhw deimlo mai nhw nath o, ddim ni, neu'r person sydd wedi rhoi'r help, felly bydd hynny'n codi eu hyder. Rhoi'r opsiynau iddyn nhw a gadel iddyn nhw neud o ac os dio ddim yn gweithio iddyn nhw, deud wel, ella mai ddim honna odd yr opsiwn orau, trïa honna yn lle a gadel iddyn nhw neud hynny, dach chi'n gwbod, arfer efo methu, neu fynd yn ôl i fyny, a bwrw iddi.

Roedd rhai pobl ifanc yn teimlo y dylai pobl a arferai fod yn ddigartref gael eu cyflogi i roi cefnogaeth ac arweiniad i bobl ifanc ddigartref: *'Mae pobl ifanc yn mynd drwy'r un peth ag y mae pobl yn mynd trwyddo. Felly dach chi isio siarad efo rhywun sydd wedi bod trwyddo fo. Mae rhai pobl yn darllen am y peth mewn llyfr, ac yn meddwl eu bod yn ei ddeall, a dydyn nhw ddim.'* Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc yn credu y byddai cefnogaeth un-wrth-un gan bobl sydd wedi bod trwy'r un profiadau yn fuddiol:

Mae pobl o hosteli'n cael cefnogaeth un-wrth-un efo'r gwahanol bobl... achos fel dw i'n ei gweld hi, mae'n debyg y gallai rhywun oddi ar y stryd weld person arall oedd ar y stryd... dw i'n meddwl y byddai'n llawer gwell a byddai pobl yn deall ac yn sylweddoli. Gweld pa wasanaethau sydd allan yna, a bydd hynny'n eu helpu nhw fwy, gweld sut beth ydy hosteli a sut beth ydy rheolau a be dan ni'n neud yma. Weithiau, pan o'n i'n ifanc, roedd siarad efo pobl hŷn yn y'n nychryn i braidd, mi allen nhw y'ch beirniadu chi fwy a dach chi ddim isio deud dim byd lot wrthyn nhw. Achos bod nhw rioed di bod yn ddigartref, dim un aelod o staff dwi'm yn meddwl, ella un neu ddau, ond dach chi ddim yn eu gweld nhw'n aml, a dach chi ddim yn gweld sut beth ydy bod yn ddigartref, dydyn nhw rioed wedi ei brofi yn eu bywyd.

Bu dau o bobl ifanc yn ymwneud ag addysg cyfoedion, ac roeddent yn ei argymell:

Dw i wedi bod yn neud rhywfaint o waith efo Shelter yn ddiweddar, efo addysg cyfoedion neu ddysgu cyfoedion.. siarad efo plant am ddigartrefedd a dw i'n meddwl mai dyna'r ffordd orau, eu cyrraedd cyn i'r problemau ddigwydd, siarad efo nhw pan maen nhw'n 13 neu 14, fatha oddan ni ddoe ac esbonio. Dw i'n trïo cal peth o'r stigma sydd o'i gwmpas o hefyd achos yn amlwg, maen nhw'n meddwl bod pob person digartref yn gaeth i heroin neu'n alcoholic... yn ôl ystadegau, bydd un o bob pump person ifanc 16 – 25 oed yng Nghymru yn dod yn ddigartref, bydd dros 20% o bobl ifanc 16 – 25 oed yn profi digartrefedd ar ryw adeg, felly yn y bôn, gadel iddyn nhw wbod. Mae na un rhan o'r gwaith dan ni'n neud yn y cyflwyniad pan dach chi'n gofyn iddyn nhw ysgwyd llaw efo'r person agosaf atyn nhw a deud bod yna un siawns mewn pump y'ch bod chi newydd ysgwyd llaw efo rhywun sy'n mynd i fod yn ddigartref ryw ddwrnod ac yna wedyn, yn amlwg, maen nhw i gyd yn dechre chwerthin a phwyntio at eu ffrindie a dan ni'n deud iawn, ond dach chi ddim yn sylweddoli y gallai'r person hwnnw fod yn chi ac maen nhw fel shit, gallai, mi allai fod yn fi. Yn amlwg, dach chi ddim yn trïo eu dychryn nhw, wel ella dipyn bach, ond mae angen iddyn nhw sylweddoli, er mor ddychrynllyd, y gallai ddigwydd i unrhyw un a gadel iddyn nhw wbod os ydy o yn digwydd, bod chi ddim ar y'ch pen y'ch hun, bod yna help allan yna, a gadel iddyn nhw wbod lle i'w ffeindio fo.' Aeth y person ifanc yma yn ei flaen i ddweud y byddai gwaith maes fel hyn yn fuddiol 'yn amlwg, dydy pawb ddim yn mynd i glybiau ieuenctid y dyddiau yma... dydy pob person ifanc yn ei arddegau ddim yn mynd i'r ysgol.

Dyma ddywedodd un person ifanc:

> Dw i'n neud sgyrsiau mewn ysgolion uwchradd ar hyn o bryd efo Shelter Cymru am bobl ddigartref... mi nes i ofyn iddyn nhw faint ohonyn nhw fyddai wedi troi rownd a deud pan gerddes i mewn drwy'r drws 'dach chi ddim yn ddigartref' – ac mi nath pob un ohonyn nhw roi eu llaw i fyny, ac mi nes i ddeud, wel dw i yn ddigartref, deud y gwir. ..nes i ddeud peidiwch byth â rhoi y'ch hunen yn y sefyllfa yna ar bwrpas, achos dw i'n nabod pobl sydd wedi mynd ati'n fwriadol i ddechre ffrae efo eu teuluoedd er mwyn mynd i fyw ar eu pen eu hun fel esgus i fynd i gal fflat neu dŷ – ond dydy hynna byth yn digwydd ac mae'n beth dychrynllyd achos mae na lot o bobl allan fanna allwch chi ddim trystio a ballu, maen nhw jysd yn poeni amdanyn nhw eu hunen a neb arall, a dydy hi ddim yn sefyllfa neis i fod ynddi.

Thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg o hanesion yr ymatebwyr oedd bod cefnogaeth cyfoedion yn bwysig. Awgrymodd rhai pobl ifanc y gellid darparu cefnogaeth cyfoedion strwythuredig o fewn cymuned y bobl ifanc ddigartref:

> Pobl fatha fi yn eu canol sy'n gweithio efo pobl ...Achos maen nhw'n gwbod be dach chi'n mynd drwyddo fo... Fel clwb ieuenctid, ella rhywbeth fel'na. Mynegwyd yr un safbwyntiau gan ymatebydd arall: 'cael mwy o bobl yn yr un grŵp efo'i gilydd fel, ...ella pe baech chi'n cal mwy o bobl ddigartref at ei gilydd .. mi allen nhw neud rhywbeth am y peth, os ydy hynna'n neud sens. .. mae hi jysd yn neis cael cyngor os ydy rhywun yn mynd drwy'r un peth â chi hefyd.' Aeth un person ifanc gam ymhellach: 'ella rhywbeth i neud efo pobl ifanc i'w cal nhw i fod yn rhan o rwbeth neu'i gilydd, achos faswn i ddim isio i neb fynd drwy'r pethau dw i di bod drwy' ac ychwanegodd un arall: 'mae angen i bobl wbod pwy maen nhw'n gallu, mae pobl yn gallu gwrando arnyn nhw, mae angen cyngor ar bobl bob yn hyn a hyn. Mae jysd angen help arnyn nhw... ond dach chi'n gwbod os ydy pobl wirioneddol angen y'n help ni, yna mi allan nhw ddod..achos dan ni wedi bod drwy'r cyfan, dan ni wedi bod mewn gofal, dan ni wedi bod drwy'r cyfan dros y blynyddoedd, dach chi'n gwbod dw i'n gwbod be maen nhw wedi bod drwyddo fo, dw i'n gwbod hanner eu straeon, dan ni gyd jysd yn ffrindiau, wel, dan ni'n trïo bod beth bynnag.

Sylw

Awgrymodd y bobl ifanc ystod o welliannau, ac roeddent yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfleu eu syniadau. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys cynyddu'r ddarpariaeth llochesi nos, a mwy o agweddau strwythurol fel newid y diffiniad o 'angen blaenoriaethol' er mwyn ei wneud yn llai cyfyng, yn enwedig yng nghyswllt dynion ifanc dros ddeunaw oed.

Dywedodd llawer o'r bobl ifanc fod cael rhywle i dreulio amser yn ystod y dydd yn bwysig; roedd yr anghenion a ddynodwyd yn cynnwys cael lle a gynigiai wres a lloches a llwybr at gyngor, ond yn bennaf er mwyn cael cefnogaeth gan bobl ifanc eraill a oedd mewn sefyllfa gyffelyb. Mae'n berthnasol nodi, erbyn 31ain Mawrth 2010, y bydd y gwasanaeth Cynghorwyr Personol yn cael ei ddarparu'n fewnol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn hytrach na gan Barnardo's. Er y

deellir bod darparu cyfleusterau pellach yn cael ei archwilio, bydd natur anffurfiol a hygyrch y gwasanaeth galw-heibio dyddiol cyfredol, sydd wedi ennill ei blwy, yn dod i ben.

Roedd y bobl ifanc yn gwerthfawrogi treulio amser gydag eraill a oedd wedi bod yn ddigartref, gan gredu eu bod yn deall eu sefyllfa yn well. Awgrymodd rhai pobl ifanc y dylai staff a gyflogir i weithio gyda phobl ifanc ddigartref fod wedi profi digartrefedd eu hunain. Gallai hyn fod oherwydd iddynt deimlo nad oedd rhai staff llinell flaen yn eu deall. Mynegodd y bobl ifanc eu hawydd i gynnig cefnogaeth a chyngor i bobl ifanc eraill, ac roeddent yn awyddus i weld mecanweithiau'n cael eu sefydlu er mwyn caniatáu iddynt wneud hyn.

10. Trafodaeth

Cryfder yr ymchwil ansoddol graddfa fach hon, y cyfrannwyd ati gan ugain o bobl ifanc o Wrecsam sydd wedi profi digartrefedd, yw ei bod yn dibynnu'n helaeth ar leisiau'r bobl ifanc. Mae codio, grwpio a dadansoddi'r profiadau cyffredin a ddatgelwyd gan y bobl ifanc yn galluogi'r darllenydd i gael gwell dealltwriaeth o brofiad go iawn rhywun o fod yn ddigartref. Gall y darllenydd ddechrau gwerthfawrogi'r problemau a'r rhwystrau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu o ddydd i ddydd. Yn rhy aml o'r hanner, gall digartrefedd gael ei ddarlunio gan ffeithiau a chyffredinoliadau lle bydd gwir raddfa a natur digartrefedd a phrofiad go iawn y person ifanc yn cael eu hanwybyddu.

Ceir dadl ynglŷn â diffiniadau a chyfrifiadau yng nghyswllt graddfa digartrefedd. Yn ôl ffigurau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn 3 mis cyntaf 2006, dim ond pedwar o bobl ifanc (rhwng 16 a 21 oed) a ystyriwyd mewn angen blaenoriaethol ym Mwrdeistref Wrecsam[38], ond mae ein hymchwil yn awgrymu bod y raddfa wirioneddol yn debygol o fod yn uwch. Ceir amrywiaeth yn aml, nid yn unig ynglŷn â graddfa digartrefedd ond hefyd ynglŷn â realiti a phrofiadau pobl ddigartref – fel y dangoswyd mewn ymchwil ddiweddar gan Ymddiriedolaeth Joseph Rowntree (2008):

> Ym mhob un o'r pedair gwlad, cafwyd consensws helaeth ymhlith cynrychiolwyr asiantaethau bod polisi ynglŷn â digartrefedd yn gyffredinol, a digartrefedd ymhlith pobl ifanc yn benodol, yn symud i'r cyfeiriad iawn. Fodd bynnag, nid oedd pobl ifanc yn cytuno â'r safbwynt hwn oherwydd y sialensiau a wynebent wrth chwilio am dai.[39]

Nid yw'r bobl ifanc yn yr astudiaeth hon yn sampl gynrychioladol, ond maent i gyd yn bobl ifanc ag anghenion dyrys sydd wedi cael profiad personol o fod heb unrhyw le i gysgu. Mae eu naratif cyffredin, ar ôl ei godio a'i ddadansoddi gan brosesau'r ymchwil, yn rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth bwysig a fydd yn gymorth i wleidyddion, llunwyr polisi, rheolwyr, a gweithwyr ddeall manylion a hanfodion bywyd bob dydd rhywun sy'n ifanc, yn agored i niwed ac heb unrhyw le i gysgu. Mae'r bobl ifanc wedi'i 'dweud hi fel y mae' ac mae'r ymchwilwyr wedi bod yn ymroddedig i sicrhau eu bod yn cipio, codio a chyfleu eu lleisiau'n union fel y siaradasant, a sicrhau hefyd eu bod yn cael eu cynrychioli'n gryf yng nghorff yr adroddiad hwn. Yr hyn na wnaeth y prosiect ymchwil graddfa fach hwn geisio ei wneud oedd cynnwys safbwynt yr amrywiol asiantaethau, rheolwyr, gofalwyr neu staff cefnogi. Byddai hyn, yn sicr, wedi gwella'r ymchwil, ond nid oedd hyn yn bosib oherwydd cyfyngiadau amser ac arian. Nod yr ymchwil oedd cael data ymchwil cyfoethog drwy alluogi pobl ifanc ag anghenion dyrys – grŵp sy'n gallu bod yn anodd ei gyrraedd ac ymgysylltu ag ef – i'w 'Dweud hi fel y mae'. Er bod yr ymchwil hon yn cyfleu persbectif unochrog, mae lleisiau pobl ifanc ddigartref yn aml yn cael eu

38 Hart, E., (2006) Papur Cwmpasu Pobl Ifanc Ddigartref, Llywodraeth Cynulliad Cymru, http://www.cynulliadcymru.org/c47f2ac6b4726e395a40b310f172f081.pdf defnyddiwyd 25ain Mawrth 2010

39 Quilgars, D., Johnsen, S. & Pleace, N., (2008) Youth homelessness in the UK: A Decade of Progress? Caerefrog, Sefydliad Joseph Rowntree

hanwybyddu mewn ymchwil. Mae hi hefyd yn ddiddorol nodi bod y materion a godwyd gan y bobl ifanc yn yr ymchwil hon yn adleisio nifer o astudiaethau ymchwil eraill ynglŷn â phobl ddigartref40, yn wir, byddem yn dadlau eu bod yn mynd ymhellach – maent yn rhoi dyfnder a manylder dealltwriaeth a oedd o'r golwg ynghynt dan gôt drwchus o baent.

Er bod y materion a godwyd gan y bobl ifanc yn benodol o berthnasol i Wrecsam, mae'n debygol y canfyddid materion cyffelyb mewn ardaloedd eraill; byddai ymchwil bellach gyda phobl ifanc ddigartref mewn trefi a dinasoedd eraill yn ychwanegu rhywfaint o eglurder a chymhariaeth i brofi'r dybiaeth hon. Fodd bynnag, dylai ardaloedd eraill elwa o wrando ar naratifau manwl y bobl ifanc yn yr astudiaeth ymchwil hon, a dysgu mewn manylder am: rai o'r ffactorau prysuro sy'n arwain at ddigartrefedd; y rhwystrau sy'n ei gwneud hi'n anodd iddynt ganfod llety parhaol, sefydlog ac addas; hwyluswyr sy'n eu harfogi a'u galluogi i gael mynediad at wasanaethau a chael y cymorth sydd ei angen arnynt; a bylchau mewn gwasanaethau.

Mae'r ymchwil yn tynnu sylw at fwlch mewn gwasanaethau ar gyfer plant agored i niwed sy'n symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Mae agwedd integredig tuag at ddiwallu anghenion pobl ifanc yn ganolog i strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol41 ac mae hefyd yn hyrwyddo pwysigrwydd gwasanaethau cydlynol, wedi'u sefydlu'n lleol, er mwyn galluogi pobl ifanc i gamu'n ddilyffethair dros y bont tuag at fod yn oedolion. Fodd bynnag, mae naratifau'r grŵp hwn o bobl ifanc yn awgrymu'n gryf bod yna fylchau sylweddol yn bodoli mewn gwasanaethau.

Mae un thema arwyddocaol yn codi o'r ymchwil hon sydd fel pe bai hi'n tanseilio cynifer o brofiadau'r bobl ifanc wrth iddynt geisio byw'n annibynnol, a honno yw profiad cyffredin o deimlo eu bod yn cael eu gwthio i'r cyrion a'u heithrio. Ar adegau, roedd rhai pobl ifanc yn amlwg yn teimlo eu bod yn destun stigma a chamwahaniaethu yn llygaid rhai o'r cyhoedd a rhai o'r asiantaethau y troesant atynt. I rai o'r bobl ifanc a gyfwelwyd gennym, yn wyneb eu hoed, eu hynysu oddi wrth rwydweithiau cefnogi traddodiadol, eu cefndiroedd personol drylliedig a'u cyfalaf cymdeithasol prin, gallai stigmateiddio a'u gyrru i'r cyrion wneud ailintegreiddio cymdeithasol yn her bron yn amhosib ei chyflawni.

Mae safbwyntiau darparwyr gwasanaethau (er mor bwysig) y tu hwnt i gwmpas yr astudiaeth graddfa fach hon sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r grŵp defnyddwyr gwasanaethau hwn sydd wedi'i wthio i'r cyrion. Gallai canfyddiadau'r ymchwil raddfa fach hon fod yn sail i astudiaeth fwy cynhwysfawr a chynhwysol i'r dyfodol. Er bod gan yr astudiaeth ffocws rhanbarthol penodol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, gall y canfyddiadau fod yn sail i anghenion datblygu polisi allweddol cenedlaethol, ac yn wir rhyngwladol.

---

40 Quilgars, D., Johnsen, S. & Pleace, N., (2008) Youth homelessness in the UK: A Decade of Progress? Caerefrog, Sefydliad Joseph Rowntree

41 Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol: Strategaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru dros y degawd nesaf (2007) Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Goblygiadau i Bolisi ac Ymarfer

1. Mae'r gofyniad bod pobl ifanc yn dangos nad ydynt yn 'fwriadol ddigartref' yn eu rhoi mewn sefyllfa anodd oherwydd:

    a. Mae'r materion sydd wedi prysuro digartrefedd i berson ifanc yn aml yn boenus, yn bersonol ac yn anodd eu trafod gyda gweithiwr nad ydynt yn gyfarwydd ag ef/hi, a rhywun nad yw, yn eu tyb hwy, yn hawdd siarad ag ef/hi nac yn deall eu sefyllfa.

    b. Prin yn aml yw profiad a/neu sgiliau'r bobl ifanc o ymwneud yn annibynnol â biwrocratiaeth ac weithiau maent yn cael y cyfweliadau hyn yn anodd ymdopi â hwy.

    c. Ymddengys bod y rheol 'bwriadol ddigartref' yn cael ei defnyddio'n llym ac weithiau'n annheg – er enghraifft gyda pherson ifanc sydd wedi gorfod gadael llety oherwydd bygythiadau a bwlio gan drigolion eraill.

2. Nid yw'r diffiniadau ar gyfer 'angen blaenoriaethol' a'r gofyniad i ddarparu llety, fel yr haerir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, bob amser i'w gweld yn cael eu cyflawni ar lefel leol. Nid yw'r sefyllfa'n unigryw i Wrecsam gan i bobl ifanc ddigartref mewn ymchwil DU-gyfan42 hefyd ddynodi bwlch rhwng yr hyn y mae'r asiantaethau'n honni sy'n digwydd a'u profiadau personol hwy eu hunain.

3. Er i'r bobl ifanc gyfleu eu bod yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth, nid yw rhai gwasanaethau'n diwallu angen pobl ifanc:

    a. Mae rhai mathau o lety dros dro yn golygu bod rhaid i bobl ifanc ddigartref rannu ystafelloedd. Mae rhannu gofod llofft gyda phobl eraill, gyda rhai ohonynt, o bosib, ag anghenion iechyd meddwl neu broblemau alcohol a chyffuriau, yn gallu bod yn fygythiol ac yn ddychrynllyd i rai pobl ifanc.

    b. Mae merched ifanc yn fwy tebygol o gael eu pennu'n 'angen blaenoriaethol' na dynion ifanc. Roeddem yn disgwyl canfod mwy o ddynion ifanc digartref na merched, ond fe gawsom ein synnu gan nifer y merched ifanc digartref yn Wrecsam. Mae anghenion merched digartref yn wahanol i rai dynion (yn enwedig merched ifanc digartref sydd â chyfrifoldebau gofal plant) ac mae angen i wasanaethau ddarparu ar eu cyfer.

    c. Mewn rhai mathau o lety, mae gofyn i ferched/menywod ifanc digartref rannu cyfleusterau megis cegin, ystafell ymolchi ac ystafell fyw gyda thenantiaid anaddas, er enghraifft, disgrifiodd un ferch ifanc, oedd â phlentyn, sut y bu'n rhaid iddi rannu tŷ gyda dynion hŷn a oedd yn ddefnyddwyr cyffuriau tymor hir a oedd newydd eu rhyddhau o'r carchar.

---

42 Quilgars, D., Johnsen, S. & Pleace, N., (2008) Youth homelessness in the UK, Sefydliad Joseph Rowntree, Caerefrog

4. Mae yna fwlch sylweddol yn y ddarpariaeth gwasanaeth rhwng llety dros dro a rennir a llety personol sefydlog. Mae llety personol addas yn anodd iawn ei gael. Yn aml, nid oes gan bobl ifanc ag anghenion dyrys, sy'n llwyddo i gael llety, na'r adnoddau na'r gefnogaeth sydd eu hangen i lwyddo i fyw'n annibynnol.

5. Roedd bron pob un o'r bobl ifanc yn dod o Wrecsam a'r cyffiniau. Nid oedd yna unrhyw dystiolaeth o bobl ifanc yn heidio i Wrecsam, er bod yr ardal yn cynnig amrywiaeth da o wasanaethau cefnogi gwirfoddol megis y lloches nos, cegin gawl, gwasanaethau galw-heibio a hosteli. Ymddengys nad yw darparu amrywiaeth da o wasanaethau buddiol a chefnogol yn denu pobl ifanc ddigartref o ardaloedd eraill.

6. Roedd y bobl ifanc a gyfwelwyd yn siarad yn werthfawrogol iawn am y gofal a'r caredigrwydd a ddarperir gan yr asiantaethau gwirfoddol yn Wrecsam, gan werthfawrogi'r gefnogaeth ymarferol yn ogystal â chael rhywun yno sy'n fodlon gwrando a deall. Mae'r gwasanaeth annibynnol gwirfoddol yn Wrecsam yn cynnig ystod helaeth o wasanaethau sy'n bodloni anghenion gwahanol ystod o bobl ddigartref, ac sy'n addas ar eu cyfer. Er gwaethaf yr amrywiaeth da o wasanaethau cefnogi gwirfoddol sydd ar gael yn Wrecsam, roedd y bobl ifanc yn yr astudiaeth hon yn ei chael hi'n hynod o anodd sicrhau llety diogel, ac roeddent yn eu cael eu hunain yn aml mewn 'drws tro' (gweler ffigur un) sy'n ganfyddiad cyffredin mewn astudiaethau cyffelyb ym maes digartrefedd. Mae angen ymchwil bellach i archwilio polisïau ac arferion a fydd yn galluogi pobl ifanc ddigartref i symud ymlaen yn gyflymach i lety prif ffrwd.



Ffigur 1. Drws Tro Digartrefedd

Llety Sefydlog
Argyfwng, Digwyddiad neu Amgylchiadau
Digartrefedd
Llety Dros dro
Drws tro digartrefedd. Gwasanaethau gwirfoddol yn darparu cefnogaeth frys
Llety Sefydlog
Mynediad at lety sefydlog yn broblemus
Angen cefnogaeth ychwanegol

Yn aml wedi'u lleoli gyda phobl eraill mewn angen

7. Mae llawer o'r bobl ifanc wedi disgrifio adegau pan oeddent yn teimlo'n rhwystredig â'u hanallu i ryddhau eu hunain o ddrws tro digartrefedd. O ganlyniad i'w rhwystredigaeth o fethu cael y cymorth yr oeddent yn teimlo eu bod yn ei haeddu, cyfaddefodd nifer o'r bobl ifanc iddynt golli eu tymer a gwylltio. Mae angen cymorth ar bobl ifanc agored i niwed ag anghenion dyrys i ddysgu sut i ymdopi â gwrthdaro a straen. Mae angen i staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau llinell flaen ddatblygu mwy o ddealltwriaeth a sensitifrwydd tuag ar y grŵp agored i niwed hwn. Gallai cyflogi pobl ifanc a arferai fod yn ddigartref mewn swyddi llinell flaen cefnogol gyfrannu at wella'r sefyllfa.

8. Roedd nifer arwyddocaol o bobl ifanc yn teimlo y byddai cyfeillio a chefnogaeth un-wrth-un gan bobl a oedd wedi bod drwy brofiadau cyffelyb yn gwneud gwahaniaeth. Gellid cyflogi pobl a fu'n ddigartref ar un adeg mewn amrywiol asiantaethau i ddarparu ystod eang o wasanaethau cefnogi ac arweiniad i helpu pobl ifanc ddigartref.

9. Nid oedd gan fwyafrif y bobl ifanc yn y sampl bychan hwn ddim byd cadarnhaol i'w ddweud am y Swyddfa Dai. Roeddent yn cwyno am agweddau a oedd, yn eu tyb hwy, yn anfuddiol, yn ddilornus ac yn feirniadol. Yn gam neu'n gymwys, roedd y bobl ifanc yn teimlo nad oedd neb yn cymryd sylw ohonynt nac yn eu credu. Ar y llaw arall, roedd y bobl ifanc yn gwerthfawrogi, ac yn siarad yn gadarnhaol ar y cyfan, am y cymorth roeddent yn ei gael gan y sector gwirfoddol. Gellid gwneud y Fforwm Digartrefedd Ieuenctid Rhyng-Asiantaeth yn fwy effeithiol drwy ychwanegu cynrychiolaeth o blith Defnyddwyr Gwasanaethau ato, er mwyn gwella'r sianel gyfathrebu a'r ddealltwriaeth rhwng asiantaethau statudol, asiantaethau gwirfoddol a phobl ifanc ddigartref.

10. Roedd bron pob un o'r bobl ifanc a gyfwelwyd gennym yn gobeithio, rhyw ddydd, y byddai ganddynt fflat hunangynhaliol iddyn nhw eu hunain. Fodd bynnag, mae meini prawf deddfwriaethol a dehongli 'angen blaenoriaethol' ar lefel leol wedi golygu bod cymorth ar gyfer pobl ifanc dros ddeunaw oed yn fwy anodd ei gael. Roedd rhai o'r dynion ifanc dros ddeunaw oed a gyfwelwyd gennym yn teimlo ei bod hi'n hynod o anodd (os nad yn amhosib) iddynt gael eu pennu'n flaenoriaeth. Roedd rhai o'r merched ifanc a gyfwelwyd gennym, oedd â phlant, wedi llwyddo i sicrhau llety ond nid oedd hwn bob amser yn arbennig o addas. Mae angen adolygu dehongliad lleol ac effaith deddfwriaeth tai ac ôl-ofal ar lefel leol (o bosib drwy'r Fforwm Digartrefedd Rhyng-Asiantaeth) er mwyn sicrhau nad yw pobl ifanc agored i niwed yn yr ardal yn cael eu diystyru a'u bod mewn perygl o ddatblygu ffordd o fyw sy'n troi o amgylch digartrefedd.

11. Roedd y bobl ifanc a gyfwelwyd gennym yn credu bod bod yn ddigartref yn denu stigma gan y cyhoedd a rhai o'r asiantaethau y daethant i gysylltiad â nhw. Er mwyn lleihau'r perygl o wynebu camwahaniaethu, roedd rhai o'r bobl ifanc yn ymdrechu'n galed i osgoi cael eu hadnabod a'u labelu fel rhywun digartref; llwyddwyd i wneud hyn yn bennaf drwy geisio cynnal lefelau cymharol o lendid personol ac ymarweddiad allanol. Roedd y bobl ifanc a gyfwelwyd gennym yn gwahaniaethu rhwng gwahanol grwpiau o bobl ddigartref; a) y bobl ddigartref hŷn, tymor hir, b) y bobl ddigartref di-drefn sy'n gaeth i sylweddau, ac c) y bobl ddigartref ifanc 'dros

dro' – sy'n well ganddynt gael eu gweld yn bobl ifanc heb lety addas. Gellid dadlau o blaid gwasanaethau sy'n diwallu'n benodol ar gyfer un yn hytrach na phob un o'r tri grŵp. Yr unig beth y mae problem stigma yn ei wneud yw ychwanegu at set o broblemau sydd eisoes yn ddyrys. Mae stigma yn fater y gellid mynd i'r afael ag ef mewn cymunedau lleol drwy ddigwyddiadau ac ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd (o bosib dan arweiniad y Fforwm Digartrefedd Rhyng-Asiantaeth).

12. Mae pobl ifanc wedi'u hynysu o gymdeithas y brif ffrwd, nid oes ganddynt gefnogaeth deuluol ac nid oes ganddynt gyfalaf cymdeithasol, a phrin yw'r llwybrau sydd ar gael iddynt feddu arno. Daw'r angen am gefnogaeth hyd yn oed yn fwy oherwydd bod cymdeithas y brif ffrwd yn ynysu ac yn stigmateiddio pobl sy'n ddigartref. Ceir tystiolaeth bod yna rai pobl ifanc ddigartref yn Wrecsam sy'n creu eu rhwydweithiau cymdeithasol eu hunain, a'r rheiny'n dod yn hollbwysig ar gyfer cefnogaeth emosiynol a bodloni anghenion sylfaenol beunyddiol. Nid oedd llawer o bobl ifanc yn gwybod i ble i fynd am gymorth; roeddent yn dysgu am wasanaethau gan bobl ddigartref eraill. Roedd cymysgu rhwng y gwahanol grwpiau o bobl ddigartref yn llai cyffredin, fodd bynnag, yn wyneb yr adnoddau personol prin, roedd y bobl ifanc ddigartref yn yr ymchwil hon yn dueddol o ddefnyddio pa bynnag gysylltiadau neu rwydweithiau oedd ar gael i helpu i ddiwallu anghenion sylfaenol. Gallai canolfan galw-heibio ddydd, siop un-stop, saith diwrnod yr wythnos, aml-asiantaeth ddynodedig, lle ceid gwasanaethau cefnogi ymarferol i ddiwallu anghenion sylfaenol megis cynhesrwydd, lloches, cawodydd, golchdy a lluniaeth sylfaenol, ynghyd â hawliau lles, hyfforddiant sgiliau cymdeithasol a chwnsela, helpu pobl ifanc agored i niwed i gael mwy o wybodaeth a gwell cefnogaeth er mwyn iddynt gamu drwy ddrws tro digartrefedd.

13. Oherwydd prinder llety ar gyfer pobl ifanc yn Wrecsam, mae yna bobl ifanc sy'n cysgu allan ar y strydoedd, yn aml mewn pebyll dros dro mewn parciau neu goetiroedd neu weithiau mewn ardaloedd cysgodol wrth ymyl rheilffyrdd neu ffatrïoedd. Mae angen asesiad mwy cywir o union nifer y bobl ifanc ddigartref.

14. Adeg y cyfweliadau, roedd pob un o'r bobl ifanc (ar wahân i un a oedd yn gweithio mewn bar) yn ddi-waith, gyda mwyafrif bychan yn dilyn rhaglenni addysgol. Nid oedd y mwyafrif o bobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), ac felly er bod angen llety ar y bobl ifanc hyn, mae angen mynd i'r afael hefyd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac addysgol ehangach pobl ifanc ddigartref.

11. Casgliadau ac Argymhellion

Roedd gan y bobl ifanc yn yr ymchwil hon brofiad o ddigartrefedd, ac ystod o anghenion dyrys gan gynnwys: problemau iechyd meddwl; hunan-niweidio; chwalfa a gwrthdaro teuluol; camdriniaeth rywiol a chorfforol yn y cartref; profedigaeth a cholled yn y teulu agos; problemau alcohol a chyffuriau; anawsterau dysgu; cael eu hynysu yn ogystal â bod wedi derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Er mai llety parhaol yw'r angen brys, bydd angen cefnogaeth ychwanegol ar y bobl ifanc hyn hyd yn oed pan fyddant, yn y pen draw, wedi'u lletya mewn tai sefydlog a da. Heb y gefnogaeth hon, mae'r bobl ifanc hyn mewn perygl o golli'r llety sefydlog hwnnw, a dod yn ddigartref unwaith yn rhagor.

Oherwydd eu sefyllfa agored i niwed a'u hanghenion sylfaenol, mae bryd y rhan fwyaf o bobl ifanc bron yn llwyr ar sicrhau bwyd, lloches, cynhesrwydd, hylendid, cefnogaeth a chyfeillgarwch. Yn wyneb yr anhawster i sicrhau llety sefydlog parhaol, mae pobl ifanc ddigartref yn dueddol o fyw bywydau crwydrol, gan aros mewn amrywiol lochesi, hosteli, soffa ffrind, llochesi nos ac weithiau cysgu allan ar y stryd. Mae pobl ifanc ddigartref yn cael oriau'r dydd yn anodd oherwydd y prinder cymharol o lefydd i fynd.

Unwaith iddynt fod yn ddigartref, roedd hi'n hawdd i bobl ifanc gael eu caethiwo o fewn drws tro llety dros dro. Roedd pob un o'r bobl ifanc yn yr ymchwil hon wedi'i chael hi'n anodd sicrhau llety parhaol. Dan yr amgylchiadau hyn, ac yn wyneb eu cefndir anodd a'u hadnoddau prin, roedd rhai pobl ifanc a gyfwelwyd gennym wedi dod yn fwyfwy ynysig ac eithriedig, a'u ffordd o fyw wedi bwrw gwreiddiau.

Mae'n bosib na fydd rhai o'r bobl ifanc agored i niwed a gyfwelwyd gennym yn cyflawni eu potensial fel oedolion oni bai bod polisïau ac ymarfer yn newid ac yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae'n amlwg bod angen buddsoddi adnoddau yn y grŵp mwyaf agored i niwed hwn, er mwyn ceisio atal patrymau tymor hir o ymddygiad niweidiol. Fodd bynnag, mewn cyfnod o ddirwasgiad lle disgwylir toriadau helaeth mewn gwariant cyhoeddus, ac yn wyneb y galw cystadleuol gan grwpiau eraill, mae'n bosib y bydd pobl ifanc ddigartref gydag anghenion dyrys yn ei chael hi'n anodd denu nawdd digonol ar gyfer y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Argymhellion allweddol:

1. Dylai gwybodaeth am adael cartref a digartrefedd fod ar gael yn fwy rhwydd i bobl ifanc yn gyffredinol. Mae'r dystiolaeth o'r adroddiad hwn yn cefnogi deiseb Shelter Cymru43 i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn galw am gynnwys addysg ynglŷn â gadael cartref ar y cwricwlwm cenedlaethol. Roedd y bobl ifanc a gymerodd ran yn yr ymchwil hon yn disgrifio'r anhawster a gawsant i ganfod y gwasanaethau a oedd ar gael ynglŷn â dod yn ddigartref, ac roeddent yn aml mewn sefyllfa argyfyngus pan oeddent yn chwilio am help. Bydd addysg am natur, perygl ac effaith digartrefedd,

43 *Norman, K. (2009) Teens backing call to put leaving home on the curriculum, Western Mail, 3 Rhagfyr 2009. I'w weld ar-leinhttp://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/2009/12/03/teens-backing-call-to-put-leaving-home-on-the-curriculum-91466-25309111/ 29ain Mawrth 2010*

law yn llaw â ble a sut i gael cymorth, nid yn unig yn helpu i wella gwybodaeth ledled rhwydweithiau cymdeithasol pobl ifanc, ond gallai hefyd helpu i leihau camwahaniaethu yn erbyn pobl ifanc sy'n ddigartref.

2. Yn wyneb natur a graddfa'r digartrefedd ymhlith pobl ifanc a welwyd yn yr ymchwil hon, awgrymir y canlynol:

    a. Mae angen asesiad mwy cywir o union nifer y bobl ifanc ddigartref. Ymddengys bod ffigurau swyddogol yn tanamcangyfrif maint y broblem yn ddifrifol.

    b. Mae angen adolygu'r meini prawf ar gyfer penderfynu pwy sy'n gallu, a phwy sydd ddim yn gallu, cael ei ystyried yn 'angen blaenoriaethol' er mwyn sicrhau nad yw pobl ifanc ddigartref agored i niwed yn cael eu heithrio.

    c. Mae angen adolygu hefyd ddehongliad cyfredol ac effaith y ddeddfwriaeth dai ac ôl-ofal.

3. Mae angen cau'r bwlch rhwng polisïau sydd ar waith ar hyn o bryd a phrofiad y bobl ifanc o wasanaethau. Gallai rhoi mwy o gyfraniad a llais i ddefnyddwyr gwasanaeth helpu'r broses hon.

4. Mae Deddf Tai 1996 adran 191(1) yn datgan: 'Daw rhywun yn fwriadol ddigartref os yw ef yn fwriadol wneud neu beidio â gwneud unrhyw beth sy'n arwain at iddo beidio â meddiannu llety sydd ar gael iddo ei feddiannu ac y byddai'n rhesymol iddo barhau i'w feddiannu.' Mae dod yn ddigartref ar oedran ifanc yn brofiad trawmatig ac mae'n amlwg yn ganlyniad set anodd o amgylchiadau. Awgryma profiadau pobl ifanc yn yr ymchwil hon bod angen i'r meini prawf a'r broses ar gyfer penderfynu a yw person ifanc yn gallu cael ei ystyried yn 'fwriadol ddigartref' neu beidio gael eu rheoli mewn ffordd fwy sensitif a chydymdeimladol.

5. Mae angen i staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau llinell flaen, yn enwedig y rheiny yn y sector statudol, ddatblygu mwy o ddealltwriaeth a sensitifrwydd tuag at y grŵp agored i niwed hwn. Gallai cyflogi pobl sydd â phrofiad o fod yn ddigartref mewn swyddi llinell flaen cefnogol gyfrannu at wella'r sefyllfa.

6. Gallai Fforwm Digartrefedd Ieuenctid Rhyng-Asiantaeth, gyda chynrychiolaeth dda o blith pobl ifanc ddigartref (y dylid talu iddynt am fynychu a chyfrannu) helpu i ddynodi, hysbysu, monitro, cynghori ac adolygu sawl mater ym maes tai, gan gynnwys y rheiny a restrwyd uchod. Gallai Fforwm Digartrefedd Ieuenctid Rhyng-Asiantaeth helpu hefyd i wella'r sianel gyfathrebu a'r ddealltwriaeth rhwng asiantaethau statudol, asiantaethau gwirfoddol a phobl ifanc ddigartref.

7. Er bod pobl ifanc yn gwerthfawrogi'r cymorth y maent yn ei dderbyn, mae angen i rai gwasanaethau fod yn fwy addas ar gyfer ystod amrywiol anghenion pobl ifanc ddigartref, yn enwedig sicrhau, cyn belled ag y bo hynny'n bosib, nad oes gofyn i bobl ifanc rannu llofftydd, a bod y rheiny sydd â chyfrifoldeb dros blant yn cael llety addas yn nhermau lleoliad, cyfleusterau a rhannu â thenantiaid eraill.

8. Er mwyn hwyluso mynediad ac ymgysylltiad â gwasanaethau, gellid cyflogi pobl sydd â phrofiad o fod yn ddigartref mewn amrywiol asiantaethau i ddarparu ystod eang o wasanaethau cefnogi ac arweiniad i helpu pobl ifanc ddigartref.

9. Er mwyn gwneud cysylltiad â phoblogaeth pobl ifanc ddigartref, sy'n aml ynghudd, gellid ystyried gwasanaethau cyfeillio ar lawr gwlad. Gellid cyflogi pobl sydd â phrofiad o fod yn ddigartref i fod yn gyfeillion, i roi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth.

10. Mae stigma yn fater y gellid mynd i'r afael ag ef mewn cymunedau lleol drwy ddigwyddiadau ac ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, o bosib dan arweiniad y Fforwm Digartrefedd Rhyng-Asiantaeth. Mae peth gwaith da eisoes wedi dechrau yn y maes hwn.

11. Er mwyn gwella a datblygu'r systemau cefnogi cymdeithasol yr oedd y bobl ifanc yn yr ymchwil hon yn pwysleisio eu pwysigrwydd, gallai canolfan galw-heibio ddydd, siop un-stop, saith diwrnod yr wythnos, aml-asiantaeth ddynodedig, lle ceid gwasanaethau cefnogi ymarferol i ddiwallu anghenion sylfaenol megis cynhesrwydd, lloches, cawodydd, golchdy a lluniaeth sylfaenol, ynghyd â hawliau lles, hyfforddiant sgiliau cymdeithasol a chwnsela helpu pobl ifanc agored i niwed i gael eu harfogi a'u cefnogi'n well i gamu drwy ddrws tro digartrefedd.

12. Mae angen ymchwil bellach i archwilio polisïau ac arferion a fydd yn galluogi pobl ifanc ddigartref i symud ymlaen o fod yn ddigartref i feddiannu llety parhaol. Oni fydd y sefyllfa gyfredol yn gwella, mae yna berygl gwirioneddol y bydd rhai pobl ifanc ddigartref yn cael eu dal a'u gwreiddio mewn ffordd o fyw grwydrol a niweidiol. Byddant hwy, yn ogystal â'r gymdeithas ehangach, yn talu'n ddrud am hyn.

Cyfeiriadaeth

Bickley, H. et al., 2006. Suicide in the homeless within 12 months of contact with mental health services. Social Psychiatry and Psychiatric Epidemiology, 41(9), 686-691.

Browne, K., 2005. Snowball sampling: using social networks to research non-heterosexual women. International Journal of Social Research Methodology, 8(1), 47.

Swyddfa'r Cabinet. (2009). Realising young potential: supporting care leavers into education, employment and training.

D. K. Padgett, L. Gulcur, a S. Tsemberis (2006) Housing First Services for People Who Are Homeless With Co-Occurring Serious Mental Illness and Substance Abuse Research on Social Work Practice, Ionawr 1, 2006; 16(1): 74 - 83.

de Winter, M. a Noom, M., (2003). Someone who Treats you as an Ordinary Human Being ... Homeless Youth Examine the Quality of Professional Care. Br J Soc Work, 33(3), 325-338

Draucker, C.B. et al., 2007. Theoretical Sampling and Category Development in Grounded Theory. Qual Health Res, 17(8), 1137-1148.

Fitzpatrick, S., Kemp, P.A. a Klinker, S. (2000) Single Homelessness: An Overview of Research in Britain. Bryste: The Policy Press

Fraser, S. et al. (2004) (Gol.) Doing Research with Children and Young People. Buckingham: Gwasg y Brifysgol Agored.

Hart, E., (2006) Papur Cwmpasu Pobl Ifanc Ddigartref, Llywodraeth Cynulliad Cymru, http://www.cynulliadcymru.org/c47f2ac6b4726e395a40b310f172f081.pdf defnyddiwyd 25ain Mawrth 2010

Quilgars D., Johnsen, S a Pleace, N. (2008) Youth Homlessness in the UK: A Decade of Progress? Caerefrog, Sefydliad Joseph Rowntree

Norman, K. (2009) Teens backing call to put leaving home on the curriculum, Western Mail, 3 Rhagfyr 2009 I'w weld ar-lein http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/2009/12/03/teens-backing-call-to-put-leaving-home-on-the-curriculum-91466-25309111/ 29ain Mawrth 2010

Shelter Cymru (2007) Argyfwng Annaturiol: Adroddiad y Comisiwn Ymchwilio i ddigartrefedd ac amodau tai gwael yng Nghymru, Abertawe.

Shelter Cymru (2008) Adeiladu ar y gorffennol: Rhoi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru, Adroddiad Cynhadledd 2008

Sin, C.H., 2005. Seeking Informed Consent: Reflections on Research Practice. Sociology, 39(2),277-294.

Adroddiad yr Uned Allgau (2005): 'Pontio: pobl ifanc ag anghenion dyrys' adroddiad terfynol Uned Allgau Cymdeithasol, Llundain: Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) Busnes Pawb – Cyfrifoldeb Neb: Adroddiad ar Ddigartrefedd ymhlith Pobl Ifanc, Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Caerdydd LlCC

Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2007) Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol: Strategaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru dros y degawd nesaf

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd ar gyfer Cymru, 2009-2019, http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/090724homelessnessplanen.pdf

Wincup, E. (2009) Addressing Homelessness through Effective Partnership Working, in R Carnwell & J Buchanan (gol) Effective Practice in Health, Social Care & Criminal Justice: A partnership approach, Gwasg y Brifysgol Agored, Maidenhead.

Wincup, E., Bayliss, R. & Buckland, G., (2005). Listening to young homeless problem drug users: Considering the implications for drug service provision. Cylchgrawn y Gwasanaeth Prawf, 52(1), 39-55.

Wyner (2005) Working Together with People who are Homeless R Carnwell & J Buchanan (golygyddion) Effective Practice in Health & Social Care: A partnership approach, Gwasg y Brifysgol Agored, Maidenhead.

Atodiad 1: Holiadur Lled-Strwythuredig

'Ei dweud hi fel y mae' – Amserlen cyfweliad lled-strwythuredig

- *Esbonio'r ymchwil a'n rôl ni*
- *Darllen drwy'r daflen wybodaeth a'r ffurflen gydsynio, a'u trafod*
- *Parhau – ond dim ond ar ôl i'r sawl sy'n cael ei gyfweld gytuno i lofnodi'r cydsyniad*

Adran Un

1. Allwch chi ddweud wrthon ni beth yw eich sefyllfa dai ar hyn o bryd?
   - lle, efo pwy, ers faint, sut gwnaethoch chi gael y lle yma, allwch chi aros, ydach chi eisiau aros, ayb

2. Sut beth ydy bod yn berson ifanc yn Wrecsam sy'n trïo cael cartref?
   - ydy hi'n fwy anodd i rai pobl ifanc gael help nag eraill?

3. Sut ydych chi'n meddwl mae pobl ifanc sydd angen tai yn cael eu gweld a'u trin gan y cyhoedd?

4. Pa help ydych chi'n meddwl sydd ar gael i gefnogi pobl ifanc yn Wrecsam sydd angen tai?
   - Beth ydych chi'n ei feddwl o'r help sydd ar gael? Unrhyw un sy'n arbennig o werthfawr, yn eich barn chi?

5. Allwch chi ddweud wrthon ni beth a'ch arweiniodd chi i gael trafferthion efo tai?

6. Sut gwnaethoch chi ymdopi pan wnaethoch chi sylweddoli nad oedd gennych chi unrhyw le i fyw?

7. Pa help ydych chi wedi'i dderbyn?
   - Beth oeddech chi'n ei feddwl o'r help yna?

8. Beth, os unrhyw beth, sy'n eich atal chi rhag troi am help/defnyddio gwasanaethau yn Wrecsam?

10. Oes yna unrhyw help (gwasanaethau neu gyfleusterau) rydych chi'n meddwl ddylai fod ar gael yn Wrecsam sydd ddim yma ar hyn o bryd, neu sy'n anodd dod o hyd iddo fo?

11. Ar wahân i fod angen rhywle dechau i fyw, pa bethau eraill ydych chi'n meddwl y mae'r ***bobl ifanc rydych chi wedi cwrdd â nhw*** wedi bod eisiau help efo nhw?
    - Ar wahân i dai, pa bethau ydych ***chi*** wedi bod eisiau help efo nhw?

Adran Dau

*Cwestiynau un gair ar ddiwedd y cyfweliad (**does dim rhaid i chi ateb os nad ydych chi eisiau**) ond bydd yr atebion yn help i ddeall cefndir cyffredinol y bobl ifanc sydd wedi cael trafferthion efo tai yn Wrecsam.*

Gwryw neu Fenyw:		Faint oedd eich oed yn dod yn ddigartref am y tro cyntaf:	
Ydych chi'n siarad Cymraeg:		Ydych chi erioed wedi gorfod cysgu mewn hostel:	
Oed:		Ydych chi erioed wedi gorfod cysgu allan/ar y stryd:	
Oes gennych chi blant:		Ydych chi erioed wedi cael eich gwahardd/atal o lety:	
Hil/Cenedl:		Ydych chi erioed wedi cael problem diod:	
Oed gadael ysgol:		Ydych chi erioed wedi cael problem gyffuriau:	
Oes gennych chi unrhyw gymwysterau ffurfiol:		Ydych chi erioed wedi cael problemau efo eich iechyd meddwl/emosiynol:	
Oes gennych chi unrhyw fath o anabledd:		Ydych chi erioed wedi dioddef trosedd yn eich erbyn:	
Ydych chi erioed wedi cael eich gwahardd o ysgol:		Oes gennych chi gofnod troseddol:	
Ydych chi erioed wedi cael eich bwlio yn yr ysgol:		Ydych chi erioed wedi bod mewn Carchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc neu Uned Ddiogel:	
Ydych chi erioed wedi bod mewn gofal neu dderbyn gofal:			

Atodiad 2: Gwybodaeth ar gyfer Cyfranogwyr

Taflen wybodaeth Mehefin 2009

'Ei dweud hi fel y mae'

Astudiaeth chwe mis sy'n cael ei chyflawni gan Barnardo's a Phrifysgol Glyndŵr yn Wrecsam

Beth ydy'r astudiaeth?
Mae Cynulliad Cymru yn awyddus i gael gwell dealltwriaeth o sut beth ydy bywyd i bobl ifanc sydd heb unlle dechau i fyw yn ardal Wrecsam.

Maen nhw eisiau deall sut bethau sy'n ei gwneud hi'n fwy anodd i bobl ifanc ganfod rhywle i fyw a sut fath o bethau sy'n helpu pobl ifanc i ddod o hyd i lety dechau. Does dim unrhyw atebion 'cywir' neu 'anghywir' – yr unig beth sydd o ddiddordeb i'r astudiaeth hon ydy ***eich meddyliau chi***, eich barn ***chi***, eich profiadau ***chi*** ac maen nhw eisiau i chi ***'Ei dweud hi fel y mae'.***

Y syniad ydy hyn - pe baem ni'n gwrando'n iawn ar bobl ifanc, a deall eu profiadau, byddai asiantaethau a mudiadau mewn sefyllfa well i gynnig cymorth. Felly mae'r astudiaeth hon eisiau clywed am brofiadau pobl ifanc sy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i rywle i fyw. Anaml iawn y bydd neb yn gofyn i bobl ifanc eu hunain ddweud eu barn am y mater hwn.

Pwy ydy pwy?

- Julian Buchanan a Caroline Hughes o Brifysgol Glyndŵr
- Menna Thomas a Caz Armstrong o Compass Barnardo's

Alla' i gyfrannu?
Cewch, os ydych chi rhwng 16 a 25 oed a bod gennych chi brofiad o fethu dod o hyd i unrhyw le i fyw yn Wrecsam.

Beth fydd hyn yn ei olygu?

- Mi gawn ni sgwrs, a gofyn rhai cwestiynau, ac rydyn ni jysd eisiau i chi ei dweud hi fel y mae wrthon ni.
- Er mwyn gwneud yn siŵr nad ydyn ni'n anghofio neu'n cam-ddeall beth rydych chi wedi'i ddweud, mi hoffen ni recordio ein sgwrs.
- Os ydych chi wedi cael digon, os nad ydych chi eisiau siarad mwy neu os nad ydych chi eisiau ateb unrhyw gwestiynau penodol – dim problem.
- Bydd popeth a ddywedwch chi yn cael ei gadw'n gyfrinachol, heblaw eich bod chi'n sôn wrthon ni am ryw weithgarwch anghyfreithlon – byddai'n rhaid i ni riportio hynny.
- Bydd y sgwrs yn cymryd rhyw 45 munud o'ch amser, neu ychydyg mwy – a thra rydyn ni'n sgwrsio, mi allwch chi helpu eich hun i'r bwyd a'r diod sydd ar gael.
- Ar ddiwedd ein sgwrs, mi rown ni daleb Asda £10 i chi, i ddiolch i chi am eich amser a'ch ymdrech.

Manylion Cyswllt yr Ymchwil

Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth am yr astudiaeth, mae croeso i chi gysylltu efo Caz Armstrong yn Compass Barnardo's ar **0780 587 5864** neu mi allwch chi gysylltu efo Julian Buchanan neu Caroline Hughes dros yr ebost j.buchanan@glyndŵr.ac.uk neu c.hughes@glyndŵr.ac.uk neu drwy ffonio 01978 293448.

Atodiad 3: Ffurflen Cydsynio Cyfranogwr

Cyfweliad: Ffurflen Gydsynio

Rydyn ni'n gofyn i chi nodi eich bod wedi deall y wybodaeth lafar ac ysgrifenedig a roddwyd, drwy roi eich llofnod o dan y datganiadau isod. Byddwch chi a'r ymchwilydd yn cadw copi o'r ffurflen gydsynio hon.

1. Rydw i'n deall pwrpas yr ymchwil a pham fy mod i'n cael fy nghyfweld.

2. Rydw i'n deall y bydd y cyfweliadau efo'r ymchwilydd yn cael eu recordio'n ddigidol, ond dim ond efo fy nghaniatâd i.

3. Rydw i'n deall bod fy nghyfranogiad yn wirfoddol, ac fy mod yn rhydd i adael ar unrhyw adeg, heb roi unrhyw reswm.

4. Rydw i'n deall y bydd unrhyw ddatganiadau personol a wnaf yn ystod y cyfweliad hwn yn cael eu cadw'n gwbl gyfrinachol ac y bydd pob dyfyniad a chyfeiriad yn ddienw yn yr adroddiad.

Rydw i wedi darllen y wybodaeth uchod ac rydw i'n cytuno i gymryd rhan yn yr astudiaeth

Enw'r ymatebydd

Llofnod yr ymatebydd Dyddiad

Enw'r Ymchwilydd

Llofnod yr Ymchwilydd Dyddiad

Atodiad 4: Gwybodaeth ar gyfer y Grŵp Ymgynghorol

Taflen Wybodaeth ar gyfer y grŵp ymgynghorol Mai 2008

'Ei dweud hi fel y mae'

Astudiaeth chwe mis sy'n cael ei chyflawni gan Barnardo's a Phrifysgol Glyndŵr yn Wrecsam

Beth ydy'r astudiaeth?

Mae Cynulliad Cymru yn awyddus i gael gwell dealltwriaeth o sut beth ydy bywyd i bobl ifanc sydd heb unlle dechau i fyw yn ardal Wrecsam. Maen nhw eisiau deall sut bethau sy'n ei gwneud hi'n fwy anodd i bobl ifanc ganfod rhywle i fyw a sut fath o bethau sy'n helpu pobl ifanc i ddod o hyd i lety dechau. Does dim unrhyw atebion 'cywir' neu 'anghywir' – yr unig beth sydd o ddiddordeb i'r astudiaeth hon ydy ***eich meddyliau chi***, eich barn ***chi***, eich profiadau ***chi*** ac maen nhw eisiau i chi ***'Ei dweud hi fel y mae'.*** Y syniad ydy hyn - pe baem ni'n gwrando'n iawn ar bobl ifanc, a deall eu profiadau, byddai asiantaethau a mudiadau mewn sefyllfa well i gynnig cymorth. Felly mae'r astudiaeth hon eisiau clywed am brofiadau pobl ifanc sy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i rywle i fyw. Anaml iawn y bydd neb yn gofyn i bobl ifanc eu hunain ddweud eu barn am y mater hwn.

Pwy ydy pwy?

- Julian Buchanan a Caroline Hughes o Brifysgol Glyndŵr
- Menna Thomas a Caz Armstrong o Compass Barnardo's

Alla' i gyfrannu?

Cewch, os ydych chi rhwng 16 a 25 oed a bod gennych chi brofiad o fethu dod o hyd i unrhyw le i fyw. Yn ddelfrydol, rydym yn chwilio am chwech o bobl a fyddai'n rhoi cefnogaeth a chyngor a chymorth i ni gydol yr astudiaeth.

Beth fydd hyn yn ei olygu?

Rydyn ni'n gobeithio y gallai fod gennych chi ddiddordeb yn ein helpu ni i wneud yr astudiaeth. Mi hoffen ni gael eich help chi i benderfynu ynglŷn â'r ffordd orau o fynd ati gyda'r astudiaeth, er enghraifft:

- Pwy i gysylltu â nhw
- Y ffordd orau o gysylltu efo pobl ifanc sydd heb le dechau i fyw
- Beth i ofyn iddyn nhw
- Pryd a lle i'w gweld nhw

Pryd fyddwn ni'n cyfarfod i drafod y mater?

Mi fyddwn ni yn Compass Barnardo's:

- Dydd Mawrth 12fed Mai rhwng 11am a 2pm
- Dydd Mercher 13eg Mai rhwng 2pm a 7pm

Os oes gennych chi ddiddordeb, galwch draw i'n gweld y naill ddiwrnod neu'n llall. Mi allwn ni gael sgwrs dros baned o de neu goffi, ond mae croeso i chi adael pryd bynnag yr hoffech chi, heb roi rheswm. Bydd unrhyw beth a ddywedwch chi yn cael ei gadw'n gyfrinachol, heblaw eich bod chi'n sôn wrthon ni am ryw weithgarwch anghyfreithlon – byddai'n rhaid i ni riportio hynny. Am eich amser, ac fel ffordd o ddiolch i chi am ein helpu ni, mi gewch chi daleb £10 yn Asda. Mi hoffen ni recordio'r cyfarfod efo chi (ond dim ond os ydych chi'n fodlon) er mwyn i ni wneud yn siŵr nad ydyn ni'n anghofio dim byd.

Manylion Cyswllt

Os hoffech chi wybod mwy am yr astudiaeth, mae croeso i chi gael gair efo Caz Armstrong yn Compass Barnardo's. Neu mi allwch chi gysylltu efo Julian neu Caroline ar yr ebost j.buchanan@glyndŵr.ac.uk neu c.hughes@glyndŵr.ac.uk neu drwy ffonio 01978 293448.

Atodiad 5: Ffurflen Cydsynio'r Grŵp Ymgynghorol

Grŵp Ymgynghorol: Ffurflen Gydsynio

Rydyn ni'n gofyn i chi lofnodi'r datganiadau isod i ddangos eich bod chi wedi deall a'ch bod yn fodlon cyfrannu at yr astudiaeth hon. Mi ddylai rhywun fod wedi eu hesbonio i chi, ac mi ddylech chi hefyd fod wedi derbyn taflen wybodaeth. Os nad ydych chi'n siŵr am unrhyw beth, cofiwch ofyn.

5. Rydw i'n deall pwrpas y cyfarfod hwn, ac am beth mae'r ymchwil.

6. Rydw i'n deall y bydd fy nhrafodaeth efo'r ymchwilwyr yn cael ei recordio'n ddigidol, ond dim ond efo fy nghaniatâd i.

7. Rydw i'n deall bod cymryd rhan yn y drafodaeth hon yn wirfoddol, ac fy mod yn rhydd i adael ar unrhyw adeg, heb roi unrhyw reswm.

8. Rydw i'n deall y bydd unrhyw ddatganiadau personol a wnaf yn ystod y cyfweliad hwn yn cael eu cadw'n gyfrinachol.

Rydw i wedi deall y wybodaeth uchod ac yn cytuno i roi fy sylwadau a fy nghyngor i gyfrannu at yr astudiaeth 'Ei dweud hi fel y mae'.

Enw'r ymatebydd

Llofnod yr ymatebydd Dyddiad

Enw'r Ymchwilydd

Llofnod yr Ymchwilydd Dyddiad

Atodiad 6: Poster Gwybodaeth yr Ymchwil

Am beth wyt ti'n ddisgwyl? Mae'n bryd arwain y newid...

'Ei dweud hi fel y mae'

'AMSER I DDWEUD EICH DWEUD'

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gofyn i Barnardo's a Phrifysgol Glyndŵr wrando ar bobl ifanc yn Wrecsam a chanfod:

*** sut fath o bethau sy'n ei gwneud hi'n anodd dod o hyd i rywle i fyw?**

*** sut fath o bethau sy'n eich helpu i ddod o hyd i lety dechau?**

Os ydych chi rhwng 16 a 25 oed a bod gennych chi brofiad o fethu dod o hyd i unrhyw le i fyw, yna dan ni eisiau clywed gennych chi. Cysylltwch ag unrhyw un o'r bobl isod am sgwrs gyfrinachol.

FFONIWCH:
Caz 01978 315130
neu symudol 07805 875864

NEU GALWCH HEIBIO:
Gwasanaeth Compass Barnardo's
Brynhyfryd
2, Ffordd Grosvenor
Wrecsam LL11 1BU

Bob yn ail ddydd Mercher
o 22 Gorffennaf ar ôl 2pm – neu ffoniwch
i drefnu amser cyfleus gennych chi.

FFONIWCH:
Julian neu
Caroline
01978 293448